YSTADEGAU

# Llesiant Cymru, 2023

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Medi 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Medi 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Llesiant Cymru, 2023: rhagair

### Rhagair gan y Prif Ystadegydd

## Llesiant Cymru, 2023: prif bwyntiau

### Prif bwyntiau

## Llesiant Cymru, 2023: Cymru lewyrchus

### Y nod i Gymru lewyrchus

### Beth ydym wedi ei ddysgu o’r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

### Beth yw’r cynnydd tymor hirach at y nod?

### Perfformiad economaidd

### Arloesi mewn busnesau

### Incwm aelwydydd

### Y farchnad lafur

### Cyfranogiad mewn addysg a’r farchnad lafur

### Gwaith Teg ac Enillion

### Tlodi ac amddifadedd

### Cymwysterau



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cyrhaeddiad mewn ysgolion

Allyriadau nwyon tŷ gwydr o fusnesau

Dull teithio

Darllen pellach

Ffynonellau data


## Llesiant Cymru, 2023: Cymru gydnerth


Y nod dros Gymru gydnerth

Beth ydym wedi ei ddysgu o’r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

Beth yw’r cynnydd hirdymor tuag at y nod?

Bioamrywiaeth a chynefinoedd

Dŵr a pherygl llifogydd

Ansawdd aer

Gwastraff ac Ailgylchu

Cynhyrchu ynni adnewyddadwy

Darllen pellach

Ffynonellau data


## Llesiant Cymru, 2023: Cymru iachach


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Y nod ar gyfer Cymru iachach

Beth ydym wedi ei ddysgu o'r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

Beth yw'r cynnydd hirdymor tuag at y nod?

Disgwyliad oes

Achosion marwolaethau

Anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes a marwolaeth

Babanod â phwysau geni isel

Iechyd mamau

Ymddygiadau ffordd iach o fyw

Iechyd meddwl a llesiant ymysg oedolion

Iechyd meddwl a llesiant plant

Tai peryglus

Darllen pellach

Ffynonellau data

---

## Llesiant Cymru, 2023: Cymru sy'n fwy cyfartal

Y nod i Gymru sy'n fwy cyfartal

Beth ydym wedi ei ddysgu o'r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

Beth yw'r cynnydd hirdymor tuag at y nod?

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Anfantais economaidd-gymdeithasol

Rhywedd

Oedran

Ethnigrwydd

Crefydd

Cyfeiriadedd rhywiol

Hunaniaeth Rhywedd

Anabledd

Statws priodasol

Darllen pellach

Ffynonellau data


---

## Llesiant Cymru, 2023: Cymru o gymunedau cydlynus


Y nod ar gyfer Cymru o gymunedau cydlynus

Beth ydym wedi'i ddysgu o'r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

Beth yw'r cynnydd tymor hwy tuag at y nod?

Cydlyniant cymunedol

Teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu

Bodlonrwydd â'r ardal leol


---


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Dylanwadu ar benderfyniadau lleol

Gwirfoddoli

Unigrwydd

Allgáu digidol

Digartrefedd

Troseddu a chyfiawnder

Darllen pellach

Ffynonellau data

---

## Llesiant Cymru, 2023: Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Beth ydym wedi ei ddysgu o’r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

Beth yw’r cynnydd tymor hwy tuag at y nod?

Celfyddydau, diwylliant a threftadaeth

Presenoldeb a chyfranogiad oedolion yn y celfyddydau

Plant a’r celfyddydau

Amgueddfeydd ac archifau

Cymryd rhan mewn chwaraeon

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cyfranogaeth plant mewn chwaraeon

Siaradwyr Cymraeg

Defnydd o'r Gymraeg

Rhuglder yn y Gymraeg

Adeiladau hanesyddol a henebion

Darllen pellach

Ffynonellau data

## Llesiant Cymru, 2023: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Y nod ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Beth ydym wedi'i ddysgu o'r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

Beth yw'r cynnydd tymor hwy tuag at y nod?

Cyd-destun Byd-eang, Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Newid yn yr hinsawdd

Nwyon tŷ gwydr

Ôl troed byd-eang

Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol

Caethwasiaeth modern

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod

Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang

Eco-Ysgolion

Myfyrwyr Rhyngwladol

Tlodi bwyd

Ceiswyr lloches

Darpariaeth brechu

Cosbi plant yn gorfforol

Safleoedd treftadaeth y byd

Darllen pellach

Ffynonellau data

---

## Llesiant Cymru, 2023: gwybodaeth gefndir

Beth yw'r adroddiad hwn?

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Beth yw'r dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru?

Sut mae hyn yn berthnasol i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig?

Beth yw'r cerrig milltir cenedlaethol?

Pwy gynhyrchodd yr adroddiad hwn?

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Amseroldeb**

**Cwmpas**

**Hygyrchedd**

**A yw'r holl ddata'n ystadegau swyddogol?**

**Beth arall ddylwn i ei wybod am y data?**

**Pwy sy'n defnyddio'r adroddiad hwn?**

**Cyd-destun y Deyrnas Unedig**

**Dolenni perthnasol eraill**

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Rhagair

## Rhagair gan y Prif Ystadegydd

Bob blwyddyn mae adroddiad Llesiant Cymru yn gyfle i gamu'n ôl ac edrych ar sut mae pobl a lleoedd yng Nghymru yn newid. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r fframwaith i ni ar gyfer gwneud hyn: y saith nod llesiant. Mae'r nodau hyn yn sail i'r penodau yn yr adroddiad hwn.

Gyda chwyddiant yn codi'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r effaith ar gostau byw yn ymddangos yn rheolaidd drwy gydol yr adroddiad hwn. Roedd chwyddiant wedi cyrraedd ei lefel uchaf o dros 11% ym mis Hydref 2022, gan arwain at ostyngiadau yn incwm gwirioneddol pobl. Nid yw rhai o effeithiau'r argyfwng wedi eu nodi'n llawn eto, ond mae'r adroddiad hwn yn cynnwys tystiolaeth hyd yma ar y sefyllfa yng Nghymru. Mae dadansoddiad yn awgrymu bod effaith yr argyfwng wedi cael ei theimlo'n fwyaf difrifol gan bobl ar incwm isel.

Adroddiad eleni yw'r cyntaf i gynnwys mesur o "allyriadau defnydd" sy'n cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr a briodolir i eitemau a gynhyrchir y tu allan i Gymru ond a ddefnyddir yma. Ac am y tro cyntaf er 2015 mae diweddariad i'r ôl troed byd-eang, sef mesur o'r baich amgylcheddol a roddwn ar y blaned. Mae'r ddau ddangosydd hyn yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud ond y bydd angen i ni symud yn gyflymach i leihau ein heffaith fyd-eang.

Mae tystiolaeth hefyd eleni bod plant a phobl ifanc yn waeth o lawer mewn rhai ardaloedd ers y pandemig nag oedolion. Mae canran y babanod sydd â phwysau geni isel wedi codi i'w lefel uchaf eleni. Roedd llai o blant pedair oed ar y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg, iaith, llythrennedd a chyfathrebu na chyn y pandemig.  Roedd data ar lefelau bodlonrwydd ar fywyd wedi gostwng ymysg pobl ifanc (ond roedd wedi gwella yn achos oedolion), ac roedd llai o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Ar ben hynny, cofnododd Arolwg Chwaraeon mewn Ysgolion 2022 y lefelau isaf o gyfranogiad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mewn chwaraeon y tu allan i'r ysgol ymysg plant, yn wahanol i'r darlun gwell o ran cyfranogiad rheolaidd mewn chwaraeon ymysg oedolion. Ac yn ôl Cyfrifiad 2021, plant oedd y grŵp i brofi'r gostyngiad mwyaf yn y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg. Gall y canfyddiadau hyn arwain at ganlyniadau hirdymor o ran y cynnydd tuag at y nodau llesiant.

## Ethnigrwydd a llesiant

Eleni rydym wedi cyhoeddi adroddiad atodol ochr yn ochr ag adroddiad Llesiant Cymru sy'n canolbwyntio ar ethnigrwydd a llesiant. Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, roedd argaeledd data a thystiolaeth yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro. Nod yr adroddiad atodol yw dwyn ynghyd y dystiolaeth bresennol er mwyn archwilio cynnydd tuag at y nodau llesiant ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig. Ochr yn ochr â mathau eraill o dystiolaeth, gellir defnyddio hyn i helpu i lywio penderfyniadau er mwyn creu Cymru sy'n fwy cyfartal.

## Newydd eleni

Adroddiad Llesiant Cymru y llynedd oedd y cyntaf i adrodd ar dargedau fesul cenhedlaeth a adwaenir fel cerrig milltir cenedlaethol. Mae adroddiad eleni yn ehangu hyn ymhellach drwy gynnwys yr ail don o gerrig milltir a osodwyd ddiwedd 2022. Mae'n ymddangos bod un o'r cerrig milltir newydd hyn, sef cynyddu canran y bobl sy'n gwirfoddoli 10%, wedi cael ei gyflawni yn 2022-23, ond bydd angen ei gynnal dros y blynyddoedd nesaf.

Rydym hefyd wedi gwneud rhai gwelliannau ar sail adborth gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau fel rhan o'u hasesiad y llynedd o'r adroddiad hwn. Rydym wedi ceisio gwella sut rydym yn cyfleu unrhyw ansicrwydd yn y data drwy roi newidiadau tymor byr yng nghyd-destun tueddiadau hirdymor. Pan fyddwn yn defnyddio data arolwg, rydym hefyd wedi gwneud sylwadau ynghylch a yw'r newidiadau hyn yn "ystadegol arwyddocaol", sy'n golygu eu bod yn annhebygol o fod wedi digwydd ar hap. Rydym hefyd yn datblygu fframwaith

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sy'n nodi sut rydym yn penderfynu pa fathau o ffynonellau data i'w defnyddio yn yr adroddiad hwn ac i fesur y dangosyddion cenedlaethol. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi cyn adroddiad y flwyddyn nesaf. Gobeithio bod hyn yn rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch ansawdd a gwerth adroddiad Llesiant Cymru.

Stephanie Howarth
Prif Ystadegydd

# Prif bwyntiau

# Prif bwyntiau

Mae Cymru, ynghyd â gweddill y Deyrnas Unedig, wedi wynebu argyfwng costau byw: mae chwyddiant wedi codi'n sylweddol gan gyrraedd ei lefel uchaf sef 11.1% ym mis Hydref 2022, gan arwain at ostyngiadau yn incwm gwirioneddol pobl. Gan fod y cynnydd mewn prisiau wedi bod fwyaf amlwg ym mhrisiau ynni a bwyd, pobl ar incwm isel sydd wedi teimlo effaith hyn fwyaf gan eu bod yn gwario cyfran uwch o'u cyllideb ar y nwyddau hyn, er gwaethaf y mesurau a roddwyd ar waith gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Roedd gostyngiad bach yn y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, ac roedd cyfradd y Deyrnas Unedig wedi codi rhywfaint. Roedd anweithgarwch economaidd wedi codi yn ystod 2022 a dechrau 2023 gydag anweithgarwch oherwydd salwch yn cyrraedd lefelau hanesyddol uchel.

Sefydlwyd carreg filltir genedlaethol ar gymryd rhan mewn addysg a'r farchnad lafur yn 2021, sef y bydd o leiaf 90% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050. Mae amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2021, yn dangos gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn addysg a'r farchnad lafur sy'n cael ei sbarduno gan gynnydd yn y gyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y pandemig ar y duedd hon.

Ym mis Ebrill 2022, 6.1% oedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (llawn amser), gan gynyddu o 4.4% y flwyddyn flaenorol.  Roedd y gwahaniaeth cyflog ar sail anabledd yn 9.7%, sy'n golygu bod gweithwyr anabl yng Nghymru yn ennill £1.32 yn llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl. Mae hyn wedi lleihau £0.13 (1.7 pwynt canran) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn 2022 roedd y gwahaniaeth ar sail ethnigrwydd yn £2.23 yr awr (neu 16.8%), sy'n golygu bod gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn ennill £2.23 yn llai yr awr ar gyfartaledd na gweithwyr Gwyn. Mae'r gwahaniaeth cyflog wedi ehangu £1.38 (9.9 pwyntiau canran) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ein hôl troed byd-eang yw cyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned. Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer y dangosydd ôl troed byd-eang yw y bydd Cymru ond yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r byd erbyn 2050. Mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu bod yr ôl troed byd-eang fesul unigolyn wedi gostwng bron i draean rhwng 2004 a 2018. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod dros ddwywaith yr amcangyfrif o'r biogapasiti yng Nghymru. Pe bai holl boblogaeth y byd yn byw fel dinasyddion Cymru, byddai angen tir cyfwerth â 2.08 Daear ar ddynoliaeth.

Mae'r asesiad cynhwysfawr diweddaraf o adnoddau naturiol Cymru yn dangos bod amrywiaeth fiolegol yn dirywio ar y cyfan. Y garreg filltir genedlaethol ar fioamrywiaeth yw gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050. Roedd dangosydd arbrofol ar statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2021 yn dangos bod dosbarthiad rhywogaethau yng Nghymru wedi dirywio dros yr hirdymor ond ei fod yn sefydlog yn fwy diweddar.

Mae Cymru wedi gweld gostyngiad o ran cynhyrchu gwastraff a gwelliannau sylweddol yng nghyfraddau ailgylchu gwastraff, ond rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau'n gyflymach nag y gellir eu hadnewyddu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer disgwyliad oes iach yw cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch rhwng disgwyliad oes iach y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050. Mae'r data yn dangos bod disgwyliad oes iach yn parhau i fod yn waeth i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, ond mae wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2011-13 a 2018-20.

Nod y garreg filltir genedlaethol yw cynyddu canran yr oedolion sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 97% erbyn 2050. Yn 2022-23 roedd y mwyafrif (92%) o oedolion yn dweud eu bod yn dilyn dau neu fwy o'r pum ymddygiad ffordd o fyw iach.

Nod y garreg filltir genedlaethol yw cynyddu canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% erbyn 2035 ac i dros 99% erbyn 2050. Mae'r data'n dangos bod canran y bobl ifanc a oedd yn cyrraedd y garreg filltir genedlaethol yn 2021 yn 90%, ychydig yn uwch na'r 88% a gofnodwyd yn 2019 a 2017.

Y garreg filltir genedlaethol ar lesiant meddyliol yw gwella llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu'r bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050. Roedd llesiant meddyliol oedolion ar gyfartaledd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaeth yn y moddau casglu, mae'n anodd cymharu'r dangosydd hwn yn y tymor hwy.

Rhwng 2019-20 a 2021-22, roedd ychydig mwy nag un o bob pump o'r boblogaeth (21%%) yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar ôl talu am gostau eu tai.

Mae merched yn parhau i gael deilliannau addysgol gwell ar lefel TGAU. Yn ystod yr haf 2022, dyfarnwyd mwy o raddau A* - C i ferched na bechgyn. Roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng graddau ar raddfa A* ac A: dyfarnwyd 6.5 a 4.5 pwynt canran yn fwy i ferched na bechgyn, yn y drefn honno. Ehangodd y gwahaniaeth o ran graddau A* yn 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae bwlch o hyd rhwng deilliannau addysgol plant yn yr ysgol sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gyda’r bwlch ar lefel TGAU yn ehangu yn y 6 blynedd diwethaf.

Yn 2022-23, roedd sgoriau boddhad â bywyd yn parhau i fod yn debyg i’r lefelau cyn y pandemig ar gyfer pob grŵp oedran ac eithrio’r rhai rhwng 16 a 24 oed a rhwng 25 a 44 oed. Mae pobl 16 i 24 oed yn dal yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn unig na phobl 65 oed a hŷn.

Ar wahân i bobl ifanc, mae rhai grwpiau eraill sy’n fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo’n unig. Mae’r rhain yn cynnwys pobl anabl sydd â nam hirdymor cyfyngol, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, a phobl sy’n lesbiaid, yn hoyw neu’n ddeurywiol.

Roedd dangosyddion cydlyniant cymunedol wedi bod yn weddol sefydlog ers iddynt gael eu casglu am y tro cyntaf yn 2012 tan y gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2020-21. Yn ystod yr un flwyddyn hefyd gwelwyd newid sylweddol cadarnhaol yn y ffordd mae pobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau lleol. Ni fydd yn glir a fydd y cynnydd yn 2020-21 a 2021-22 yn cael ei gynnal nes bydd data ar gael ar gyfer nifer o flynyddoedd yn y dyfodol.

Cyrhaeddwyd y garreg filltir genedlaethol eleni sef bod 30% o bobl yn gwirfoddoli, ond bydd angen cynnal hyn. Cynyddodd gwirfoddoli yn ystod pandemig COVID-19, ac mae canlyniadau 2022-23 yn dangos bod y lefel uwch hon wedi cael ei chynnal (o 26% yn 2019-20, i 29% yn 2021-22 a 30% yn 2022-23).

Nid oedd llawer o newid eleni yn nifer yr aelwydydd a gysylltodd â’u hawdurdod lleol i gael cymorth gan eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd. Ond roedd cynnydd yn nifer yr aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref a nifer yr aelwydydd a oedd mewn llety dros dro yn 2022-23 o’i gymharu â 2021-22.

Mae mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd eleni. Dywedodd 39% o oedolion eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy. Roedd gostyngiad yn y ganran a ddywedodd nad oeddent

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn gwneud unrhyw chwaraeon na gweithgarwch corfforol – o 44% yn 2021-22 i 40% eleni.

Mae llai o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon rheolaidd y tu allan i'r ysgol. Roedd 39% o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu dair gwaith yr wythnos neu fwy yn 2022, i lawr 9 pwynt canran o'r arolwg diwethaf yn 2018.

Gostyngodd nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, gyda'r ganran bellach yr isaf i'w chofnodi erioed mewn cyfrifiad. Mae carreg filltir genedlaethol i filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn ôl y cyfrifiad, roedd 538,000 o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn 2021, i lawr o bron i filiwn yn 1911.

Yn 2021, amcangyfrifwyd bod allyriadau nwyon tŷ gwydr a ryddhawyd i'r atmosffer yn uniongyrchol o Gymru yn gyfanswm o 36.3 miliwn o dunelli o garbon deuocsid cyfatebol (MtCO2e), 7% o gynnydd ers 2020.

# Cymru lewyrchus

# Y nod i Gymru lewyrchus

Awduron: Jonathan Price a Sue Leake

Cymru lewyrchus: Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, garbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Beth ydym wedi ei ddysgu o’r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

Mae canlyniadau’r rhyfel yn Wcráin, sy’n gwaethygu’r heriau sy’n deillio o’r pandemig, wedi dominyddu ffactorau eraill sy’n effeithio ar ganlyniadau economaidd, gan gynnwys y trawsnewid i berthynas fasnachu newydd â’r Undeb Ewropeaidd. Yr argyfwng costau byw, a’i effaith andwyol ar safonau byw, wrth gwrs yw’r mwyaf amlwg o’r canlyniadau hynny.

Mae Cymru, ynghyd â gweddill y Deyrnas Unedig, wedi wynebu argyfwng costau byw: mae chwyddiant wedi codi’n sylweddol gan gyrraedd ei lefel uchaf sef 11.1% ym mis Hydref 2022, gan arwain at ostyngiadau yn incwm gwirioneddol pobl. Gan fod y cynnydd mewn prisiau wedi bod fwyaf amlwg ym mhrisiau ynni a bwyd, pobl ar incwm isel sydd wedi teimlo effaith hyn fwyaf gan eu bod yn gwario cyfran uwch o’u cyllideb ar y nwyddau hyn, er gwaethaf y mesurau a roddwyd ar waith gan Lywodraethau’r Deyrnas Unedig a Chymru i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Mae ystadegau arbrofol y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi dangos bod grwpiau incwm is wedi profi cyfraddau chwyddiant uwch na’r cyfartaledd yn ddiweddar.

Mae cynnydd mewn cyfraddau llog hefyd yn cael effaith andwyol ar fenthycwyr, ac yn enwedig y rhai sydd â morgais. Mae llawer o’r dangosyddion cenedlaethol sydd yn y bennod hon yn ymwneud â blynyddoedd cynharach ac nid ydynt eto’n adlewyrchu effeithiau mwy diweddar y ffactorau hyn.

Mae data diweddar ar gyfer Prydain Fawr wedi dangos bod cyflogau gwirioneddol wedi disgyn, er bod y gostyngiad wedi ei wrthdroi yn y data diweddaraf o wanwyn 2023.

Rhwng 2019-20 a 2021-22, roedd 21% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai).

Mae perfformiad economaidd sylfaenol Cymru yn parhau i fod yn wannach na’r Deyrnas Unedig drwyddi draw o ran cynnyrch economaidd (gwerth ychwanegol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gros) ac incwm aelwydydd (incwm gwario gros aelwydydd ac incwm canolrifol aelwydydd), ond mae'n eithaf tebyg i rai rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig sydd â nodweddion a phriodweddau tebyg.

Mae data'r farchnad lafur a geir o arolygon yn gallu bod yn anwadal dros y tymor byr ac mae'n bwysig peidio â gor-ddehongli'r newidiadau a adroddwyd yn ddiweddar. I gael darlun mwy cyflawn o ddata'r farchnad lafur dylid ystyried data o'r Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru ochr yn ochr â ffynonellau eraill, gan gynnwys data gweinyddol. Gyda'r rhybudd hwn, mae data'r farchnad lafur yn awgrymu bod y pandemig wedi effeithio ar berfformiad economaidd Cymru mewn ffordd sy'n debyg yn fras i'r Deyrnas Unedig (ac eithrio Llundain).

Roedd gostyngiad bach yn y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, ac roedd cyfradd y Deyrnas Unedig wedi codi rhywfaint. Roedd anweithgarwch economaidd wedi codi yn ystod 2022 a dechrau 2023 gydag anweithgarwch oherwydd salwch yn cyrraedd lefelau hanesyddol uchel.

Sefydlwyd carreg filltir genedlaethol ar gymryd rhan mewn addysg a'r farchnad lafur yn 2021, sef y bydd o leiaf 90% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050. Mae amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2021, yn dangos gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn addysg a'r farchnad lafur sy'n cael ei sbarduno gan gynnydd yn y gyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith lawn y pandemig ar y duedd hon.

Cyflwynwyd dangosydd cenedlaethol newydd ar gyfran y gweithwyr y pennir eu cyflog drwy gydfargeinio ym mis Rhagfyr 2021. Roedd 52% o weithwyr yn dod o dan drefniadau cydfargeinio yn 2022, lle mae cyflog ac amodau'n cael eu negodi rhwng cyflogwr ac undeb llafur. Mae hyn ychydig yn llai na'r blynyddoedd diwethaf.

Ym mis Ebrill 2022, 6.1% oedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (llawn amser), gan gynyddu o 4.4% y flwyddyn flaenorol.  Roedd y gwahaniaeth cyflog ar sail

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

anabledd yn 9.7%, sy’n golygu bod gweithwyr anabl yng Nghymru yn ennill £1.32 yn llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl. Mae hyn wedi lleihau £0.13 (1.7 pwynt canran) o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Yn 2022 roedd y gwahaniaeth ar sail ethnigrwydd yn £2.23 yr awr (neu 16.8%), sy’n golygu bod gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn ennill £2.23 yn llai yr awr ar gyfartaledd na gweithwyr Gwyn. Mae’r gwahaniaeth cyflog wedi ehangu £1.38 (9.9 pwynt canran) o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Mae data ar deithio a siwrneiau yn dangos bod lefel y traffig wedi dychwelyd i’r lefelau a welwyd cyn pandemig COVID-19, er bod siwrneiau bws yn dal yn is o lawer nag yr oeddent. Mae’r mwyafrif helaeth (82%) o drigolion Cymru yn teithio i’r gwaith mewn car, tra bo’r rhan fwyaf o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed naill ai’n cerdded i’r ysgol neu’n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (68%).

Mae proffil cymwysterau poblogaeth oedran gweithio Cymru wedi bod yn gwella dros amser, hyd at 2021. Ni ellir cymharu’r amcangyfrifon ar gyfer 2022 â blynyddoedd blaenorol yn dilyn newidiadau i’r cwestiynau ar gymwysterau yn y data ffynhonnell.

# Beth yw’r cynnydd tymor hirach at y nod?

Cymysg fu’r cynnydd at y nod, gyda gwelliannau ym mherfformiad cyffredinol y farchnad lafur o’i gymharu â’r cyfnod cyn datganoli ond llai o gynnydd wrth fynd i’r afael â thlodi, cynhyrchiant a chyflogau isel, a lefelau incwm isel. Mae cynnydd wedi ei wneud o ran datgarboneiddio, ond bydd angen newid yn gyflymach yn y dyfodol er mwyn cyrraedd targedau.

Mae’r rhyfel yn Wcráin, yn dilyn y pandemig, a’r argyfwng costau byw cysylltiedig, wedi cael effaith amlwg ar y data diweddaraf, ac nid yw’r goblygiadau ar gyfer tueddiadau hirdymor yn glir. Am y rheswm hwn, mae llawer o’r casgliadau canlynol yn cael eu llunio ar sail tystiolaeth cyn y pandemig neu ddata diweddar nad yw’n gwbl gydnaws â data a gasglwyd cyn y pandemig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Fel sy’n wir ar draws y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, mae’r twf yn yr economi ac mewn incwm gwirioneddol wedi bod yn araf ers dirwasgiad 2008, gan adlewyrchu twf cynhyrchiant gwan.  Er bod arafu twf cynhyrchiant wedi effeithio ar y rhan fwyaf o wledydd datblygedig dros y cyfnod hwn, mae’r Deyrnas Unedig ymhlith y rhai sydd wedi gweld yr effaith fwyaf.

Mae’r canlyniadau niweidiol hyn yn y blynyddoedd diweddaraf yn dilyn y cyfnod hir o fwy na phymtheg mlynedd – na welwyd ei debyg o’r blaen mewn hanes modern – o dwf araf iawn mewn cyflogau gwirioneddol ac incwm ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru.

Adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, mae esblygiad yr argyfwng costau byw yn ansicr iawn, gan ddibynnu’n drwm ar y cyd-destun yn fyd-eang, yn cynnwys datblygiadau’r gwrthdaro yn Wcráin.  Ar ben hynny, gallai Llywodraeth y Deyrnas Unedig roi rhagor o fesurau ar waith sy’n lliniaru rhai o’r effeithiau.

Mae gwaith ymchwil a dadansoddi diweddar, gan gynnwys gan Fanc Lloegr, wedi dangos bod modd gweld effeithiau negyddol ar weithgarwch economaidd yn sgil y newid i gysylltiadau masnachu newydd gyda’r Undeb Ewropeaidd yn barod, er mai dros amser y daw llawer o’r canlyniadau yn amlwg.

Dros yr hirdymor, ers 1998, mae Cymru wedi cadw i fyny’n fras â’r Deyrnas Unedig drwyddi draw, ond mae ei pherfformiad economaidd yn dal yn wan o’i gymharu â pherfformiad llawer o rannau eraill o’r Deyrnas Unedig.

Er bod perfformiad Cymru o ran cyflogau a chynhyrchiant yn dal yn llai cadarnhaol na pherfformiad y farchnad lafur, mae data’n dangos gwelliannau cymedrol yng nghynhyrchiant cymharol Cymru dros y degawd diwethaf, gan wrthdroi’r dirywiad cyn dirwasgiad 2008.

Mae canran y bobl sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru ers dros 17 mlynedd, gyda phlant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na’r boblogaeth yn gyffredinol.

Mae’n rhy gynnar i asesu effeithiau’r pandemig ar bobl ifanc, er bod tystiolaeth gynnar yn dangos bod y canlyniadau economaidd-gymdeithasol wedi effeithio’n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

anghymesur arnynt. Ceir tystiolaeth yn benodol fod yr amhariad ar addysg wedi effeithio ar bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig, a bod effeithiau parhaol ar bresenoldeb ysgol. Gan ddibynnu ar effeithiolrwydd y mesurau lliniaru sydd ar waith, gallai'r effeithiau niweidiol ddylanwadu ar y farchnad lafur dros y blynyddoedd neu hyd yn oed y degawdau nesaf. Mae incwm cyfartalog aelwydydd yng Nghymru yn llawer agosach at gyfartaledd y Deyrnas Unedig na'r gwerth ychwanegol gros (GVA) y pen, gyda gwahaniaethau yn dibynnu ar y mesur a ddefnyddiwyd a chyda'r bwlch lleiaf pan asesir ar gyfer y cartref canolrifol.

Y garreg filltir genedlaethol ar gyflogaeth (sy'n seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) yw dileu'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur. Mae'r bylchau hanesyddol mewn cyfraddau cyflogaeth a gweithgarwch rhwng Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig wedi lleihau ers y cyfnod datganoli, gyda Chymru'n perfformio'n well na rhai rhanbarthau yn Lloegr dros y tymor canolig. Mae hyn yn newid sylweddol o'r cyfnod cyn datganoli yn yr 1980au a'r 1990au.

Mae gan Gymru fwy o bobl mewn gwaith ar gyflogau isel na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.  Yn ogystal, mae'r dystiolaeth ar agweddau eraill ar ansawdd gwaith yn awgrymu darlun cymysg yng Nghymru.

Mae proffil cymwysterau poblogaeth oedran gweithio Cymru wedi bod yn gwella dros amser, gyda data hyd at 2021 yn dangos gwelliant yng nghyfran y bobl sy'n gymwys ar lefelau uwch, ond roedd cynnydd hefyd yng nghyfran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau. Fodd bynnag, nid oes modd cymharu'r ystadegau ar gyfer 2022 â'r blynyddoedd blaenorol.

Un o'r cerrig milltir cenedlaethol ar gymwysterau yw y bydd 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn gymwys i lefel 3 neu uwch erbyn 2050. Yn 2022, roedd 66.8% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru wedi cymhwyso i drothwy lefel 3. Y garreg filltir genedlaethol arall ar gymwysterau yw y bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050. Yn 2022, roedd gan dri o'r 22

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

awdurdod lleol yng Nghymru 5% neu lai o oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau.

Cynyddodd cyrhaeddiad mewn ysgolion uwchradd yn y blynyddoedd cyn y pandemig. Amharwyd ar arholiadau cyhoeddus yn 2020 a 2021 oherwydd pandemig COVID-19. Mae data ar gyfer blwyddyn ysgol 2021/22, a oedd yn flwyddyn bontio lle roedd disgyblion yn sefyll arholiadau ysgrifenedig gyda rhai addasiadau, yn dangos rhywfaint o welliant parhaus o'i gymharu â blynyddoedd cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae canlyniadau plant o gefndiroedd difreintiedig yn dal i fod yn waeth.

Mae rheoli'r rhyngweithio rhwng twf economaidd a datblygu economi arloesol, garbon isel yn gymhleth ac yn arwain at heriau, ond mae arwyddion cadarnhaol mewn rhai sectorau.

Ers dirwasgiad 2008, mae buddsoddi yn arloesedd cwmnïau yng Nghymru wedi amrywio. Cofnodwyd bod pethau wedi gwella rhywfaint cyn y pandemig o ran bod busnesau'n arloesi.

Mae teithio'n cyfrannu'n sylweddol at allyriadau carbon, ond nid oes tystiolaeth o symud oddi wrth geir fel y prif ddull o deithio.

Mae'n ymddangos bod y pandemig wedi cyflymu'r duedd i ymgymryd â gweithgarwch economaidd o bell, gan gynnwys gweithio gartref. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2022 roedd 25% o bobl gyflogedig yn gwneud rhan o'u gwaith, neu'r cyfan, gartref neu mewn lleoliad arall o bell.

Mae'n bosibl y bydd mwy o weithio gartref a manwerthu ar y rhyngrwyd yn cynyddu'r heriau sy'n wynebu rhai canolfannau trefol, ac efallai y bydd goblygiadau i'r farchnad dai. Mae tystiolaeth o'r Deyrnas Unedig gyfan yn dangos y gallai'r cyfleoedd ychwanegol i weithio gartref fod wedi annog mwy o fenywod i gymryd rhan yn y farchnad lafur.

Mae data Prydain Fawr yn dangos bod lefelau traffig a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus wedi codi'n ôl ers y pandemig ond heb gyrraedd y lefelau cyn y pandemig eto, gydag effaith benodol ar ddefnyddio bysiau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Perfformiad economaidd

Fel sy'n wir ar draws y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, mae'r twf yn yr economi ac mewn incwm gwirioneddol wedi bod yn araf ers dirwasgiad 2008, gan adlewyrchu twf gwael mewn cynhyrchiant. Mae twf cynhyrchiant hefyd wedi bod yn wan dros y cyfnod hwn yn y rhan fwyaf o wledydd datblygedig eraill, ond mae'r Deyrnas Unedig wedi bod yn arbennig o wael. Mae'r cyfnod hir o dwf araf mewn cynhyrchiant ac incwm gwirioneddol yn ddigynsail yn y cyfnod modern.

Mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol agos hefyd yn ymddangos yn wael, gyda chwyddiant uchel yn lleihau incwm gwirioneddol a rhagolygon o arafu economaidd.

Dros yr hirdymor, ers 1998, a chymryd dangosyddion economaidd gyda'i gilydd mae Cymru wedi cadw'n weddol gyson â'r Deyrnas Unedig. Er bod y perfformiad economaidd yn parhau i fod yn wan o'i gymharu â llawer o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae data cynhyrchiant dros y degawd diwethaf yn rhoi awgrym o obaith. Fodd bynnag, mae'r bwlch gyda'r Deyrnas Unedig gyfan yn dal yn fawr, ac nid yw'r Deyrnas Unedig ei hun yn perfformio'n gryf o'i chymharu â lefelau cynhyrchiant yn rhyngwladol.

Mae gwerth ychwanegol gros (GVA) yn cynrychioli gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal. Dyma ffynhonnell yr incwm gwirioneddol y mae pobl yn ei ennill a'r sylfaen y gellir codi trethi arni i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

Er bod gwerth ychwanegol gros y pen poblogaeth Cymru wedi tyfu'n weddol debyg i'r gyfradd ledled y Deyrnas Unedig ers 1998, mae'n dal yn is na bron pob un o wledydd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig.

Mae'r data diweddaraf (ar gyfer 2021) yn dangos mai gwerth ychwanegol gros y pen yng Nghymru oedd 74.1% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig, yr ail isaf o blith 12 gwlad y Deyrnas Unedig a rhanbarthau Lloegr, o flaen Gogledd-ddwyrain Lloegr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ar hyn o bryd nid yw data economaidd yn caniatáu llunio asesiad diffiniol o berfformiad economaidd cymharol Cymru yn ystod y pandemig a'r argyfwng costau byw. Yn gyffredinol, mae graddfa gymharol effaith y ddau ddigwyddiad yn edrych yn debyg yng Nghymru i'r Deyrnas Unedig drwyddi draw.

Mae perfformiad Cymru o ran gwerth ychwanegol gros y pen yn bennaf yn adlewyrchu'r lefelau cynhyrchiant cymharol isel. Mae cynhyrchiant, wedi ei fesur fel gwerth ychwanegol gros yr awr a weithir, yn parhau i fod yn is yng Nghymru nag ym mhob rhan arall bron o'r Deyrnas Unedig. Yn 2021, roedd yn 84.1% o ffigur y Deyrnas Unedig, sy'n gynnydd o 0.7 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.


Mae data dros y degawd diwethaf yn cadarnhau gwelliannau cymedrol mewn cynhyrchiant cymharol (gwerth ychwanegol gros yr awr a weithir), gan efallai wrthdroi tuedd o ddirywiad cyn y dirwasgiad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 1.1: Gwerth ychwanegol gros yr awr a weithir yng Nghymru, gan gymharu â’r Deyrnas Unedig,1998 i 2021**




Disgrifiad o Ffigur 1.1: Siart linell sy’n dangos bod gwerth ychwanegol gros (gwerth ychwanegol gros) yr awr a weithir yng Nghymru o’i gymharu â’r Deyrnas Unedig (mynegai prisiau cyfredol y Deyrnas Unedig = 100) wedi bod yn sefydlog ers 1998, gyda chynhyrchiant Cymru yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o gynhyrchiant llafur Rhanbarthol, y Deyrnas Unedig, 1998 i 2021, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Arloesi mewn busnesau

Mae’r wybodaeth ddiweddaraf o arolwg arloesi’r Deyrnas Unedig, am gyfnod cyn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

y pandemig (2018-2020), yn dangos bod 44% o fusnesau Cymru yn arloesi. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwneud gweithgareddau fel cyflwyno cynnyrch, gwasanaethau, prosesau neu arferion neu strwythurau busnes newydd neu well; neu'n buddsoddi mewn ymchwil a datblygu neu hyfforddiant.

Ers dirwasgiad 2008, mae buddsoddiad mewn arloesedd busnes wedi amrywio. Mae'r cyfnod diweddaraf (2018-2020) yn dangos bod pethau wedi gwella o 34% o fusnesau Cymru yn arloesi yn 2016-18; ac mae'n cynrychioli'r wythfed gyfran uchaf o gwmnïau arloesol yn 12 gwlad a rhanbarth y Deyrnas Unedig. Nid yw data o gyfnod y pandemig ar gael eto.

Mae'r gwariant ar ymchwil a datblygu yng Nghymru yn dal yn gymharol isel o'i gymharu â llawer o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

# Incwm aelwydydd

Mae incwm aelwydydd yn ddangosydd gwell o ffyniant a llesiant materol pobl na gwerth ychwanegol gros. Mae incwm cyfartalog aelwydydd yng Nghymru yn llawer agosach at gyfartaledd y Deyrnas Unedig na gwerth ychwanegol gros y pen, ond mae gwahaniaethau yn dibynnu ar y mesur a ddefnyddiwyd, gyda'r bwlch lleiaf wrth ystyried yr incwm canolrifol. Dim ond hyd at 2021 y mae data ar gyfer incwm gwario gros aelwydydd (GDHI) ar gael ar hyn o bryd, felly mae'r adran hon yn canolbwyntio ar dueddiadau hirdymor.


Mae'r dangosydd cenedlaethol ar incwm yn defnyddio mesur incwm gwario gros aelwydydd. O ran y mesur hwn, mae Cymru, yn ôl y data diweddaraf (2021), ar 83% o ffigur y Deyrnas Unedig, ar ôl gostwng o 88% pan oedd y ffigur uchaf yn 2003. Mae'r gostyngiad cymharol hwn wedi ei ysgogi'n rhannol gan gynnydd mawr yn incwm aelwydydd yn Llundain, sydd wedi helpu i godi cyfartaledd y Deyrnas Unedig.

Er mai dim ond dau o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig sydd ag incwm gwario gros aelwydydd y pen is na Chymru, mae'n cymharu'n fras ag ardaloedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn y Deyrnas Unedig sydd â nodweddion tebyg.

## Ffigur 1.2: Incwm gwario gros aelwydydd y pen, Cymru a'r Deyrnas Unedig,1999 i 2021




Disgrifiad o Ffigur 1.2: Siart linell yn dangos bod incwm gwario gros aelwydydd (GDHI) y pen wedi cynyddu'n gyffredinol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig ers 1999, gyda'r gwerth i Gymru yn parhau'n is na'r Deyrnas Unedig ar draws y cyfnod amser.

Ffynhonnell: Incwm Gwario Gros Aelwydydd Rhanbarthol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Sylwch fod cymariaethau rhwng 2020 a 2021 ar gyfer amcangyfrifon GDHI y pen yn cael eu nodi fel rhai annibynadwy oherwydd diffyg parhad yn y data poblogaeth ar gyfer rhai ardaloedd, a achosir gan wahaniaethau yn amseriad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

diweddariadau’r cyfrifiadau.

## Y farchnad lafur

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae newidiadau yn y farchnad lafur yng Nghymru wedi adlewyrchu’r broses adfer sy’n digwydd yn dilyn effeithiau’r pandemig. Wrth edrych dros y tymor canolig, mae perfformiad y farchnad lafur yng Nghymru wedi gwella o’i gymharu â’r Deyrnas Unedig (wrth edrych ar y sefyllfa cyn datganoli).

Er mai’r Arolwg o’r Llafurlu (LFS) yw’r brif ffynhonnell o hyd ar gyfer prif ddangosyddion y farchnad lafur ar lefel Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf, mae data’r arolwg hwn wedi bod yn arbennig o gyfnewidiol, sy’n golygu ei bod yn anodd dod i gasgliadau am dueddiadau eang. Mae sampl mwy’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth (APS) yn caniatáu amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol ac ar gyfer is-grwpiau o’r boblogaeth, a dyma’r ffynhonnell ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol a’r cerrig milltir cenedlaethol cysylltiedig. Gan fod y rhan fwyaf o ddata’r farchnad lafur yn seiliedig ar arolwg ac yn anwadal, ni ddylid gor-ddehongli newidiadau tymor byr. Y garreg filltir genedlaethol ar gyflogaeth (sy'n seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) yw dileu’r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur. Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru oedd 73.0% yn y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2023, tra bo cyfradd y Deyrnas Unedig yn 75.4%. Ers 2001, mae’r gyfradd cyflogaeth wedi cynyddu 5.9 pwynt canran yng Nghymru a 3.1 pwynt canran yn y Deyrnas Unedig.


Mae COVID-19 wedi cael effeithiau niweidiol ar y farchnad lafur, ac mae hynny wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau a oedd eisoes o dan anfantais. Mae hyn yn cynnwys pobl mewn swyddi sy’n talu’n wael, mewn swyddi llai diogel, pobl ifanc, pobl sy’n cyrraedd diwedd eu bywyd gwaith, a phobl mewn grwpiau amrywiol a oedd eisoes yn profi anghydraddoldebau yn y farchnad lafur. Fodd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bynnag, mae llawer o'r effeithiau niweidiol wedi cael eu lleihau neu eu gwrthdroi wedyn. Mae dadansoddiad pellach o'r effaith ar anghydraddoldebau ar gael yn y bennod **Cymru sy'n Fwy Cyfartal**.

Mae data o ffynonellau gweinyddol mwy amserol yn dangos bod y farchnad lafur yng Nghymru wedi dilyn trywydd y Deyrnas Unedig yn gyffredinol (ac eithrio Llundain). Mae data o wybodaeth amser real y cynllun Talu Wrth Ennill yn dangos bod nifer y gweithwyr cyflogedig wedi cynyddu'n gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond wedi gostwng yn ystod y pandemig ac yna wedi gwella. Mae'r data diweddaraf yn dangos, ers dechrau 2020 (cyn y pandemig), bod nifer y gweithwyr cyflogedig wedi cynyddu mwy yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Nid yw'r set ddata hon yn cynnwys y rhai sy'n hunangyflogedig, ond mae'n rhoi darlun sy'n cyferbynnu â'r un a gafodd ei greu gan ddata diweddaraf yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth a'r arolwg o'r llafurlu.

## Ffigur 1.3: Cyfradd cyflogaeth pobl rhwng 16 a 64 oed, y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2005 i fis Mawrth 2023





**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 1.3: Siart linell sy'n dangos bod y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl 16 i 64 oed wedi cynyddu'n gyffredinol ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011 yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. Dros y tair blynedd diwethaf (ers dechrau pandemig COVID-19), mae'r gyfradd wedi bod yn fwy anwadal yn y naill a'r llall. Mae cyfradd y Deyrnas Unedig wedi aros yn uwch na chyfradd Cymru ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2005.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Ffigur 1.4: Cyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ar gyfer pobl 16 i 64 oed, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2005 i fis Mawrth 2023




Disgrifiad o Ffigur 1.4: Siart linell sy'n dangos bod y gyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) wedi gostwng yn raddol ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2005 yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf (ers dechrau pandemig COVID-19), mae'r gyfradd wedi cynyddu ar gyfer y ddwy ardal. Mae'r gyfradd yng Nghymru bob amser wedi bod yn uwch na chyfradd y Deyrnas Unedig, gyda maint y bwlch yn amrywio dros amser.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Cyfranogiad mewn addysg a’r farchnad lafur

Sefydlwyd carreg filltir genedlaethol ar gymryd rhan mewn addysg a’r farchnad lafur yn 2021, sef y bydd o leiaf 90% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.

Mae’r amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2021 yn dangos bod 84.5% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gan ddisgyn o 85.4% yn 2020. Roedd y gostyngiad yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed. Bydd data ar gyfer blynyddoedd diweddarach, pan fyddant ar gael, yn rhoi syniad o effaith hirdymor y pandemig ar y duedd hon.

Gan ddefnyddio’r prif fesur o bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, bu gostyngiadau yn y grwpiau oedran 16 i 18 a 19 i 24 rhwng 2019 a 2021, gyda’r gostyngiad cyffredinol ar gyfer y rhai 16 i 18 (1.9 pwynt canran) yn fwy na’r gostyngiad cyffredinol ar gyfer y rhai 19 i 24 oed (0.2 pwynt canran). Ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, roedd hyn yn dilyn cyfnod lle’r oedd y gyfran wedi aros yn sefydlog ar oddeutu 89 i 90% rhwng 2012 a 2018.


Roedd y grŵp oedran 19 i 24 yn teimlo effaith dirwasgiad 2008 yn fwy amlwg. Fodd bynnag, rhwng 2012 a 2017, cynyddodd y gyfran mewn addysg neu’r farchnad lafur yn raddol ar gyfer y grŵp oedran hwn. Ar ddiwedd 2021, roedd y gyfradd yn 83.7%, bron i 7 pwynt canran yn uwch nag yn 2012.

Mae ffigurau mwy diweddar am bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar gael o ffynhonnell eilaidd, llai cadarn. Mae’r rhain yn awgrymu cynnydd mewn cyfranogiad yn 2022, yn enwedig ar gyfer y grŵp oedran 16 i 18.

### Ffigur 1.5: Canran y bobl ifanc yng Nghymru mewn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, 2004 i 2021 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 1.5: Siart linell sy'n dangos bod canran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi aros yn gymharol gyson ers 2004, tra bod canran y rhai rhwng 19 a 24 oed wedi disgyn yn is na 80% rhwng 2009 a 2014. Ers hynny mae wedi gwella i 84% yn 2021.

Ffynhonnell: Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Gwaith Teg ac Enillion


Cyflwynwyd dangosydd cenedlaethol ar gyfran y gweithwyr y pennir eu cyflog drwy gydfargeinio ym mis Rhagfyr 2021, ar sail data o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Roedd tua 52% o swyddi gweithwyr yn dod o dan drefniadau cydfargeinio yn 2022, lle mae cyflog ac amodau'n cael eu negodi rhwng cyflogwr ac undeb llafur. Mae hyn yn is na blynyddoedd blaenorol, ond yn uwch o lawer nag ar gyfer y mwyafrif o wledydd eraill y Deyrnas Unedig, gan gynnwys rhanbarthau Lloegr, ac mae'n adlewyrchu'r gyfran gymharol uwch o weithwyr yng Nghymru sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus ac ym maes gweithgynhyrchu.

Cafodd un o'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer gwaith teg ac enillion ei ddiwygio ym mis Rhagfyr 2021 ac mae bellach yn ystyried canran y bobl sy'n cael eu cyflogi ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn chwilio am waith parhaol) ac sy'n ennill o leiaf y cyflog byw gwirioneddol. Mae'r cyflog byw gwirioneddol yn cael ei gyfrifo gan y Living Wage Foundation sy'n pennu'r fethodoleg. Ei nod yw adlewyrchu costau byw.

Yn 2022, roedd 68% o'r bobl hynny sy'n cael eu cyflogi ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn chwilio am waith parhaol) yn ennill o leiaf y cyflog byw gwirioneddol, ychydig yn llai yn 2020 a 2021, ond yn uwch na rhwng 2015 a 2019. Mae hyn yn seiliedig ar y cyflog byw gwirioneddol ar gyfer 2022-23 fel y'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 1.6: Canran y bobl sy’n cael eu cyflogi, ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn chwilio am waith parhaol) ac sy’n ennill o leiaf y cyflog byw gwirioneddol, 2012 i 2022




Disgrifiad o Ffigur 1.6: Siart far sy’n dangos bod nifer y bobl mewn cyflogaeth sy’n ennill y cyflog byw gwirioneddol yng Nghymru wedi amrywio rhwng 65% a 70% dros y deng mlynedd diwethaf, gyda 68% yn ennill o leiaf y cyflog byw gwirioneddol yn 2022.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn awgrymu bod canran y bobl sy’n fodlon ar eu swydd yr un fath fwy neu lai, sef 83% yn 2022-23. Mae bodlonrwydd mewn swydd yn tueddu i gynyddu gydag oedran.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae carreg filltir genedlaethol wedi cael ei gosod er mwyn dileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050. Dros yr hirdymor, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau (ar sail llawn amser canolrifol fesul awr ac eithrio goramser) wedi lleihau. Ym mis Ebrill 2022, roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (llawn amser) 6.1%, i fyny o 4.4% yn y flwyddyn flaenorol. Ehangodd y bwlch yn y Deyrnas Unedig i 8.3%.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer yr holl weithwyr yn parhau i fod yn llawer iawn uwch, sef 11.4%. Mae hyn oherwydd bod menywod yn llenwi mwy o swyddi rhan-amser sydd, o'u cymharu â swyddi llawn amser, â thâl canolrifol is yr awr.

Nid yw'r bylchau hyn yn ystyried gwahaniaethau mewn lefelau addysg a phrofiad, sy'n amrywio ar draws y rhywiau ac yn effeithio ar lefelau enillion.

## Ffigur 1.7: Canran y gwahaniaeth rhwng enillion canolrifol llawn amser yr awr rhwng dynion a menywod, 1999 i 2022 [Nodyn 1]




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 1.7: Siart linell yn dangos bod y gwahaniaeth mewn enillion canolrifol llawn amser yr awr rhwng dynion a menywod wedi gostwng dros yr 20 mlynedd diwethaf ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru wedi bod yn llai na'r Deyrnas Unedig ers 2013.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Nodyn 1] Mae gwahaniaeth cyflog sy'n fwy na sero yn golygu bod enillion dynion yn uwch nag enillion menywod.

Yn 2022, y gwahaniaeth cyflog ar sail anabledd yng Nghymru oedd £1.32 yr awr (neu 9.7%). Mae hyn yn golygu bod gweithwyr anabl yng Nghymru yn ennill £1.32 yn llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r gwahaniaeth cyflog wedi lleihau £0.13 (1.7 pwynt canran) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ers 2019, mae'r gwahaniaeth cyflog ar sail anabledd wedi gweld gostyngiad cyffredinol o £0.44 (5.4 pwynt canran).

Yn 2022, y gwahaniaeth cyflog ar sail ethnigrwydd yng Nghymru oedd £2.23 yr awr (neu 16.8%). Mae hyn yn golygu bod gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn ennill £2.23 yn llai yr awr ar gyfartaledd na gweithwyr Gwyn. Mae'r gwahaniaeth cyflog wedi cynyddu £1.38 (9.9 pwynt canran) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sydd wedi cael ei achosi gan ostyngiad o £0.44 yn yr enillion cyfartalog fesul awr ar gyfer gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ogystal â chynnydd o £0.94 mewn enillion cyfartalog fesul awr ar gyfer gweithwyr Gwyn.

Mae'n werth nodi, oherwydd bod y data ar gyfer y bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd yng Nghymru yn anwadal iawn, y dylid ystyried newidiadau tymor byr ochr yn ochr â thueddiadau hirdymor lle bo hynny'n bosibl. Ers 2019, mae'r bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd wedi gweld cynnydd cyffredinol lle mae enillion cyfartalog fesul awr gweithwyr Gwyn wedi cynyddu'n raddol ac mae'r enillion cyfartalog fesul awr ar gyfer gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi aros yn gymharol sefydlog.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Tlodi ac amddifadedd

Y llynedd, ni chyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau yr ystod arferol o ddata tlodi ac amddifadedd materol oherwydd problemau ansawdd data gyda data 2020-21, o ganlyniad i bandemig COVID-19. Ar gyfer data 2021-22, er bod rhywfaint o effaith o hyd ar ansawdd oherwydd y ddibyniaeth barhaus ar gyfweliadau dros y ffôn yn hytrach na chyfweliadau wyneb yn wyneb, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi asesu bod ansawdd y data yn fwy cadarn.

## Dosbarthiad incwm aelwydydd

Mae ffigurau blwyddyn ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yn dangos cynnydd mewn incwm canolrifol aelwydydd mewn termau real rhwng 2020-21 a 2021-22. Roedd y cynnydd yn 0.5% cyn costau tai (BHC) ac yn 1.6% ar ôl costau tai (AHC). Roedd y twf yn incwm aelwydydd y Deyrnas Unedig yn amrywio ar draws y dosbarthiad incwm:

- roedd incwm aelwydydd unigolion yn chwarter isaf y dosbarthiad incwm yn dangos gostyngiadau mewn termau real
- roedd y rhai rhwng y 25fed a'r 75fed canradd wedi cofnodi cynnydd mewn incwm gwirioneddol
- roedd y darlun yn fwy cymysg ar gyfer y cwintel incwm uchaf

### Tlodi incwm cymharol

Pobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yw'r rhai sy'n byw mewn aelwyd lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell yn llai na 60% o incwm cyfartalog aelwydydd y Deyrnas Unedig (fel sy'n cael ei roi gan y canolrif).

Ar gyfer rhanbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig, mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd eleni ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22. Nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys data arolwg 2020-21 yn y cyfrifiadau, gan y bernir


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bod y data ar gyfer y flwyddyn honno o ansawdd rhy isel, fel y nodwyd uchod.

Rhwng 2019-20 a 2021-22, roedd 21% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai).

Mae canran y bobl sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru ers dros 17 mlynedd, gyda phlant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na’r boblogaeth yn gyffredinol. Er bod cyfraddau’r bobl sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru wedi gostwng yn y cyfnod diweddaraf ar draws y grwpiau oedran, nid oedd yr un o’r newidiadau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol.

### Ffigur 1.8: Canran o bob grŵp oedran yng Nghymru sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), cyfartaleddau tair blynedd ariannol




Disgrifiad o Ffigur 1.8: Siart linell yn dangos pobl yng Nghymru sy’n byw mewn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai) o 1998 ymlaen. Mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru ers dros 17 mlynedd, gyda phlant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r boblogaeth yn gyffredinol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o set ddata Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn seiliedig ar yr Arolwg o Adnoddau Teulu

[Nodyn 1] Nid yw'r amcangyfrifon ar gyfer cyfnodau sy'n cwmpasu 2020-21 yn cynnwys y data a gasglwyd yn ystod 2020-21 yn y cyfrifiadau. Ar gyfer y ddau gyfnod diweddaraf a ddangosir, mae amcangyfrifon a gyfrifwyd yn flaenorol fel cyfartaleddau treigl tair blynedd yn seiliedig ar gyfartaleddau treigl dwy flynedd sy'n hepgor data arolwg 2020-21. Mae amcangyfrifon 2020-21 yn annibynadwy gan eu bod yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn ystod blwyddyn gyntaf pandemig COVID-19, pan effeithiodd rheolau'r cyfyngiadau symud yn ddifrifol ar brosesau casglu data.


## Amddifadedd materol

Mae amddifadedd materol yn fesur o safonau byw, a diffinnir bod rhywun yn byw mewn amddifadedd materol os nad yw'n gallu cael gafael ar nifer penodol o nwyddau a gwasanaethau. Aelwydydd incwm isel yw'r rhai mae cyfanswm incwm yr aelwyd yn llai na 70% o incwm cyfartalog aelwydydd y Deyrnas Unedig, cyn talu costau tai.

Roedd parhau â chyfyngiadau pandemig COVID-19 yn 2021-22 wedi effeithio ar fesur amddifadedd materol, fel y gwnaeth yn 2020-21. Roedd y cyfyngiadau a oedd ar waith yn effeithio ar fynediad pobl at rai cyfleoedd neu wasanaethau cymdeithasol, waeth beth fo'r amddifadedd neu'r cyfyngiadau ariannol. Mae hyn yn golygu nad oes modd cymharu ystadegau ar gyfer y ddwy flynedd yn uniongyrchol â'r cyfnod cyn y pandemig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 1.9: Canran y bobl mewn amddifadedd materol (ar gyfer pensiynwyr) ac incwm isel cymharol cyfun (ar gyfer plant ac oedolion o oedran gweithio) yng Nghymru, y blynyddoedd ariannol 2010-11 i 2021-22**




Disgrifiad o Ffigur 1.9: Graff llinell yn dangos bod cyfran yr oedolion o oedran gweithio a oedd yn byw mewn aelwydydd incwm isel a oedd mewn amddifadedd materol a phensiynwyr a oedd mewn amddifadedd materol ill dau wedi gostwng cyn y pandemig. Mae'r duedd ar gyfer plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel a oedd mewn amddifadedd materol wedi amrywio llawer mwy.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o set ddata Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn seiliedig ar yr Arolwg o Adnoddau Teulu

[Nodyn 1] Nid yw'r amcangyfrifon ar gyfer cyfnodau sy'n cwmpasu 2020-21 yn cynnwys y data a gasglwyd yn ystod 2020-21 yn y cyfrifiadau. Ar gyfer y ddau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bwynt data newydd, mae amcangyfrifon a gyfrifwyd yn flaenorol fel cyfartaleddau treigl tair blynedd yn seiliedig ar gyfartaleddau treigl dwy flynedd sy'n hepgor data arolwg 2020-21. Mae amcangyfrifon 2020-21 yn annibynadwy gan eu bod yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn ystod blwyddyn gyntaf pandemig COVID-19, pan effeithiodd rheolau'r cyfyngiadau symud yn ddifrifol ar brosesau casglu data.

[Nodyn 2] Ar gyfer 2021-22, nid oes modd cymharu amcangyfrifon o amddifadedd materol yn gwbl deg â'r cyfnod cyn y pandemig. Effeithiwyd ar nifer o'r cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r mesur amddifadedd materol gan gyfyngiadau cysylltiedig â'r pandemig ar fynediad at wasanaethau a chyfleoedd cymdeithasol.

Yn ystod y blynyddoedd cyn y pandemig, roedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio a oedd yn byw mewn aelwydydd incwm isel a oedd mewn amddifadedd materol yn dilyn tuedd ar i lawr o 18% yn y cyfnod rhwng 2010-11 a 2012-13, i 13% yn 2017-18 i 2019-20. Roedd gostyngiad hefyd mewn amddifadedd materol ymysg pensiynwyr (ni ystyrir incwm ar gyfer y mesur hwn), er ei fod yn ostyngiad llai serth. Roedd gostyngiad yn rhan gynharach y cyfnod hwn ar gyfer plant, ond ar ôl cyfnod yn gorffen 2016-17, roedd cyfraddau incwm isel ac amddifadedd materol cyfun ar gyfer plant yn amrywio.

Fel yr eglurwyd uchod, mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22 ac nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â'r cyfnod cyn y pandemig. Ar gyfer y cyfnod hwn, roedd 13% o blant, ac 11% o oedolion o oedran gweithio sy'n byw yng Nghymru, yn byw mewn aelwydydd incwm isel a oedd yn wynebu amddifadedd materol. Roedd 7% o bensiynwyr sy'n byw yng Nghymru mewn amddifadedd materol (ni ystyrir incwm ar gyfer y mesur hwn).

Yn 2022-23, dywedodd 3% o aelwydydd eu bod wedi cael bwyd gan fanc bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd diffyg arian, gyda 3% arall yn dweud nad oeddent wedi cael bwyd ond eu bod wedi dymuno cael hynny.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Tlodi parhaus

Ystyrir bod rhywun mewn tlodi parhaus os yw ef neu hi mewn tlodi incwm cymharol mewn o leiaf tair o bob pedair blynedd yn olynol. Mae data o'r arolwg 'Understanding Society' yn dangos bod tebygolrwydd o 12% y byddai unigolyn yng Nghymru mewn tlodi parhaus rhwng 2017 a 2021 (ar ôl talu costau tai). Roedd plentyn yng Nghymru ychydig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi parhaus, sef 17%.

## Incwm a wariwyd ar gostau tai

Ychwanegwyd dangosydd cenedlaethol ar ganran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai at y dangosydd cenedlaethol a osodwyd ym mis Rhagfyr 2021, yn seiliedig ar ddata o Arolwg Adnoddau Teulu yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd pandemig COVID-19 yn ystod 2020-21 wedi effeithio ar gasglu data ar gyfer yr Arolwg o Adnoddau Teulu felly nid yw data arolwg y flwyddyn honno wedi cael ei gynnwys yn y cyfrifiadau ar gyfer y cyfnod diweddaraf (2019-20 i 2021-22) oherwydd bernir ei fod o ansawdd isel.

Ar gyfer y cyfnod diweddaraf y mae digon o ddata ar gael ar ei gyfer (2019-20 i 2021-22), roedd 18% o aelwydydd yn gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai. Mae'r ganran hon wedi bod yn weddol gyson ar 19% ers y cyfnod 2011-12 i 2013-14, ond mae'n amrywio yn ôl deiliadaeth tai. Mae hi'n rhy gynnar i ddweud a yw'r newid a nodwyd yn y cyfnod diweddaraf yn ostyngiad gwirioneddol ynteu a yw oherwydd bod mwy o anwadalrwydd o ganlyniad i'r gostyngiad ym maint sampl yr arolwg.

Yn y cyfnod hyd at 2019-20 i 2021-22, dim ond 2% o aelwydydd sy'n berchen ar eu cartref eu hunain yn llwyr a 14% o'r rhai sy'n berchen ar gartref gyda morgais oedd yn gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai. Mae'r canrannau'n uwch ar gyfer y ddwy ddeiliadaeth arall: 36% o'r rhai sy'n rhentu'n breifat, 43% o'r rhai mewn tai rhent cymdeithasol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae cynnydd yng nghostau ynni aelwydydd wedi bod yn nodwedd amlwg o'r blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yng nghanran yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd. Prif ffigur 2021 oedd bod tua 14% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd ac amcangyfrifir bod hyn wedi codi i gymaint â 45% erbyn mis Ebrill 2022. Amcangyfrifir bod canran yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd difrifol wedi codi o 3% i 8% dros yr un cyfnod.

Mae'r cynnydd sylweddol mewn prisiau tanwydd yn ffactor pwysig o ran cynyddu costau i aelwydydd ac i fusnesau, gyda phob math o danwydd yn cyrraedd y prisiau uchaf yn 2022. Wrth gymharu â 2010, roedd costau yn 2022 95% yn uwch am drydan, 67% yn uwch am nwy, 24% yn uwch am danwydd solet, a 46% yn uwch am danwydd hylif. Cyflwynwyd nifer o gynlluniau cymorth, fel y Warant Pris Ynni a'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf yng Nghymru, i leihau effaith y cynnydd hwn ar aelwydydd a busnesau.

Mae tlodi tanwydd yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd gwahanol, gyda'r rhai sy'n byw yn yr anheddau hynaf (cyn 1919) yn fwy tebygol o fod mewn tlodi tanwydd (22% o aelwydydd o'r fath yn 2021), ac roedd bron i dri chwarter (74%) o'r holl aelwydydd sydd â'r 10% isaf o incwm yng Nghymru yn debygol o fod mewn tlodi tanwydd yn 2021.

## Cymwysterau

Mae proffil cymwysterau poblogaeth Cymru wedi bod yn gwella dros amser, hyd at 2021. Nid oes modd cymharu data ar gyfer 2022 â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau i'r cwestiynau ar gymwysterau yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sydd nawr yn adlewyrchu'r fframwaith cymwysterau presennol.

Sgiliau a chymwysterau yw'r un dylanwad mwyaf ar incwm pobl ac ar eu siawns o fod mewn gwaith.

Yn 2022, roedd 43.3% o oedolion o oedran gweithio (18 i 64 oed) yn gymwys i lefel addysg uwch o leiaf (lefel 4). Roedd y gyfran hon bron i 14 pwynt canran yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

uwch yn 2021 na phan gynhyrchwyd ystadegau cymaradwy am y tro cyntaf ar y diffiniad o oedolion o oedran gweithio rhwng 18 a 64 oed yn 2008.

Un o'r cerrig milltir cenedlaethol ar gymwysterau yw y bydd 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn gymwys i lefel 3 neu uwch erbyn 2050. Yn 2022, roedd 66.8% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn gymwys i drothwy lefel 3.


Rhwng 2008 a 2021, roedd gostyngiadau mawr yng nghyfran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau. 8.3% oedd y gyfran hon yn 2022. Roedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio a oedd wedi cymhwyso i lefel 2 o leiaf (sy'n cyfateb i 5+ TGAU gradd A* i C) yn 86.6% yn 2022.

Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau nag oedolion iau.

Mae cyfran uwch o ddynion na menywod heb unrhyw gymwysterau mewn grwpiau oedran hyd at ac yn cynnwys pobl rhwng 35 a 49 oed. Mae menywod yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau lefel 4 neu uwch.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 1.10: Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oedran gweithio, 2008 i 2022




Disgrifiad o Ffigur 1.10: Mae lefelau cymwysterau yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol ers 2008, er bod toriad yn y gyfres rhwng 2021 a 2022 oherwydd materion yn ymwneud â chymharu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


[Nodyn 1] Mae amcangyfrifon a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2020 a 2021 wedi cael eu diwygio ar ôl i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gael ei ail-bwysoli.

[Nodyn 2] Ni ellir cymharu amcangyfrifon ar gyfer 2022 â blynyddoedd blaenorol yn dilyn newidiadau i'r cwestiynau ar gymwysterau Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Y garreg filltir genedlaethol arall ar gymwysterau yw y bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050. Yn 2022, roedd gan dri o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru 5% neu lai o oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau – Powys (3.3%), Bro Morgannwg (3.8%) a Sir Fynwy (4.0%). Roedd y gyfran uchaf o oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau ym Mlaenau Gwent (15.5%) a Merthyr Tudful (14.9%).

## Ffigur 1.11: Cyfran y boblogaeth oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau yn ôl awdurdod lleol, 2022




Disgrifiad o Ffigur 1.11: Siart far yn dangos cyfran y boblogaeth oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau ym mhob awdurdod lleol yn 2022. Mae'r gyfran yn llai na 5% ym Mhowys, Bro Morgannwg a Sir Fynwy, ond mae dros 15% ym Mlaenau Gwent.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Cyrhaeddiad mewn ysgolion

Roedd cyrhaeddiad mewn ysgolion wedi cynyddu yn y blynyddoedd cyn y pandemig, er bod deilliannau plant o gefndiroedd difreintiedig yn dal yn waeth.

Ym mlwyddyn academaidd 2021/22, roedd tua 54% o ddisgyblion 4 oed wedi cyrraedd cyfnod datblygu mewn mathemateg a fyddai'n gyson â'u hoedran, neu'n well na hynny, yn ôl fframwaith y cyfnod sylfaen, gydag 87% o ddisgyblion o fewn un cyfnod datblygu yn gyson â'u hoedran. Mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg roedd 53% o ddisgyblion ar gyfnod datblygu a fyddai'n gyson â'u hoedran, neu'n well na hynny, gydag 85% o ddisgyblion o fewn un cam o'r datblygiad yn gyson â'u hoedran. Mae'r ffigurau hyn yn is nag yn 2019. Mae'r darlun yn wahanol ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg, lle'r oedd 27% o blant ar gam a oedd yn gyson â'u datblygiad. Mae hyn oherwydd bod plant o deuluoedd di-Gymraeg wedi cofrestru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ar ôl canslo arholiadau cyhoeddus yn yr haf 2020 a 2021, cafodd yr holl raddau a fyddai wedi cael eu dyfarnu ar ôl arholiad eu disodli gan radd a aseswyd neu a bennwyd gan ganolfan. Roedd cyfnod arholiadau 2022 yn flwyddyn bontio lle'r oedd disgyblion o Gymru yn dychwelyd i sefyll arholiadau ysgrifenedig. Ni ddychwelwyd yn llwyr i'r system arholiadau cyn y pandemig. Er mwyn gwneud iawn am unrhyw darfu ar amserlen yr ysgol, cafodd disgyblion a safodd arholiadau yn 2022 ddewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur, gyda Cymwysterau Cymru yn gosod canlyniadau hanner ffordd (yn fras) rhwng 2019 (y tro diwethaf i arholiadau gael eu sefyll) a chanlyniadau 2021.

O 2018/19, pan gafodd arholiadau ysgrifenedig eu sefyll diwethaf, hyd at 2021/22 mae canran yr ymgeiswyr a gafodd A* i A ac A* a C ar lefel TGAU wedi cynyddu. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd canran y graddau A* i A o 19.5% i 25.9%. Fodd bynnag, mae hyn yn ostyngiad o 3.6 pwynt canran o'i gymharu â'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

canlyniadau a gafwyd yn 2020/21, lle dyfarnwyd cymwysterau ar sail graddau a bennwyd gan ganolfannau. Gwelwyd patrwm tebyg yn yr ystod graddau A* i C.


Mae bwlch o hyd rhwng deilliannau addysgol plant yn yr ysgol sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r rhai nad ydynt yn gymwys. Mae’r bwlch yn y niferoedd sy’n cael graddau A* i A ar lefel TGAU wedi ehangu yn ystod y saith mlynedd diwethaf, ac mae’r bwlch yn niferoedd yr ymgeiswyr sy'n cael graddau A* i C yn weddol sefydlog. Mae data hyd at 2019 yn dangos bod y bwlch mewn canlyniadau addysgol yn tyfu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

Yn 20221/22, mae’r bwlch rhwng disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd wedi cael graddau TGAU A* i A wedi lleihau i 19.2 pwynt canran, o 21.3 pwynt canran yn 2020/21. Roedd y bwlch wedi bod yn gymharol sefydlog o’r blaen, sef tua 14.7 pwynt canran rhwng 2015/16 a 2018/19 cyn ehangu yn y 3 flynedd ddiwethaf.

Yn 2021/22 roedd y bwlch rhwng disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac a oedd wedi cael graddau A* i C wedi ehangu i 27.8 pwynt canran, gan ddychwelyd at fwlch tua’r un maint ag yn ystod y blynyddoedd cyn y pandemig, yn dilyn gostyngiad i 27.3 pwynt canran yn 2020/21.

## Ffigur 1.12: Bwlch rhwng canrannau’r disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim sy’n cael graddau A*-A, A*-C ac A*-G mewn TGAU, 2015/16 i 2021/22 [Nodyn 1]

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Disgrifiad o Ffigur 1.12: Siart linell sy’n dangos y bwlch rhwng canrannau’r myfyrwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy’n cyflawni A*-A, A*-C, ac A*-G mewn TGAU o 2015/16 i 2020/21. Rhwng 2020/21 a 2021/22, cynyddodd y bwlch ar gyfer yr ystodau graddau A*-C ac A*-G ond gostyngodd ar gyfer A*-A.

Ffynhonnell: Canlyniadau Arholiadau, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Rhwng y llinellau toredig sy’n dangos pryd y dyfarnwyd cymwysterau drwy ddefnyddio graddau a aseswyd neu a bennwyd gan ganolfan.

# Allyriadau nwyon tŷ gwydr o fusnesau


Mae rheoli’r rhyngweithio rhwng twf economaidd ac economi arloesol a charbon isel yn gymhleth ac yn creu heriau, ond mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o’r sector


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

busnes yn dal yn llawer is nag yn y 1990au.

At ei gilydd, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng 35% ers y flwyddyn sylfaen (1990). Roedd allyriadau o’r sector busnes yn cyfrif am ychydig o dan chwarter allyriadau tiriogaethol Cymru (24%) yn 2021; yr ail ffynhonnell fwyaf o allyriadau yng Nghymru ar ôl y sector cyflenwi ynni. Mae allyriadau o’r sector busnes wedi disgyn 29% ers 1990, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn allyriadau o’r diwydiant haearn a dur. Daw’r rhan fwyaf o allyriadau busnes o’r diwydiant haearn a dur, tua 60% yn 2021.

## Ffigur 1.13: Allyriadau nwyon tŷ gwydr o’r sector busnes, 1990 i 2021




Disgrifiad o Ffigur 1.13: Siart linell yn dangos lefel yr allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaethol (megatunnell) o fusnesau rhwng 1990 a 2021. Mae allyriadau o fusnesau Cymru wedi disgyn 29% ers y flwyddyn sylfaen (1990).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

[Nodyn 1] Amcangyfrifwyd gwerthoedd ar gyfer 1991, 1992, 1993, 1994, 1996 a 1997.

[Nodyn 2] Mae diffiniad y sector o’r rhestr nwyon tŷ gwydr yn amrywio o’r Cynllun Cyflawni Carbon Isel (Cyfnod Cyllideb Garbon 1, 2016 i 2020) a Chynllun Sero Net Cymru (Cyfnod Cyllideb Garbon 2, 2021 i 2025).

## Dull teithio

Mae rhai mathau o deithio, gan gynnwys traffig ffyrdd, yn cyfrannu’n sylweddol at allyriadau carbon. Nid oes tystiolaeth o symud oddi wrth geir fel y prif ddull o deithio yng Nghymru.

Yn dilyn gostyngiad sydyn mewn teithio yn 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19, roedd lefel y traffig ar y ffyrdd yn 2022 yng Nghymru bron â dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Cynyddodd lefel y traffig ar y ffyrdd yn 2022 10% o’i chymharu â 2021, a 24% o’i chymharu â 2020.

O’i gymharu â 2020-21, roedd teithiau bws lleol wedi mwy na dyblu yn 2021-22, y cynnydd mwyaf ers dechrau’r cofnodion. Fodd bynnag, mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 42.5% yn nifer y siwrneiau i deithwyr o’i gymharu â 2019-20 (lefelau cyn y pandemig). Bu cynnydd o 27.9% yng nghyfanswm y pellter a deithiwyd gan fysiau lleol yn 2021-22, o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Mae data mwy amserol am Brydain Fawr yn dangos bod lefelau traffig a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus wedi codi’n ôl ers y pandemig ond heb gyrraedd y lefelau cyn y pandemig eto, gydag effaith benodol ar ddefnyddio bysiau.


Cafodd dangosydd cenedlaethol ar ganran y siwrneiau sy'n cael eu gwneud ar droed, ar gefn beic neu drafnidiaeth gyhoeddus ei ychwanegu at y set o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddangosyddion cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2021. Daw’r data hwn o Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru sy’n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Yn y tymor byr, mae modd ystyried data o'r Arolwg o'r Llafurlu ar y dull arferol o deithio i'r gwaith a data o'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr ar y dull o deithio i'r ysgol.

Fel yn y rhan fwyaf o rannau eraill o’r Deyrnas Unedig y tu allan i Lundain, trafnidiaeth ffyrdd breifat yw’r brif ffordd o deithio o hyd, ac mae’n cyfrif am y mwyafrif llethol o deithiau cymudo yng Nghymru. Yn 2021, defnyddiodd 82% o gymudwyr yng Nghymru gar fel eu dull arferol o deithio i’r gwaith, ychydig yn uwch na chyn y pandemig.

## Ffigur 1.14: Dull arferol trigolion Cymru o deithio i’r gwaith, 2021




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 1.14: Siart gylch yn dangos bod y rhan fwyaf (82%) o drigolion Cymru wedi teithio i'r gwaith mewn car yn 2021. Roedd 9% o'r trigolion yn cerdded, gyda 4% yn defnyddio bws neu goets, a 2% yn defnyddio gwasanaethau trên.

Ffynhonnell: Ystadegau Trafnidiaeth Prydain Fawr: Dull arferol o deithio i'r gwaith yn ôl rhanbarth preswylio

[Nodyn 1] Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd eu dull teithio arferol, gan dybio nad oedd cyfyngiadau'r coronafeirws ar waith.

[Nodyn 2] Mae'r categorïau sydd wedi cael eu hatal oherwydd ansawdd isel wedi cael eu cynnwys yn y categori "Arall".

Y ddau ddull teithio mwyaf cyffredin i'r ysgol a gofnodwyd gan bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yn 2021/22 oedd trafnidiaeth gyhoeddus a cherdded (34% o fyfyrwyr ill dau), wedi eu dilyn yn agos gan drafnidiaeth breifat (30%). Dywedodd 35% o'r bobl ifanc eu bod yn defnyddio dull teithio llesol i'r ysgol (ee teithio i'r ysgol drwy gerdded neu feicio).

Yn Arolwg Cenedlaethol 2022-23, gofynnwyd i bobl am ymddygiadau amgylcheddol fel rhan o fywyd bob dydd. Roedd 28% o bobl yn osgoi teithio mewn awyren neu'n teithio mewn awyren yn llai aml; ac roedd 40% yn osgoi teithio mewn car neu'n teithio mewn car yn llai aml. O'r rhai a oedd yn teithio mewn car yn llai aml, dywedodd 18% ohonynt mai pryderon am lygredd neu geisio cyfyngu ar effeithiau newid yn yr hinsawdd oedd y prif reswm am hynny; a dywedodd 12% ohonynt mai cadw'n heini oedd y prif reswm. Y gost oedd y prif reswm i 43% o bobl. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth hyd yma o ymddygiad o'r fath sy'n arwain at newid amlwg yn y patrymau teithio cyffredinol.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cerbydau allyriadau isel iawn sydd wedi eu cofrestru o'r newydd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2022, roedd dros 8,000 o gerbydau allyriadau isel iawn wedi eu cofrestru o'r newydd, cynnydd o 34% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ar ddiwedd 2022, roedd dros 22,700 o gerbydau allyriadau isel iawn wedi eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

trwyddedu yng Nghymru. Dros amser, gallai dibynnu llai ar gerbydau petrol a disel a defnyddio mwy o gerbydau allyriadau isel iawn gyfrannu at ostyngiad mewn allyriadau.

## Darllen pellach

Mae **Inflation and cost of living for household groups, UK (SYG)** yn cynnwys gwybodaeth am effaith chwyddiant ar wahanol fathau o aelwydydd.

Mae **Trosolwg o'r farchnad lafur** yn rhoi diweddariad ar y farchnad lafur yng Nghymru bob mis.

Mae dangosfwrdd **economi Cymru mewn rhifau** yn dangos tueddiadau yn y canlyniadau economaidd allweddol i Gymru, o'i gymharu â'r Deyrnas Unedig.

Mae **Ystadegau Trafnidiaeth Prydain Fawr (Yr Adran Drafnidiaeth)** yn gasgliad blynyddol o ystadegau trafnidiaeth, gan gynnwys data ar gyfer Cymru ar nifer o bynciau.

Mae data ar y lefelau cymhwyster uchaf hefyd ar gael o'r Cyfrifiad Poblogaeth. Mae **Cyfrifiad Addysg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)** yn darparu crynodeb o ddata Cymru. Nid oes modd cymharu'r ystadegau sydd ar gael o'r Cyfrifiad yn uniongyrchol â'r rhai a gyflwynir yn yr adroddiad Llesiant Cymru hwn. Yn ogystal â'r gwahanol ddulliau casglu data, mae'r ystadegau hyn yn seiliedig ar oedolion o oedran gweithio (18 i 64 oed), ac mae'r rhai o'r Cyfrifiad yn seiliedig ar yr holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn.

Mae gwybodaeth am ddyfarnu graddau ar gyfer cymwysterau ysgol a choleg (TGAU, Safon Uwch, AS, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru) yn y blynyddoedd y mae COVID-19 yn effeithio arnynt ar gael yn y datganiadau isod:

- **Datganiad gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, Awst 2020**
- **Datganiad Ysgrifenedig: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gymwysterau Cyffredinol yn 2021 (20 Ionawr 2021)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Ffynonellau data

## Perfformiad economaidd

**Gwerth ychwanegol gros rhanbarthol (wedi ei gydbwyso) y pen a chydrannau incwm (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Cynhyrchiant rhanbarthol ac is-ranbarthol yn y Deyrnas Unedig: Gorffennaf 2022 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

## Incwm aelwydydd

**Incwm gwario gros aelwydydd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Incwm gwario gros aelwydydd rhanbarthol, bwletinau ystadegol y Deyrnas Unedig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

## Y farchnad lafur

**Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)**

**Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Cymru**

**Ystadegau'r farchnad lafur ranbarthol yn y Deyrnas Unedig, bwletinau ystadegol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Enillion a chyflogaeth o Wybodaeth Amser Real y Cynllun Talu Wrth Ennill, wedi ei addasu'n dymhorol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfranogiad mewn addysg a’r farchnad lafur

**Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a’r farchnad lafur**

**Amcangyfrif o unigolion 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran (StatsCymru)**

## Gwaith teg ac enillion

**Cyfrifo’r Cyflog Byw Gwirioneddol (Living Wage Foundation)**

**Canran y bobl sy’n weddol fodlon neu’n fodlon iawn ar eu swyddi yn ôl oedran (StatsCymru)**

**Cyfran y cyflogeion y mae eu cyflog yn cael ei osod drwy gydfargeinio (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) (StatsCymru)**

**Canran y bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy’n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol, 2012 i 2021 (StatsCymru)**

**Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn ôl blwyddyn (canolrif enillion yr awr ar gyfer gweithwyr amser llawn, heb gynnwys goramser) (StatsCymru)**

**Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2022**

## Tlodi

**Tlodi incwm cymharol**

**Amddifadedd materol**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Tlodi parhaus**

**Amcangyfrifon tlodi tanwydd**

## Cymwysterau

**Lefelau'r cymhwyster uchaf gan oedolion o oedran gweithio yn ôl blwyddyn a chymhwyster**

## Addysg

**Cyrhaeddiad academaidd disgyblion yn asesiad sylfaenol y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 3, 2022**

**Canlyniadau arholiadau: Medi 2021 i Awst 2022**

## Busnesau

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ôl blwyddyn (StatsCymru)**

## Teithio

**Ystadegau Trafnidiaeth: Prydain Fawr 2021 (Yr Adran Drafnidiaeth)**

**Traffig Ffyrdd 2020**

**Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr 2021/22, Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion**

**Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2020 i Fawrth 2021**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cymru gydnerth

# Y nod dros Gymru gydnerth

Awdur: Luned Jones

Cymru gydnerth: Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).

## Beth ydym wedi ei ddysgu o’r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

Mae llawer o’r dangosyddion cenedlaethol a ddefnyddir i fesur cynnydd tuag at y nod hwn yn ddangosyddion hirdymor sy’n mesur newid graddol. Felly, caiff y dangosyddion hyn eu diweddaru o bryd i’w gilydd yn hytrach nag unwaith y flwyddyn. O’r dangosyddion cenedlaethol a ddiweddarwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- mae amcangyfrifon a gynhyrchwyd yn ddiweddar gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn awgrymu bod ôl troed byd-eang Cymru wedi parhau i leihau, sy’n golygu bod Cymru’n lleihau’n raddol arwynebedd y tir sydd ei angen i gynnal ei defnydd o adnoddau byd-eang
- arhosodd crynodiadau cyfartalog o nitrogen deuocsid y mae pobl yn agored iddynt yn weddol sefydlog rhwng 2020 a 2021, a chynyddodd crynodiadau cyfartalog o ddeunydd gronynnol ychydig rhwng 2020 a 2021, ond gan aros yn is na chyn y pandemig COVID-19. Gall amrywiadau blynyddol fod oherwydd sawl ffactor gan gynnwys y tywydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- roedd faint o wastraff cartref a gynhyrchwyd, ond na chafodd ei ailgylchu fesul unigolyn, wedi gostwng ychydig, er ei fod yn dal yn debyg i'r gyfradd cyn y pandemig
- roedd cyfanswm capasiti'r prosiectau ynni adnewyddadwy a osodwyd yn 2021 yn fwy na dwbl yr hyn a osodwyd yn 2020. Fodd bynnag, mae cyfradd osod 2021 yn dal yr ail isaf yn ystod y degawd diwethaf

## Beth yw'r cynnydd hirdymor tuag at y nod?

Mae data ar gyfer rhai o'r dangosyddion cenedlaethol yn awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at nod Cymru gydnerth, ond mae rhywfaint o'r cynnydd hwn wedi arafu'n ddiweddar, ac mae angen rhagor o welliannau er mwyn cyrraedd y nod a'r cerrig milltir cenedlaethol.

Fodd bynnag, mae dangosyddion eraill yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o rywogaethau a chynefinoedd sydd mewn perygl, sy'n agored i niwed, sy'n brin a/neu'n endemig mewn cyflwr da iawn, sy'n adlewyrchu'r darlun byd-eang o'r dirywiad mewn amrywiaeth fiolegol.

Ein hôl troed byd-eang yw cyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned. Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer y dangosydd ôl troed byd-eang yw y bydd Cymru ond yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r byd erbyn 2050. Mae amcangyfrifon diweddar a gynhyrchwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a'r Rhwydwaith Ôl Troed Byd-eang (GFN) yn awgrymu bod yr ôl troed byd-eang fesul unigolyn wedi gostwng bron i draean rhwng 2004 a 2018. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod dros ddwywaith yr amcangyfrif o'r biogapasiti yng Nghymru. Pe bai holl boblogaeth y byd yn byw fel dinasyddion Cymru, byddai angen tir cyfwerth â 2.08 Daear ar ddynoliaeth. Mae dadansoddiad pellach o'r ôl troed byd-eang wedi'i gynnwys yn y bennod **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang**.

Mae'r asesiad cynhwysfawr diweddaraf o adnoddau naturiol Cymru (SoNaRR 2020) yn dangos bod amrywiaeth fiolegol yn dirywio ar y cyfan. Y garreg filltir

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

genedlaethol ar fioamrywiaeth yw gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050. Roedd dangosydd arbrofol ar statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2021 yn dangos bod dosbarthiad rhywogaethau yng Nghymru wedi dirywio dros yr hirdymor ond ei fod yn sefydlog yn fwy diweddar.

Mae ansawdd ein dŵr, boed mewn moroedd, afonydd, nentydd neu'r ddaear, yn gwella'n gyffredinol. Ond, er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran diogelu a gwella ein dyfroedd dros y degawdau diwethaf, mae llawer i'w wneud eto.

Mae'r dangosydd cenedlaethol ar bridd yn dangos bod crynodiad y carbon yn ein pridd yn sefydlog ar y cyfan, ar wahân i dir cynefin lle gwelwyd colli carbon yn ddiweddar.

Mae ansawdd yr aer wedi gwella'n fawr ers y 1970au, ond mae'n parhau i fod yn risg i iechyd pobl a byd natur.

Mae Cymru wedi gweld gostyngiad o ran cynhyrchu gwastraff a gwelliannau sylweddol yng nghyfraddau ailgylchu gwastraff, ond rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau'n gyflymach nag y gellir eu hadnewyddu.

Mae capasiti trydan wedi ei osod o ynni adnewyddadwy yn parhau i gynyddu ond ar gyfradd arafach na'r blynyddoedd diwethaf.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 yn darparu asesiad cynhwysfawr o gynnydd yn erbyn pedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Bioamrywiaeth a chynefinoedd

Y garreg filltir genedlaethol ar fioamrywiaeth yw gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd dangosydd arbrofol ar statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2021 yn dangos bod dosbarthiad rhywogaethau yng Nghymru wedi dirywio dros y tymor hir ond ei fod yn sefydlog yn fwy diweddar. Er bod gwelliant wedi bod yn statws poblogaethau rhai rhywogaethau yng Nghymru, mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 yn dangos bod bioamrywiaeth yn dirywio ar y cyfan. Mae dadansoddiad pellach o'r pwnc hwn ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru 2021.

Yn ogystal â'r dangosydd cenedlaethol ar fioamrywiaeth, mae cynlluniau ar waith sy'n monitro rhywogaethau penodol. Mae Cynllun Monitro Glöynnod Byw y Deyrnas Unedig yn gynllun monitro hirdymor. Mae data ar gyfer 2022 yn dangos bod tueddiadau ar gyfer rhywogaethau glöynnod byw y Deyrnas Unedig yn amrywio, gyda thua traean o'r rhywogaethau a aseswyd yn y Deyrnas Unedig yn dangos gostyngiad hirdymor sylweddol mewn niferoedd (33%), o'i gymharu â 29% yn dangos cynnydd hirdymor sylweddol. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf mae'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau'n sefydlog, gyda 4 rhywogaeth (7%) yn dangos cynnydd sy'n arwyddocaol yn ystadegol a dim un rhywogaeth yn dangos dirywiad sylweddol. Yng Nghymru, o'r rhywogaethau sydd â digon o ddata i'w asesu, mae dirywiad hirdymor a byrdymor mewn sawl rhywogaeth. Mae wyth rhywogaeth yn dangos cynnydd hirdymor yng Nghymru.

Mae'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am ddirywiad hirdymor mewn niferoedd yn cynnwys newidiadau o ran graddfa, cyflwr a darnio cynefinoedd a ddaw yn sgil dwysau ffermio, newidiadau mewn arferion coedwigaeth, datblygiadau trefol, llygredd a newid yn yr hinsawdd. Mae rhai gyrwyr, fel newid yn yr hinsawdd, yn debygol o gael effeithiau cymysg yn dibynnu ar y rhywogaethau.

Mae'r Arolwg Adar Bridio (BBS) yn bartneriaeth sy'n cael ei chyllido ar y cyd gan y BTO, yr RSPB a'r JNCC, a lansiwyd yn 1994, ac mae'n gynllun monitro gwyddoniaeth dinasyddion. Yn 2022, cofnodwyd cyfanswm o 231 o rywogaethau adar mewn 3,919 o sgwariau BBS a chyflwynwyd data ar dueddiadau hirdymor y Deyrnas Unedig (1995-2021) ar gyfer 117 o rywogaethau. Roedd 37 o rywogaethau wedi dangos cynnydd ystadegol arwyddocaol ac roedd 41 o rywogaethau wedi dirywio'n sylweddol. Mae cynnydd mewn poblogaethau yn cynnwys ymlediad cytrefwyr diweddar (gan gynnwys

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gwyddau'r Aifft) a rhywogaethau anfrodorol. Adroddir ar dueddiadau BBS ar gyfer 60 o rywogaethau yng Nghymru, ac mae gan 19 o'r rhain gynnydd ystadegol arwyddocaol yn yr hirdymor (1995-2021) ac mae gan 18 o rywogaethau ddirywiad sylweddol yn yr hirdymor. Y prif bryder oedd y dirywiad hidymor o 61% ar gyfer yr ydfran rhwng 1995-2021 a gostyngiad o 50% yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o fathau o gynefinoedd wedi gweld gostyngiad mewn amrywiaeth dros y 100 mlynedd diwethaf, gyda chyfradd y dirywiad yn cynyddu o'r 1970au ymlaen. Yn adroddiad Llesiant Cymru 2019, fe wnaethom adrodd bod 31% o'n tir yn cael ei ystyried yn lled-naturiol. Defnyddir y dangosydd cenedlaethol hwn i asesu cyfran ein tir sydd â chynefinoedd lled-naturiol, wedi eu haddasu llai gan mai'r rhain sydd fwyaf tebygol o ffurfio ecosystemau iach a chryf. Bydd dangosydd wedi ei ddiweddaru ar gael yn 2024.

Cafodd gwybodaeth ychwanegol o asesiadau cyflwr Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru ac asesiad sylfaenol y safleoedd gwarchodedig Daearol a Dŵr Croyw eu cynnwys yn adroddiad Llesiant Cymru 2022.

Bydd pridd sy'n cael ei reoli'n dda yn diogelu'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu, yn cynnal cynefinoedd, yn helpu i reoli'r perygl o lifogydd ac yn lleihau costau trin dŵr. Mae'r dangosydd cenedlaethol ar bridd ar gyfer 2013-16 yn dangos bod crynodiad y carbon yn ein pridd yn sefydlog ar y cyfan, ar wahân i dir cynefin lle gwelwyd colli carbon yn ddiweddar.

# Dŵr a pherygl llifogydd

Mae ansawdd ein dŵr, boed mewn moroedd, afonydd, nentydd neu'r ddaear, yn gwella'n gyffredinol.

Mae dŵr yn un o adnoddau naturiol Cymru rydym yn dibynnu arno'n gyson, gan gynnwys ar gyfer dŵr yfed, yr economi, diwydiant, trin carthffosiaeth ac

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.


amaethyddiaeth. Yn 2021-22 roedd Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy wedi darparu tua 900 megalitr y dydd (Ml/d) o ddŵr yfed i ateb y galw, gyda mwy o alw yn ystod y cyfnodau prysuraf fel yn ystod tywydd sych a phoeth neu fannau poblogaidd ymysg twristiaid. Amcangyfrifir bod cyfanswm y dŵr ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat (heb fod ar y prif gyflenwad) yn 13.8 Ml/d.

Mae’r data diweddaraf ar statws dŵr wyneb a dŵr daear yn dangos bod 40% o 933 o gyrff dŵr wyneb a dŵr daear mewn cyflwr da neu well yn 2021. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 3 pwynt canran o’r hyn a adroddwyd yn 2015 a gwelliant o 8 pwynt canran ers 2009. Disgwylir diweddariad pellach yn ystod hydref 2024.

Mae dyfroedd ymdrochi o ansawdd da yn bwysig iawn i gymunedau'r arfordir, ymwelwyr a’r economi yng Nghymru. Roedd ansawdd dŵr ymdrochi yn cael ei fonitro mewn 106 o safleoedd dynodedig ar hyd arfordir Cymru yn 2022. Roedd 105 o ddyfroedd ymdrochi yn cyrraedd y safonau a bennwyd gan y Rheoliadau Dŵr Ymdrochi. Dyfarnwyd bod 85 yn rhagorol, 16 wedi cyflawni sgôr dda a 4 wedi cyrraedd y safon sylfaenol, ddigonol. Methodd 1 dŵr ymdrochi â chyrraedd y safon, ac aseswyd ei fod o safon wael.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 2.1: Ansawdd dŵr ymdrochi, canran y safleoedd dynodedig, 2022




Disgrifiad o Ffigur 2.1: Siart cylch yn dangos ansawdd dŵr ymdrochi ar gyfer safleoedd dynodedig yng Nghymru yn 2022. Roedd 80% yn cael eu hystyried yn rhagorol, 15% yn dda, 4% yn ddigonol ac 1% yn wael.

Ffynhonnell: Adroddiad Ansawdd Dŵr Ymdrochi Cyfoeth Naturiol Cymru 2022

Mae'r asesiad risg llifogydd diweddaraf yn dangos bod rhai cartrefi yng Nghymru mewn perygl o lifogydd oherwydd moroedd, afonydd a dŵr wyneb, gyda rhai mewn perygl o lifogydd oherwydd mwy nag un math o lifogydd.

Yn 2019, roedd bron i 42,000 o eiddo yng Nghymru mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd o afonydd a mwy na 60,000 o eiddo mewn perygl uchel neu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ganolig o lifogydd llanw. Mae hyn yn cynnwys eiddo preswyl ac amhreswyl. O’r rhain, mae dros 20,000 yn elwa ar amddiffynfeydd rhag llifogydd afonydd a thros 50,000 ar amddiffynfeydd rhag llifogydd llanw. Ar hyn o bryd, nid yw’n bosibl ystyried tueddiadau dros amser oherwydd newidiadau yn y fethodoleg.

## Ansawdd aer

Mae ansawdd yr aer wedi gwella’n fawr ers y 1970au, ond mae’n parhau i fod yn risg i iechyd pobl.

Mae’r dangosydd cenedlaethol ar allyriadau nitrogen deuocsid (NO2) yn dangos bod y lefelau crynodiad cyfartalog y mae pobl yn agored iddynt wedi bod yn gostwng ar y cyfan dros y degawd diwethaf. Ar ôl cyfnod o sefydlogrwydd cymharol rhwng 2017 a 2019 (tua 9 µg/m3), gostyngodd y crynodiad cyfartalog i 7 µg/m3 yn 2020 a pharhau ar 7 µg/m3 yn 2021. Cynyddodd y crynodiadau cyfartalog o ddeunydd gronynnol (PM10 a PM2.5) y mae pobl yn agored iddynt ychydig rhwng 2020 a 2021 ond gan aros islaw’r lefel cyn y pandemig.

Ceir y crynodiadau uchaf o allyriadau nitrogen deuocsid mewn ardaloedd trefol a ger ffyrdd prysur, sy’n adlewyrchu cyfraniad traffig a gweithgareddau trefol at ansawdd aer gwael.


Mae llygredd aer yn cael effaith sylweddol ar iechyd y cyhoedd. Ar hyn o bryd, mae 44 o ardaloedd rheoli ansawdd aer yng Nghymru. Dynodwyd un ohonynt oherwydd y risg i lefelau deunydd gronynnol $PM_{10}$ fynd yn uwch na’r amcan ansawdd aer cymedrig dyddiol 24 awr ar gyfer $PM_{10}$, a dynodwyd y gweddill lle bo lefelau $NO_2$ yn uwch, neu â’r posibilrwydd o fod yn uwch, na'r amcanion ansawdd aer ar gyfer $NO_2$.

Y llynedd, gan ddefnyddio data 2019, nododd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU fod y baich marwolaeth a briodolir i lygredd aer awyr agored hirdymor yn y DU yn 'effaith sy'n cyfateb i' rhwng 29,000 a 43,000 o farwolaethau bob blwyddyn. Roedd hyn ymhlith oedolion 30 oed a throsodd. Mae'r amcangyfrif ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyfer Cymru yn 'effaith sy'n cyfateb i' 1,200 i 2,000 o farwolaethau ymhlith y rhai 30 oed a throsodd. Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhain yn wir farwolaethau; mae'r amcangyfrif yn ymwneud â llygredd aer sy'n cael ei ystyried yn cyfrannu at farwolaethau yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos bod llygredd aer yn lleihau disgwyliad oes i bawb.

### Ffigur 2.2: Dangosyddion ansawdd aer, 2007 i 2021




Disgrifiad o Ffigur 2.2: Siart linell yn dangos gwelliant cyffredinol mewn dangosyddion ansawdd aer dros y cyfnod 2007 i 2021.

Ffynhonnell: Dangosyddion Allyriadau Ansawdd Aer

## Gwastraff ac Ailgylchu

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran rheoli gwastraff dros y


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

degawd diwethaf drwy gynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu, a lleihau faint sy'n cael ei waredu. Mae Cymru ar flaen y gad o ran ailgylchu gwastraff cartrefi, ond rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau'n gyflymach nag y gellir eu hadnewyddu.

Roedd gostyngiad sylweddol yn swm y gwastraff a gynhyrchir, nad yw'n cael ei ailgylchu, y pen, rhwng 2012 a 2019 (o 794kg i 523kg). Mae swm y gwastraff nad yw'n cael ei ailgylchu wedi gostwng ar gyfer pob un o'r tair elfen yn y dangosydd cenedlaethol hwn:

- Gwastraff cartrefi
- Gwastraff diwydiannol a masnachol
- Gwastraff adeiladu a dymchwel


Er bod y cydrannau diwydiannol a masnachol, a gwastraff adeiladu a dymchwel yn cael eu mesur o bryd i'w gilydd drwy arolygon, mae data mwy rheolaidd a chyfredol ar gael ar wastraff cartrefi.

Mae faint o wastraff cartref sy'n cael ei gynhyrchu, ond nad yw'n cael ei ailgylchu fesul unigolyn, wedi gostwng yn gyffredinol dros y degawd diwethaf, gyda rhywfaint o amrywiadau yn 2019-20 a 2020-21 – sy'n debygol o fod oherwydd COVID-19. Yn 2021-22, ar gyfartaledd ni chafodd 178kg o wastraff a gynhyrchwyd ei ailgylchu fesul unigolyn.

Mae'r gyfradd ailgylchu (h.y. canran y gwastraff trefol awdurdod lleol a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio) wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf – o tua 5% ar ddiwedd y 1990au i bron i ddwy ran o dair (65.2%) yn 2021-22. Er bod y gyfradd ailgylchu wedi gostwng ychydig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd ychydig yn uwch na chyn pandemig COVID-19.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 2.3: Canran gwastraff trefol awdurdodau lleol sy’n cael ei ailddefnyddio/ailgylchu/compostio, 2012-13 i 2021-22




Disgrifiad o Ffigur 2.3: Siart llinell yn dangos bod canran y gwastraff trefol a gafodd ei ailddefnyddio/ailgylchu/compostio yng Nghymru wedi cynyddu’n gyffredinol o 52.3% yn 2012-13 i 65.2% yn 2021-22.

Ffynhonnell: Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol

Fel rhan o Arolwg Cenedlaethol 2022-23, gofynnwyd i bobl am ymddygiad amgylcheddol fel rhan o fywyd bob dydd. Roedd dros hanner (53%) o bobl yn prynu llai o eitemau newydd sbon, cynnydd o’r flwyddyn flaenorol (46%). Dywedodd 43% o bobl mai cost oedd y prif reswm pam eu bod wedi prynu llai o bethau newydd sbon o’i gymharu â 30% yn y flwyddyn flaenorol.

Mae’r mwyafrif helaeth o bobl (90%) naill ai wedi gwerthu neu roi eitemau i ffwrdd yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda menywod yn fwy tebygol o wneud hynny na dynion.  Mae 70% o bobl naill ai wedi derbyn neu brynu eitemau ail-law yn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ystod y 12 mis diwethaf, cynnydd o 57% yn 2018-19.

## Cynhyrchu ynni adnewyddadwy

Amcangyfrifir bod y defnydd o drydan yng Nghymru wedi cynyddu'n gyflymach na chynhyrchu trydan adnewyddadwy yng Nghymru yn 2021.  O ganlyniad, bu mymryn o ostyngiad yng nghanran gyfatebol y trydan a ddefnyddir yng Nghymru drwy gynhyrchu trydan adnewyddadwy o 56% yn 2020 i 55% yn 2021.

Roedd tua 28% o'r trydan a gynhyrchwyd yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy yn 2021, cyfran is nag yn 2020, ond ychydig yn uwch nag yn 2019. Mae'r gostyngiad blynyddol diweddar yn deillio o gynnydd yng nghyfanswm y trydan sy'n cael ei gynhyrchu o ganlyniad i orsafoedd pŵer nwy yng Nghymru yn cynyddu eu hallbwn yn ôl i lefelau cynhyrchu cyn COVID-19.


Mae'r rhan fwyaf (dros dri chwarter) o gapasiti ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cynhyrchu trydan adnewyddadwy, ac mae'r chwarter arall yn cynhyrchu gwres adnewyddadwy.

Mae capasiti prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru (trydan a gwres) wedi cynyddu'n sylweddol dros ynni adnewyddadwy degawd diwethaf, er bod y cynnydd wedi arafu dros y blynyddoedd diwethaf. Ar ddiwedd 2021, roedd y capasiti trydanol a osodwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy yn 3,508 megawat (MW), ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a mwy na dwywaith y capasiti yn 2012. Ddiwedd 2021, cyfanswm capasiti gwres adnewyddadwy yng Nghymru oedd 742 MW, ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a bron i dair gwaith ar ddeg yn fwy na'r capasiti gwres yn 2012. Fodd bynnag, mae'r gyfradd osod yn 2021 yn parhau i fod yr ail isaf yn ystod y degawd diwethaf ac mae bron i 90% yn is nag uchafbwynt 2015, pan gafodd mwy nag 1 GW o gapasiti ynni adnewyddadwy ei osod.

Mae Cymru'n parhau i fod yn allforiwr net o drydan, gan gynhyrchu bron i ddwywaith cymaint o drydan ag y mae'n ei ddefnyddio bob blwyddyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 2.4: Y gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, 2012 i 2021




Disgrifiad o Ffigur 2.4: Siart llinell yn dangos cynnydd sylweddol cyffredinol yn y capasiti trydan a gwres adnewyddadwy yng Nghymru rhwng 2012 a 2021.

Ffynhonnell: Adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru

Y garreg filltir genedlaethol ar berfformiad ynni anheddau yw y bydd pob cartref yng Nghymru yn cael perfformiad ynni digonol a chost-effeithiol erbyn 2050. Yn ôl Arolwg Cyflwr Tai Cymru, 2017-18, ystyriwyd bod gan 47% o anheddau preswyl berfformiad ynni digonol (sgôr SAP o 65 neu uwch).

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, roedd tri chwarter y bobl yn defnyddio llai o ynni yn eu cartrefi, cynnydd o 62% y flwyddyn flaenorol. O’r rhain, cost oedd y rheswm a roddwyd gan y rhan fwyaf o bobl (84%).


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Darllen pellach

Roedd fersiynau blaenorol o adroddiad Llesiant Cymru yn cynnwys dadansoddiad pellach o:

- llifogydd
- cynefinoedd lled-naturiol
- bioamrywiaeth
- mannau gwyrdd
- ansawdd pridd
- effeithlonrwydd ynni cartrefi

Mae’r **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 (Cyfoeth Naturiol Cymru)** yn darparu asesiad cynhwysfawr o’r graddau y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli’n gynaliadwy.

**Arolwg Cenedlaethol Cymru** yn darparu data ar safbwyntiau pobl ar faterion amgylcheddol.

**Adroddiad ar dystiolaeth Natur Bositif 2030** - a gynhyrchwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru, NatureScot a’r Northern Ireland Environment Agency.

**Cyfoeth Naturiol Cymru – Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru**

## Ffynonellau data

### Ôl troed byd-eang

**Deall Ôl Troed Amgylcheddol Byd-eang ac Effeithiau Defnydd Cymru (JNCC)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Bioamrywiaeth a chynefinoedd

Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Adroddiad ERAMMP: Datblygu Dangosydd-44 (Statws Amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru) (ERAMMP)

Cynllun Monitro Gloÿnnod Byw y Deyrnas Unedig (UKBMS)

Arolwg Adar Nythu (BTO)

Crynodeb o ganlyniadau Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP)

## Dŵr

Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd 2021-2027 (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Adroddiad Dŵr Ymdrochi Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Asesiad o’r Risg o Lifogydd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)

## Ansawdd aer

Dangosyddion Cyfartaledd Crynodiadau Ansawdd Aer (StatsCymru)

Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (Ansawdd Aer Cymru)

Chemical hazards and poisons report: issue 28 (Adroddiad Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Ailgylchu a defnyddio adnoddau

**Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol (StatsCymru)**

**Ystadegau'r Deyrnas Unedig ar wastraff**

**Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018**

**Arolwg o Sgil-gynhyrchion Gwastraff Adeiladu a Dymchwel Cymru 2019**

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

### Ynni

**Data cynhyrchu ynni carbon isel (StatsCymru)**

**Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2021**

**Arolwg Cyflwr Tai Cymru**

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

# Cymru iachach

# Y nod ar gyfer Cymru iachach

Awdur: Dr William Perks

Cymru iachach: Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Beth ydym wedi ei ddysgu o’r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

- Mae’r holl ddata sydd yn y bennod hon nawr yn dangos effaith o leiaf un cyfnod ym mhandemig y coronafeirws (COVID-19), a’r tu hwnt mewn rhai achosion.
- Gwelwyd gostyngiad mewn disgwyliad oes yn y cyfnod diweddaraf sydd ar gael (2018-20), sy’n cynnwys rhan o gyfnod pandemig COVID-19.
- Mae disgwyliad oes yn uwch i fenywod, ond mae cyfran y bywyd a dreulir mewn iechyd da yn uwch i ddynion.
- Mae dadansoddiad (yn seiliedig ar y cyfnod rhwng 2018 a 2020) yn dangos bod y bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y mwyaf a’r lleiaf difreintiedig wedi aros yn eang ond yn gymharol sefydlog, gan gulhau ychydig ymysg dynion.
- Yn 2022, bu 35,694 o farwolaethau o bob achos, gostyngiad o’i gymharu â’r nifer uchel o farwolaethau a welwyd yn 2020 a 2021 ond sy’n dal yn uwch na’r niferoedd a gofnodwyd cyn y pandemig.
- Roedd y mwyafrif o oedolion a phobl ifanc yn dweud eu bod yn dilyn dau neu fwy o’r pum ymddygiad ffordd o fyw iach.
- Roedd canlyniadau cymysg ar gyfer ymddygiad ffordd iach o fyw menywod beichiog yn yr asesiad cychwynnol, gyda chanran is o fenywod yn dweud eu bod yn ysmygu, ond canran uwch yn cael eu cofnodi fel rhai sy'n ordew neu gyda chyflwr iechyd meddwl nag yn y flwyddyn flaenorol.
- Roedd lefelau llesiant meddyliol oedolion a phobl ifanc ychydig yn is ond yn debyg i’r hyn a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol.
- Roedd data ar foddhad â bywyd a lefelau gorbryder ymysg oedolion wedi gwella ar ôl cwympo yn ystod y pandemig, ond roedd data ar foddhad â bywyd wedi gostwng ymysg pobl ifanc.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Beth yw’r cynnydd hirdymor tuag at y nod?

Ymddengys fod rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud tuag at gyflawni’r nod, gyda nifer o ddangosyddion cenedlaethol Cymru iachach yn aros yn weddol sefydlog a ddim yn dangos newid sylweddol dros y cyfnodau y maent ar gael. Mae’r pandemig hefyd wedi cael effaith amlwg ar nifer o’r tueddiadau yn y data diweddaraf, ac nid yw’r goblygiadau ar gyfer tueddiadau tymor hwy yn glir. Am y rheswm hwn, mae’r casgliadau hirdymor canlynol yn cael eu llunio’n bennaf ar sail tystiolaeth cyn y pandemig.

Roedd disgwyliad oes wedi bod yn codi ers yr Ail Ryfel Byd, er bod hynny’n arafach dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, mae wedi disgyn ar gyfer y cyfnod mwyaf diweddar, sy'n adlewyrchu effaith pandemig COVID-19 yn ôl pob tebyg.

Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer disgwyliad oes iach yw cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau’r bwlch rhwng disgwyliad oes iach y lleiaf a’r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050. Mae’r data yn dangos bod disgwyliad oes iach yn parhau i fod yn waeth i’r rhai sy’n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, ond mae wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2011-13 a 2018-20.

Yn yr hirdymor, mae cyfraddau marwolaeth safonedig yn ôl oedran wedi bod yn gwella, gan ostwng o 1,406 o farwolaethau fesul 100,000 o bobl ym 1994 i 1,087 o farwolaethau fesul 100,000 o bobl yn 2021. Mae’r cynnydd yn nifer y marwolaethau sy’n gysylltiedig â’r pandemig wedi cael effaith negyddol ar hyn dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae cyfran y babanod sy’n cael eu geni gyda phwysau geni isel wedi aros yn gymharol sefydlog dros y gyfres amser, fel arfer yn amrywio rhwng 5% a 6%, er ei bod wedi gweld cynnydd bach yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Nod y garreg filltir genedlaethol yw cynyddu canran yr oedolion sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 97% erbyn 2050. Oherwydd y newid ym modd Arolwg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cenedlaethol Cymru, nid yw'n bosibl cymharu tueddiadau diweddar ar gyfer mesurau ffordd o fyw iach i oedolion. Cyn y pandemig, rhwng 2016-18 a 2019-20, nid oedd newid sylweddol yng nghyfran yr oedolion a ddywedodd fod ganddynt ddau neu fwy ymddygiad ffordd o fyw iach, ac mae ychydig yn is na'r garreg filltir genedlaethol. Yn 2022-23 roedd y mwyafrif (92%) o oedolion yn dweud eu bod yn dilyn dau neu fwy o'r pum ymddygiad ffordd o fyw iach.

Nod y garreg filltir genedlaethol yw cynyddu canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% erbyn 2035 ac i dros 99% erbyn 2050. Mae'r data'n dangos bod canran y bobl ifanc a oedd yn cyrraedd y garreg filltir genedlaethol yn 2021 yn 90%, ychydig yn uwch na'r 88% a gofnodwyd yn 2019 a 2017.

Y garreg filltir genedlaethol ar lesiant meddyliol yw gwella llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu'r bwlch mewn llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050. Roedd llesiant meddyliol oedolion ar gyfartaledd yn debyg o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaeth yn y modd casglu, mae'n anodd cymharu'r dangosydd hwn yn y tymor hwy.

Wrth fesur llesiant meddyliol pobl ifanc gan ddefnyddio'r mesur newydd (SWEMWBS) ar gyfer y dangosydd cenedlaethol, roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer pobl ifanc ychydig yn is yn 2021-22 o'i gymharu â 2019-20 a 2017-18, gan ddangos gostyngiad bach mewn llesiant meddyliol.

Roedd boddhad â bywyd ar gyfartaledd wedi bod yn cynyddu ymhlith oedolion ers 2011-12, gyda lefelau gorbryder yn gostwng rhywfaint ar gyfartaledd. Fodd bynnag, gwelodd y flwyddyn cyn y pandemig rywfaint o ostyngiad mewn lefelau bodlonrwydd ar fywyd a gorbryder. Parhaodd y duedd hon ym mlwyddyn gyntaf y pandemig, gyda lefelau yn gostwng o dan y rhai a welwyd yn 2011-12. Ond yn fwy diweddar, gwelwyd sgoriau gwell yn 2022 o'i gymharu â 2021.

Mae boddhad cyfartalog â bywyd pobl ifanc wedi gostwng ers 2017-18 pan ddywedodd 85% eu bod yn fodlon â'u bywyd, o'i gymharu â 78% yn 2021-22

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae cyflwr tai wedi gwella yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Dangosodd yr Arolwg Cyflwr Tai Cymru diweddaraf nad oedd y peryglon mwyaf difrifol (categori 1) i'w gweld mewn 82% o'r anheddau yn 2017-18, o'i gymharu â 71% yn 2008. Gwelwyd gwelliannau ym mhob deiliadaeth.

## Disgwyliad oes

Roedd disgwyliad oes wedi bod yn codi ers yr Ail Ryfel Byd, er bod hynny'n arafach dros y degawd diwethaf.

Mae dadansoddiad yn dangos mai dynion a menywod 60-84 oed sy'n cyfrannu fwyaf at gynyddu disgwyliad oes, ond mae'r gwelliannau hyn wedi arafu'n sylweddol.


Gwelwyd gostyngiad mewn disgwyliad oes yn y cyfnod diweddaraf sydd ar gael (2018-20), sy'n cynnwys rhan o gyfnod pandemig COVID-19, o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol (2017-19).

Roedd disgwyliad oes adeg geni yn 82 oed i fenywod a 78 oed i ddynion yn 2018-20. Roedd hyn yn ostyngiad bach i ddynion a menywod, yn dilyn cyfraddau marwolaeth uwch yn 2020 yn ystod pandemig COVID-19.

Roedd disgwyliad oes iach yn 62 oed i fenywod a 61 oed i ddynion yn 2018-20.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Ffigur 3.1: Mynegai disgwyliad oes adeg geni, yn ôl rhyw (2001-03 = 100), 2001-03 i 2018-20




Disgrifiad o Ffigur 3.1: Siart linell sy’n dangos bod cynnydd mewn disgwyliad oes ar gyfer dynion a menywod wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn y cyfnod diweddaraf wedi gostwng, gan adlewyrchu effaith pandemig COVID-19.

Ffynhonnell: Disgwyliad oes, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Achosion marwolaethau

Yn 2022, bu 35,694 o farwolaethau o bob achos, gostyngiad o’i gymharu â’r nifer uchel o farwolaethau a welwyd yn 2020 a 2021 ond sy’n dal yn uwch na’r niferoedd a gofnodwyd cyn y pandemig.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ar gyfer achosion marwolaethau a gofnodwyd yn y flwyddyn hyd yma, mae'r cyfartaledd dros bum mlynedd ar gyfer 2023 wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2017 i 19, 2021 a 2022, gan ddarparu cymhariaeth gyfredol sy'n dal yn agos at gynrychioli blwyddyn arferol (heb fod yn y pandemig), ond heb gynnwys y nifer eithriadol o uchel o farwolaethau a welwyd yn 2020.

Roedd y nifer uchaf o farwolaethau yn y flwyddyn hyd yma (Ionawr i Orffennaf 2023) yn deillio o glefydau isgemia'r galon, ac yna Dementia a chlefyd Alzheimer, y ddau gyda bron i ddwywaith nifer y marwolaethau nag unrhyw achos arall o farwolaeth. Yn hanesyddol, dyma sydd wedi achosi'r nifer mwyaf o farwolaethau. COVID-19 oedd y nawfed achos uchaf o farwolaeth yn y flwyddyn hyd yma ar ôl bod yn brif achos marwolaeth yn 2020 a'r ail yn 2021.

Mae cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran yn caniatáu i ni wneud cymariaethau gwell dros amser ac ardal am eu bod yn ystyried maint y boblogaeth a'r strwythur o ran oedran.

Yn seiliedig ar ddata hyd at 2021, dros yr hirdymor mae cyfraddau marwolaeth safonedig yn ôl oedran wedi bod yn gwella, gan ostwng o 1,406 o farwolaethau fesul 100,000 o bobl ym 1994 i 1,087 o farwolaethau fesul 100,000 o bobl yn 2021. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r pandemig wedi cael effaith negyddol ar hyn dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yn 2021, roedd y cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran yn sylweddol uwch ar gyfer dynion (1,272 o farwolaethau am bob 100,000 o ddynion) nag ar gyfer menywod (935 o farwolaethau am bob 100,000 o fenywod).

Daw'r data diweddaraf ar farwolaethau yr oedd modd eu hosgoi o 2020 ymlaen, pan oedd y gyfradd ar gyfer Cymru yn sylweddol uwch yn ystadegol na'r holl flynyddoedd ers 2012. Priodolwyd tua dwy ran o dair o farwolaethau yr oedd modd eu hosgoi i gyflyrau y gellir eu hatal, ac un rhan o dair i rai yr oedd modd eu trin. Gan edrych ar grwpiau eang o achosion marwolaeth, neoplasmau (tiwmor) oedd prif achos marwolaethau yr oedd modd eu hosgoi. COVID-19 oedd y trydydd achos mwyaf cyffredin.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn 2021, roedd 322 o farwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau wedi eu cofrestru yng Nghymru, ac roedd 210 ohonynt yn farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau. Mae’r duedd gyffredinol mewn marwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru wedi bod yn uwch ers yr ystadegau cyntaf yn 1993. Y ffigurau ar gyfer 2021 yw’r ail uchaf a gofnodwyd o ran gwenwyno gan gyffuriau (bron yn cyrraedd uchafbwynt 2018), a’r uchaf erioed o ran camddefnyddio cyffuriau. Roedd marwolaethau oherwydd cyffuriau yn fwy cyffredin ymysg dynion na menywod a gwelwyd cyfraddau uwch o farwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau mewn ardaloedd mwy difreintiedig.


Mae’r ffigurau hyn yn seiliedig ar y flwyddyn y cofrestrwyd y farwolaeth, yn hytrach na phan ddigwyddodd y farwolaeth. Oherwydd oedi wrth gofrestru, digwyddodd tua hanner y marwolaethau hyn mewn blynyddoedd cyn 2021. Mae oedi wrth gofrestru marwolaethau, a gynyddodd yn ystod pandemig COVID-19, yn debygol o fod wedi effeithio ar y ffigurau.

Dros yr hirdymor, mae’r gyfradd hunanladdiadau wedi amrywio o un flwyddyn i’r llall, ond yn gyffredinol maent wedi bod yn gostwng. O ran 12.7 o farwolaethau o hunanladdiad fesul 100,000 o bobl, dangosodd cofrestriadau 2021 nad oedd cyfraddau hunanladdiad yn sylweddol uwch yn ystadegol na 2020, ac roeddent yn debyg i’r lefelau a welwyd mewn blynyddoedd cyn y pandemig. Mae'r cynnydd nad yw'n sylweddol yn 2021 o'i gymharu â 2020 yn debygol o adlewyrchu aflonyddwch i gwestau crwneriaid a achoswyd gan y pandemig ac felly’n golygu oedi wrth gofrestru marwolaethau. Mae’r ffigurau diweddaraf yn cynnwys marwolaethau a ddigwyddodd yn 2020 ac a gofrestrwyd yn 2021.

Er bod cynnydd bach yn 2021, mae cyfraddau marwolaethau sy’n ymwneud ag alcohol wedi bod yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 3.2: Achosion marwolaeth, yn ôl nifer y marwolaethau a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn hyd yma (Ionawr - Gorffennaf 2023), o’u cymharu â chyfartaledd 2017-2019, 2021 a 2022




Disgrifiad o Ffigur 3.2: Siart dymbel yn dangos y 10 prif achosion marwolaeth yn y flwyddyn hyd yma, o’u cymharu â chyfartaledd 2017-19, 2021 a 2022, gyda chlefyd isgemig y galon yr uchaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad misol o farwolaethau, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Nodyn 1] Mae’r cyfartaledd dros bum mlynedd ar gyfer 2023 wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2017-19, 2021 a 2022, gan ddarparu cymhariaeth gyfredol sy’n dal yn agos at gynrychioli blwyddyn arferol (heb fod yn y pandemig), ond


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

heb gynnwys y nifer eithriadol o uchel o farwolaethau a welwyd yn 2020.

[Nodyn 2] Bwriad y cyfartaledd pum mlynedd yw dangos yr hyn a ddisgwylir mewn blwyddyn heb fod yn y pandemig. Gan hynny, nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer y cyfartaledd pum mlynedd ar gyfer COVID-19.

## Anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes a marwolaeth

Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer disgwyliad oes iach yw cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch rhwng disgwyliad oes iach y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050.

Mae llawer o anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes a marwolaeth o hyd.

Mae dadansoddiad yn seiliedig ar y cyfnod rhwng 2018 a 2020 yn dangos bod y bwlch cyffredinol mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a'r lleiaf difreintiedig wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2011-13 a 2018-20. Mae'n ymddangos bod y bwlch hwn wedi lleihau ychydig yn y cyfnod diweddaraf ar gyfer dynion (13.3 mlynedd) ac wedi cynyddu ychydig ar gyfer menywod (16.9 mlynedd).

Mae'r bwlch disgwyliad oes yn llawer llai, sef 7.6 mlynedd i ddynion a 6.3 mlynedd i fenywod. Ond mae wedi bod yn cynyddu'n gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddynion a menywod, sy'n awgrymu bod anghydraddoldeb cynyddol.

Mae dynion yn treulio mwy o'u bywyd mewn iechyd da (78.5%) o'i gymharu â menywod (76.0%).

Mae rhagor o ddadansoddiadau o'r bwlch mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach gan y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol i'w gweld yn yr adran deunydd darllen pellach isod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.


Mae’r data diweddaraf ar farwolaethau y gellir eu hosgoi yn dod o 2020 ymlaen, lle’r oedd cyfran y marwolaethau yr oedd modd eu hosgoi yn parhau i fod yn sylweddol uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o’i gymharu â’r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Roedd marwolaethau y gellid eu hosgoi yn cyfrif am 37.0% o’r holl farwolaethau ymysg dynion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o’i gymharu â 18.9% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Ar gyfer menywod, roedd y ffigurau cyfatebol yn 25.7% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a 14.1% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Yn 2020, fe wnaeth y bwlch absoliwt mewn marwolaethau y mae modd eu hosgoi rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a’r lleiaf difreintiedig gynyddu i’r lefel uchaf ers 2003 ar gyfer dynion ac ers i’r gyfres amser data ddechrau ar gyfer menywod.

Roedd cyfraddau marwolaethau yr oedd modd eu hosgoi gyda COVID-19 fel achos marwolaeth sylfaenol yn llawer uwch yn ystadegol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o’u cymharu â’r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Ffigur 3.3: Bwlch absoliwt mewn disgwyliad oes a'r disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a lleiaf, dynion a menywod, rhwng 2011-13 a 2018-20 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 3.3: Siart linell yn dangos bwlch absoliwt mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach ar gyfer dynion a menywod rhwng 2011-13 a 2018-20 gyda menywod â disgwyliad oes uwch ond dynion â disgwyliad oes iach uwch.

Ffynhonnell: Disgwyliad iechyd yng Nghymru gyda bwlch anghydraddoldeb, Iechyd Cyhoeddus Cymru

[Nodyn 1] Cyfrifir y bwlch mewn disgwyliadau iechyd fel y gwahaniaeth absoliwt rhwng y pumed lleiaf a'r mwyaf difreintiedig. Mae'r dull hwn wedi newid ers i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddisgwyliadau iechyd blaenorol gael eu rhyddhau, a hynny er mwyn gwella sefydlogrwydd y mesur ar lefel awdurdod lleol. Defnyddiwyd Mynegai Oleddol Anghydraddoldeb (SII) i gyfrifo'r bwlch yn flaenorol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i gyhoeddi'r SII ar lefel genedlaethol fel rhan o'i **datganiad ar ddisgwyliad oes a chyflwr iechyd (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**.

# Babanod â phwysau geni isel

Mae canran y babanod pwysau geni isel wedi aros yn gymharol sefydlog dros y gyfres amser, fel arfer yn amrywio rhwng 5% a 6%.

Cofnodwyd y ffigurau isaf yn y cofnodion yn 2014 a 2015. Ers hynny, mae cynnydd bach wedi bod yn nifer y babanod pwysau geni isel, gyda 2022 ar ei uchaf erioed.


Yn 2022, roedd gan ganran ychydig yn uwch o fabanod benyw bwysau geni isel (6.9%) o'i gymharu â babanod gwryw (5.3%). Mae hyn yn weddol gyson â'r duedd dros dymor hirach.

Roedd cyfran y genedigaethau byw â phwysau geni isel neu oed ffetws isel ar ei huchaf ymhlith y mamau ieuengaf a'r mamau hynaf yn 2022, er mai dim ond nifer fach o enedigaethau i famau sydd yn y grwpiau oedran hyn. Mae canran y babanod sydd ag oed ffetws isel a chanran y babanod sydd â phwysau geni isel wedi aros yn weddol sefydlog ar draws y grwpiau oedran dros y 10 mlynedd diwethaf.

Gwelwyd manteision iechyd i fabanod a'u mamau yn sgil bwydo ar y fron. Yn ystod y degawd diwethaf, mae cyfraddau bwydo ar y fron adeg geni wedi bod yn cynyddu. Roedd y data blynyddol diweddaraf yn 2022 yn dangos bod canran y babanod sy'n cael eu bwydo ar y fron adeg geni tua 63%. Mae hyn 1.6 pwynt canran yn uwch nag yn 2018. Mae babanod mamau hŷn yn fwy tebygol o gael eu bwydo ar y fron na rhai mamau iau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Ffigur 3.4: Canran y genedigaethau unig blant gyda phwysau geni o lai na 2,500g, 2005 i 2022




Disgrifiad o Ffigur 3.4: Siart linell yn dangos canran genedigaethau byw unig blant gyda phwysau geni o lai na 2,500g. Mae’r gyfradd fel arfer wedi amrywio rhwng 5% a 6% yn ystod y gyfres amser, gyda chynnydd bach ers 2014.

Ffynhonnell: Ystadegau mamolaeth a genedigaethau, Llywodraeth Cymru

## Iechyd mamau

Yn 2022, roedd y data yn dangos canlyniadau cymysg ar gyfer ymddygiad iach menywod beichiog yn yr asesiad cychwynnol, gyda chanran is o fenywod yn dweud eu bod yn ysmygu, ond canran uwch yn cael eu cofnodi fel rhai sy'n ordew neu sydd â chyflwr yn gysylltiedig ag iechyd meddwl nag yn y flwyddyn flaenorol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn 2022, cafodd 14% o fenywod beichiog eu cofnodi fel ysmygwyr yn eu hasesiad cychwynnol. Mae hyn yn parhau'r duedd ar i lawr ers i ddata gael ei gasglu am y tro cyntaf yn 2016, ac mae un pwynt canran yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, ers 2021 mae bron yr holl ddata wedi cael ei hunan-adrodd, yn hytrach na bod carbon monocsid yn cael ei fonitro, a gallai hynny fod wedi effeithio ar gymariaethau uniongyrchol cyn hyn.

Roedd cyfran uwch o fenywod iau yn dweud eu bod yn ysmygu yn yr asesiad cychwynnol o'i gymharu â menywod hŷn. Cofnodwyd bod tri allan o ddeg (29%) o fenywod rhwng 16 a 19 oed yn ysmygu yn yr asesiad cychwynnol o'i gymharu ag un o bob deg (10%) o fenywod 30 oed neu hŷn. Mae cyfraddau ysmygu yn yr asesiad cychwynnol wedi gostwng dros y chwe blynedd diwethaf ar gyfer pob grŵp oedran, (ac eithrio'r rhai o dan 16 oed, sy'n ddarostyngedig i anwadalrwydd o un flwyddyn i'r llall oherwydd y nifer isel o fenywod yn y grŵp hwn).

Roedd gan dri o bob deg (31%) o fenywod beichiog fynegai màs y corff (BMI) o 30 neu fwy yn yr asesiad cychwynnol. Parhaodd y duedd ar i fyny yn y tymor hwy gan fod y ganran yn 2022 un pwynt canran yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol a phum pwynt canran yn uwch nag yn 2016 (blwyddyn gyntaf y data cymaradwy).

Dywedodd tri o bob deg (30%) o fenywod beichiog fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yn yr asesiad cychwynnol. Parhaodd y duedd ar i fyny yn y tymor hwy hefyd, gyda'r data diweddaraf un pwynt canran yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol, ac un ar ddeg pwynt canran yn uwch nag yn 2016 (blwyddyn gyntaf y data cymaradwy).

Roedd nifer y genedigaethau byw wedi gostwng ychydig; gan barhau â gostyngiad yn y duedd a welwyd yn gyffredinol ers 2010. Mae canran y babanod newydd-anedig o bob grŵp ethnig wedi cynyddu ar wahân i'r rhai o grŵp ethnig Gwyn (sydd wedi gostwng) ers 2018.

Mae canran y mamau ifanc yn parhau i ostwng. Roedd y rhan fwyaf o famau a roddodd enedigaeth yn ystod y flwyddyn rhwng 25 a 34 oed.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Ymddygiadau ffordd iach o fyw

Dyma'r cerrig milltir cenedlaethol ar ymddygiad iach oedolion a phlant o ran ffordd o fyw:

cynyddu'r ganran sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach i fwy na 97% ar gyfer oedolion erbyn 2050.

cynyddu'r ganran sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% yn achos plant erbyn 2035 ac i dros 99% erbyn 2050.

Cafodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ei addasu oherwydd y pandemig, gyda newid ym modd yr arolwg (cyfweliadau dros y ffôn yn hytrach na chyfweliadau wyneb yn wyneb) a newidiadau i rai cwestiynau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gan fod y pynciau hyn yn gallu bod yn sensitif i newidiadau o'r fath, nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol â data o flynyddoedd cyn 2020-21.

Cyn y pandemig, rhwng 2016-18 a 2019-20, nid oedd newid sylweddol yng nghyfran yr oedolion a ddywedodd fod ganddynt ddau neu fwy ymddygiad ffordd o fyw iach, ac mae ychydig yn is na'r garreg filltir genedlaethol


Mae'r data a gyflwynir yma ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023.

Roedd y mwyafrif (92%) o oedolion yn dweud eu bod yn dilyn dau neu fwy o'r pum ymddygiad ffordd o fyw iach. Mae hyn yn cynnwys peidio ag ysmygu, yfed o fewn y canllawiau wythnosol, bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau neu lysiau y diwrnod blaenorol, bod yn gorfforol egnïol am 150 munud neu fwy'r wythnos flaenorol, a bod yn bwysau iach. Roedd 30% o oedolion yn dilyn pedwar neu bump ymddygiad ffordd iach o fyw.

Nid oedd unrhyw newid sylweddol yn y rhan fwyaf o ymddygiadau ffordd o fyw rhwng 2021-22 a 2022-23, ond roedd cynnydd yn y nifer a oedd yn defnyddio e-sigaréts.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 3.5: Ffeithlun o ganran yr oedolion a ddywedodd eu bod yn dilyn ffordd iach o fyw fel unigolion [Nodyn 1]




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022-23, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Mae yfed o fewn canllawiau wythnosol yn cynnwys y rhai nad ydynt yn yfed


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn 2022-23, roedd canran yr oedolion â dau ymddygiad ffordd iach o fyw neu fwy yn is ymysg dynion (o’i gymharu â menywod), pobl 45-64 oed (o’i gymharu â’r rhai mewn grwpiau oedran iau neu hŷn) a phobl o ardal fwy difreintiedig (o’i gymharu â’r rheini o ardal lai difreintiedig).

Oherwydd maint sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae dadansoddiadau yn ôl nodweddion gwarchodedig eraill yn gyfyngedig, felly mae'r dadansoddiad isod yn cyfuno pedair blynedd o ddata (o 2016-17 i 2019-20) i allu dadansoddi’r rhain. Ar ben hynny, mae’r dadansoddiad hwn ar sail canlyniadau wedi’u safoni yn ôl oedran er mwyn ystyried gwahaniaethau ym mhroffil oedran mewn gwahanol grwpiau.

Roedd oedolion a oedd yn ystyried eu hunain yn ddeurywiol yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt ddau ymddygiad ffordd iach o fyw neu fwy (o’u cymharu â’r rheini mewn grwpiau cyfeiriadedd rhywiol eraill), fel yr oedd oedolion nad oeddent yn anabl (o’u cymharu â’r rhai a oedd yn anabl).

Roedd oedolion a ddywedodd nad oedd ganddynt grefydd yn llai tebygol o adrodd bod ganddynt ddau ymddygiad ffordd iach o fyw neu fwy na’r rhai mewn grwpiau crefyddol eraill; y rhai a oedd yn nodi eu bod yn Fwslim oedd fwyaf tebygol o wneud hynny (er nad oedd y gwahaniaeth o’i gymharu â’r grŵp crefydd Arall yn ystadegol arwyddocaol). Roedd oedolion a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt ddau ymddygiad ffordd iach o fyw neu fwy na’r rheini a oedd yn sengl neu’r rheini a oedd wedi gwahanu neu ysgaru.

Dangosodd arolwg Iechyd a Llesiant y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion fod canran y bobl ifanc (11-16 oed) sy’n cyrraedd y garreg filltir genedlaethol ym mlwyddyn academaidd 2021/22 yn 90% - ychydig yn uwch na’r 88% a adroddwyd ym mlynyddoedd academaidd 2019/20 a 2017/18.

Mae’r ymddygiadau iach dan sylw yn cynnwys peidio ag ysmygu, peidio ag yfed alcohol neu beidio â’i yfed yn aml, bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd a bod yn gorfforol egnïol am awr neu fwy bob dydd, dros y saith diwrnod blaenorol. Ar gyfer yr ymddygiadau sylfaenol hyn ym mlwyddyn academaidd 2021/22:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Roedd 95% o bobl ifanc yn dweud nad oeddent yn ysmygu.
- Roedd 83% o bobl ifanc yn dweud nad oeddent yn yfed alcohol neu nad oeddent yn ei yfed yn aml.
- Roedd 45% o bobl ifanc yn dweud eu bod yn bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd.
- Dywedodd 16% o bobl ifanc eu bod wedi bod yn gorfforol egnïol am awr neu fwy y dydd, dros y saith diwrnod diwethaf.

Rhwng blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2021/22, mae'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn ysmygu ac nad oeddent byth neu'n anaml yn yfed alcohol wedi gweld gwelliannau bach. Mae'r rhai sy'n dweud eu bod yn bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd neu wedi bod yn gorfforol egnïol am awr neu fwy y dydd dros y saith diwrnod diwethaf wedi gweld gostyngiad bach.

Ym mlwyddyn academaidd 2021/22, y rhai a oedd yn iau, a oedd yn ddynion (91%) ac o olud teuluol uchel (90%) oedd â'r ganran uchaf o blant â dau neu fwy o ymddygiadau ffordd iach o fyw, o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn ystyried eu hunain yn fachgen nac yn ferch (84%), o grŵp golud teuluol isel (89%) neu a oedd yn hŷn a oedd â'r ganran isaf.

Mae lefelau gweithgarwch corfforol yn gostwng yn ôl oedran yn yr ysgol uwchradd, ac mae bechgyn (yn hytrach na merched neu bobl ifanc a nododd nad oeddent yn fachgen nac yn ferch) a'r rhai sy'n dod o grŵp golud teuluol uchel (yn hytrach na golud teuluol canolig neu isel) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gorfforol egnïol am awr neu fwy bob dydd, dros y saith diwrnod diwethaf.

Mae canran y bobl ifanc sy'n dweud eu bod yn bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd hefyd yn gostwng yn ôl oedran yn yr ysgol uwchradd, gyda merched (yn hytrach na bechgyn neu bobl ifanc a nododd nad oeddent yn fachgen nac yn ferch) a'r rhai sy'n dod o grŵp golud teuluol uchel (yn hytrach nag un canolig neu isel) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd.

Gostyngodd canran y bobl ifanc sy'n dweud nad ydynt yn ysmygu yn ôl oedran yn yr ysgol uwchradd. Roedd merched a bechgyn (o'u cymharu â phobl ifanc a


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

nododd nad oeddent yn fachgen nac yn ferch) a’r rhai o grŵp golud teuluol uchel a chanolig (o’i gymharu â golud teuluol isel) yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn ysmygu.

Roedd canran y bobl ifanc sy'n dweud nad ydynt yn yfed alcohol neu nad ydynt yn ei yfed yn aml yn gostwng yn ôl oedran yn yr ysgol uwchradd. Roedd merched a bechgyn (o’u cymharu â phobl ifanc a nododd nad oeddent yn fachgen nac yn ferch) a’r rhai o grŵp golud teuluol isel (o’i gymharu â golud teuluol uchel a canolig) yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn yfed alcohol neu'n yfed yn anaml iawn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 3.6: Canran y bobl ifanc 11 i 16 oed sy’n dilyn ymddygiadau iechyd penodol, 2017/18 (blwyddyn academaidd) i 2021/22




Disgrifiad o Ffigur 3.6: Siart linell yn dangos mân welliannau neu duedd sefydlog yng nghanran y bobl ifanc nad ydynt yn ysmygu, sy’n egnïol bob dydd, sy’n bwyta ffrwythau a llysiau bob dydd ac nad ydynt byth neu bron byth yn yfed alcohol, rhwng blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2021/22.

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Iechyd meddwl a llesiant ymysg oedolion

Y garreg filltir genedlaethol ar lesiant meddyliol yw gwella llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu’r bwlch mewn llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050

Cafodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ei addasu oherwydd y pandemig, gyda newid ym modd yr arolwg (cyfweliadau dros y ffôn yn hytrach na chyfweliadau wyneb yn wyneb) a newidiadau i rai cwestiynau o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gofynnwyd i oedolion am eu llesiant meddyliol a sgoriwyd y canlyniadau gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS). Mae sgôr uwch (58 i 70) yn awgrymu llesiant meddyliol uchel, ac mae sgorio 44 neu is yn awgrymu llesiant meddyliol isel. Mae sgôr rhwng 45 a 57 yn awgrymu bod gan yr unigolyn lesiant meddyliol canolig.

Y sgôr WEMWBS cyfartalog cyffredinol yn 2022-23 oedd 48, sy’n golygu bod llesiant meddyliol canolig gan ymatebwyr ar gyfartaledd. Mae hyn yn debyg i’r sgôr WEMWEBS gyfartalog yn 2021-22.

Wrth edrych ar y dadansoddiad o sgoriau ymatebwyr, roedd 32% o sgoriau oedolion yn cyfateb i lesiant meddyliol isel, 55% i lesiant meddyliol canolig a 13% i lesiant meddyliol uchel.

Ar gyfartaledd, mae gan oedolion iau lesiant meddyliol is (gyda’r rhai rhwng 16 a 24 oed yn cael sgôr WEMWBS o 47) na’r rhai sy’n 65 oed neu’n hŷn (sgôr WEMWBS o 51).

Roedd gan oedolion a ddisgrifiodd eu hiechyd cyffredinol fel gwael neu wael iawn sgôr WEMWBS gyfartalog o 39, a oedd yn is na phobl sydd â gwell iechyd cyffredinol.

Mae llesiant meddyliol oedolion sy’n dweud eu bod yn unig hefyd yn is ar gyfartaledd (sgôr WEMWBS 39) na’r rhai sydd weithiau’n unig (sgôr WEMWBS

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.


47) neu byth yn unig (sgôr WEMWBS 52).

Mae’r rhyngweithiadau hyn ag oedran ac iechyd yn dangos yr un duedd â blynyddoedd blaenorol, ond dylid ystyried y newid yn y modd hefyd wrth gymharu’r canlyniadau.

Roedd boddhad â bywyd ar gyfartaledd wedi bod yn cynyddu am bron i ddegawd ers 2011-12, gyda lefelau gorbryder yn gostwng rhywfaint ar gyfartaledd. Fodd bynnag, yn 2020-21, dirywiodd lefelau boddhad â bywyd a gorbryder i lefelau gwaeth na’r rhai a welwyd yn 2011-12, yn ôl pob tebyg oherwydd effeithiau’r pandemig. Yn 2021-22 roedd y sgoriau wedi gwella ar gyfer boddhad â bywyd a gorbryder, gan ddadwneud rhywfaint o’r dirywiad a welwyd yn 2020-21, ond nid yw wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 3.7: Prif fesurau llesiant personol (sgôr cyfartalog allan o 10), 2012 i 2022




Disgrifiad o Ffigur 3.7: Siart linell yn dangos sgoriau cynyddol ar gyfer boddhad â bywyd, teimlo’n werth chweil, teimlo’n hapus a sgoriau’n lleihau ar gyfer teimlo’n orbryderus rhwng 2012 a 2019, cyn gostwng yn 2020 i 2021. Ond gwelwyd sgoriau gwell yn 2022 o’i gymharu â 2021.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Iechyd meddwl a llesiant plant

Mae’r mesur sylfaenol a ddefnyddiwyd i gyfrifo’r dangosydd cenedlaethol ar gyfer llesiant meddyliol plant wedi newid o’i gymharu â diweddariadau blaenorol o adroddiad Llesiant Cymru. Mae'r dangosydd hwn bellach yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Edinburgh (SWEMWBS) gan ddefnyddio Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Mesurwyd y dangosydd yn flaenorol gan ddefnyddio’r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ). Mae’r newid hwn wedi ei wneud gan fod SWEMWBS, sy’n cyfleu hapusrwydd unigolyn ac i ba raddau mae unigolyn yn gweithredu’n llawn, yn cyd-fynd yn well â’r dangosydd cenedlaethol o’i gymharu â’r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau, sy’n offeryn sgrinio ar gyfer mesur cryfderau ac anawsterau seicolegol. Mae’r mesur newydd hefyd yn cyd-fynd yn well â’r mesur a ddefnyddir ar gyfer llesiant meddyliol oedolion (WEMWBS).

Wrth fesur llesiant meddyliol plant gan ddefnyddio’r mesur newydd (SWEMWBS) ar gyfer y dangosydd cenedlaethol, roedd y sgôr SWEMWBS gyfartalog ar gyfer pobl ifanc (11 i 16 oed) ychydig yn is ym mlwyddyn academaidd 2021/22 (23) o’i gymharu â 2019/20 a 2017/18 (24 yr un), gan ddangos gostyngiad bach mewn llesiant meddyliol. Mae sgôr gyffredinol uwch ar gyfer SWEMWBS yn arwydd o lesiant meddyliol mwy cadarnhaol. Mae sgoriau o’r SWEMWBS yn seiliedig ar set fyrrach o gwestiynau i’r WEMWBS oedolion ac felly nid yw’r sgoriau’n cyfateb yn uniongyrchol.

Roedd y dadansoddiadau yn ôl rhywedd yn dangos mai’r rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn fachgen nac yn ferch oedd â’r llesiant meddyliol isaf, a merched yn adrodd llesiant meddyliol is na bechgyn. Roedd sgoriau llesiant meddyliol hefyd yn gostwng yn ôl oedran ac ar eu hisaf yn y grŵp cyfoeth teuluoedd isel.

Roedd 78% o bobl ifanc yn dweud bod eu boddhad â’u bywyd yn 6 neu’n uwch ar yr Ysgol Cantril (lle mae’r sgoriau’n amrywio o 0 i 10, ac mae sgôr o 6 neu fwy yn cael ei ddiffinio fel bodlonrwydd uchel â’u bywyd) ym mlwyddyn academaidd 2021/22, gan ddangos tuedd sy’n gostwng o flwyddyn academaidd 2017-18 pan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.


oedd 85% o bobl ifanc yn dweud bod eu boddhad â bywyd yn 6 neu'n uwch.

Roedd bechgyn (85%) yn fwy tebygol na merched (74%) o gael boddhad â bywyd, ac roedd boddhad â bywyd yn sylweddol is ymysg pobl ifanc nad oeddent yn ystyried eu hunain yn fachgen nac yn ferch (43%).

Gostyngodd bodlonrwydd ar fywyd hefyd yn ôl oedran ac roedd ar ei isaf yn y grŵp cyfoeth teuluoedd isel.

Mae rhagor o ddata am ymddygiad iechyd ymhlith plant oed ysgol ar gael o **Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion**.

## Ffigur 3.8: Canran y bobl ifanc 11 i 16 oed sy'n fodlon ar eu bywyd, 2017/18 (blwyddyn academaidd) i 2021/22




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 3.8: Siart linell yn dangos gostyngiad ym moddhad â bywyd pobl ifanc 11-16 oed rhwng blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2021/22.

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

# Tai peryglus

Mae amrywiaeth o ffactorau'n bwysig i iechyd pawb. Er enghraifft, mae cyflogaeth, llygredd aer a thai i gyd yn effeithio ar ganlyniadau iechyd cyffredinol.

Mae cyflwr tai yng Nghymru wedi gwella dros y deng mlynedd diwethaf, gan leihau'r perygl posibl i iechyd y preswylwyr.

Dangosodd yr Arolwg Cyflwr Tai Cymru diweddaraf nad oedd y peryglon mwyaf difrifol (categori 1) i'w gweld mewn 82% o'r anheddau yn 2017-18, o'i gymharu â 71% yn 2008. Gwelwyd gwelliannau ym mhob deiliadaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn casglu data ar asesiadau'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai sy'n cael ei gynnal gan awdurdodau lleol. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 71% o asesiadau HHSRS awdurdodau lleol yn 2021-22 yn rhydd o beryglon categori 1. Fel arfer, cynhelir asesiadau HHSRS awdurdodau lleol yn y sector rhentu preifat a dim ond o dan amgylchiadau penodol (er enghraifft, pan dderbynnir cwyn am annedd). Am y rheswm hwn, nid oes modd cymharu data ar asesiadau HHSRS awdurdodau lleol yn uniongyrchol â chanlyniadau WHCS.

# Darllen pellach

**Disgwyliad iechyd yng Nghymru gyda phroffil bwlch anghydraddoldeb (Iechyd Cyhoeddus Cymru)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae adroddiadau Llesiant blaenorol Cymru wedi cynnwys dadansoddiad pellach ar:

- Goroesi canser
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd broblemus

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ystod eang o bynciau, ac felly dim ond mesurau cynnydd lefel uchel y mae modd eu hystyried yn yr adroddiad hwn. Mae dadansoddiad manylach o lawer o'r pynciau hyn ar gael drwy'r amrywiaeth o ddatganiadau ystadegol a gyhoeddir gan **Lywodraeth Cymru**, y **Swyddfa Ystadegau Gwladol** neu gynhyrchwyr ystadegol eraill.

## Ffynonellau data

**Marwolaethau yn gysylltiedig ag alcohol yn benodol yn y Deyrnas Unedig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Amcangyfrifon llesiant personol blynyddol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Marwolaethau y mae modd eu hosgoi ym Mhrydain Fawr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Data bwydo ar y fron**

**Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn ôl ardal leol ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Marwolaethau sydd wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Ystadegau cryno ar farwolaethau sydd wedi'u cofrestru (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Marwolaethau cysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru a Lloegr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Disgwyliad iechyd yng Nghymru gyda bwlch anghydraddoldeb (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Disgwyliad oes ar gyfer ardaloedd lleol yn y Deyrnas Unedig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Disgwyliad Oes a Marwolaethau yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Ystadegau mamolaeth a genedigaethau

Dadansoddiad misol o farwolaethau, Cymru a Lloegr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol o ran marwoldeb y gellid bod wedi ei osgoi yng Nghymru (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr, y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion

Hunanladdiadau yng Nghymru a Lloegr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Arolwg Cyflwr Tai Cymru (asesiad o elfennau o'r Safon Ansawdd Tai Cymru)

Trwyddedau a pheryglon sy'n ymwneud â thai

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cymru sy’n fwy cyfartal

## Y nod i Gymru sy’n fwy cyfartal

Awdur: Scott Clifford

Cymru sy'n fwy cyfartal: Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Nod y bennod hon yw dwyn ynghyd ddadansoddiadau cydraddoldeb ar gyfer y dangosyddion lle mae’r rhain ar gael. Fodd bynnag, mae data cydraddoldeb drwy gydol yr adroddiad hwn ar sut mae Cymru’n symud ymlaen i fod yn Gymru fwy cyfartal. Ochr yn ochr â phrif adroddiad eleni, mae adroddiad atodol hefyd sy’n canolbwyntio ar ethnigrwydd. Am y rheswm hwnnw, bydd y rhan fwyaf o ddadansoddiadau dangosyddion yn ôl ethnigrwydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad atodol hwnnw yn hytrach na’r bennod hon.

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol** (ARWAP) sy’n cynnwys canllawiau ar iaith Wrth-hiliol. Mae’r bennod hon yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data sy’n defnyddio categorïau gwahanol o grwpiau ethnig ac, o’r herwydd, mae’n bosibl na fydd o reidrwydd yn cyd-fynd â chanllawiau ARWAP. Fodd bynnag, lle bo’n bosibl, rydym wedi defnyddio iaith yn y bennod hon sy’n cyd-fynd ag iaith Wrth-hiliol.

Yn 2002, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y model cymdeithasol o anabledd. Mae’r model hwn yn nodi ffordd wahanol o edrych ar anabledd. Yn hytrach na diffinio pobl fel pobl anabl yn ôl eu nam (hynny yw, y model meddygol ar gyfer anabledd), ystyrir bod pobl sydd â namau yn anabl oherwydd rhwystrau corfforol, agweddol a sefydliadol sy’n cael eu creu gan gymdeithas.

Mae’r data a adroddir yma yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau sy’n adlewyrchu’r data diweddaraf mwyaf dibynadwy sydd ar gael. Mae llawer o’r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ffynonellau hyn yn defnyddio diffiniadau o anabledd, sy’n seiliedig ar y model meddygol yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn y Ddeddf Cydraddoldeb mae anabledd yn golygu cyflwr corfforol neu feddyliol sy’n cael effaith sylweddol a hirdymor ar eich gallu i wneud gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, lle bo’n bosibl, rydym wedi defnyddio iaith yn y bennod hon sy’n cyd-fynd â’r model cymdeithasol o anabledd.

## Beth ydym wedi ei ddysgu o’r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

### Oedran

- Mae plant yn parhau i fod y grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol. Mae’r ffigurau diweddaraf yn dangos bod hyn yn wir am 28% o blant yng Nghymru o’i gymharu â 18% o bensiynwyr.
- Mae amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2021, yn dangos gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy’n cymryd rhan mewn addysg a’r farchnad lafur sy’n cael ei sbarduno i raddau helaeth gan gynnydd yn y gyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed. Mae’n rhy gynnar i asesu effaith y pandemig ar y duedd hon.

### Anabledd

- Mae’r gyfradd cyflogaeth ymysg oedolion anabl (16 i 64 oed) yn dal yn is nag ymysg y rhai nad ydynt yn anabl. Roedd 49.1% o oedolion anabl (16 i 64 oed) yn cael eu cyflogi yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023.
- Yn 2022-23, roedd un o bob pedwar (25%) o bobl anabl yn byw mewn aelwyd mewn amddifadedd materol. Mae hyn fwy na dwywaith yn uwch nag ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl (11%).
- Roedd y gwahaniaeth cyflog ar sail anabledd yng Nghymru yn 9.7% yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2022, i fyny o 11.4% yn 2021. Mae hyn yn golygu bod pobl anabl yng Nghymru yn ennill 9.7% yn llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl.
- Cofnodwyd 864 o droseddau casineb gan yr heddlu yn 2021-22 lle ystyriwyd bod rhywun anabl yn ffactor cymhellol, gan gynyddu 71% o 504 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y rhain yn cynrychioli 14% o'r holl droseddau casineb a gofnodwyd.

## Ethnigrwydd

- Mae plant o rai grwpiau ethnig yn parhau i gyflawni'n well ar gyfartaledd yn yr ysgol o'u cymharu ag eraill, gyda chyfrannau uwch o ddisgyblion TGAU Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael graddau A* - A ac A* - C yn ystod Haf 2022 na disgyblion Gwyn Prydeinig.
- Roedd cynnydd o 27% yn nifer y troseddau casineb hiliol a gofnodwyd rhwng 2020-21 a 2021-22, er bod cyfran y troseddau casineb gyda hil fel ffactor sy'n cymell wedi gostwng ychydig.

## Rhywedd

- Mae merched yn parhau i gael deilliannau addysgol gwell ar lefel TGAU. Yn ystod yr haf 2022, dyfarnwyd mwy o raddau A* - C i ferched na bechgyn. Roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng graddau ar raddfa A* ac A: dyfarnwyd 6.5 a 4.5 pwynt canran yn fwy i ferched na bechgyn, yn y drefn honno. Ehangodd y gwahaniaeth o ran graddau A* yn 2022.
- Ym mis Ebrill 2022, 6.1% oedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (amser llawn), cynnydd o 1.7 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Hunaniaeth rhywedd

- Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod dros 10,000 o bobl (0.4% o'r boblogaeth) wedi nodi bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gofrestrwyd adeg eu geni.

## Statws priodasol

- Mae'n dal yn wir bod pobl sy'n briod yn llai tebygol o fod mewn amddifadedd materol na'r bobl sydd wedi gwahanu neu ysgaru.
- Yn 2020, gostyngodd y cyfraddau priodi yng Nghymru a Lloegr i'w lefel isaf ers 1862. Er bod cyfraddau priodi wedi bod yn gostwng ers 2016, mae'r gostyngiad mawr rhwng 2019 a 2020 yn debygol o fod oherwydd cyfyngiadau'r pandemig a oedd mewn grym yn ystod rhannau o'r flwyddyn.

## Crefydd

- Dengys data Cyfrifiad 2021, am y tro cyntaf yng Nghymru, fod cyfran y boblogaeth a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw grefydd (46.5%) yn uwch na'r gyfran a nododd eu bod yn Gristnogion (43.6%). Nodwyd bod 2.2% o'r boblogaeth yn ystyried eu hunain yn Foslemiaid a 1.4% â chrefydd arall (ar wahân i Gristnogaeth neu Islam).
- Roedd nifer y troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu yr adroddwyd eu bod wedi cael eu cymell gan grefydd wedi cynyddu 51% rhwng 2020-21 a 2021-22.

## Cyfeiriadedd rhywiol

- Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod 3.0% o boblogaeth Cymru yn ystyried eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd, yn ddeurywiol neu'n rhywioldeb arall (heblaw am heterorywiol).
- Roedd 151 o briodasau o'r un rhyw yn 2020, ac mae partneriaethau sifil o'r un rhyw wedi gostwng yn sylweddol i tua 30 y flwyddyn.
- Mae canlyniadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru sydd ar gael (2022-23) yn dangos bod pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol tua dwywaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig nag eraill.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Yn 2021-22, cafodd 1,329 o droseddau casineb eu cofnodi gan yr heddlu lle’r oedd cyfeiriadedd rhywiol yn cael ei ystyried yn ffactor cymhellol, i fyny 50% o 884 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfran y troseddau casineb gyda chyfeiriadedd rhywiol fel ffactor cymhellol wedi cynyddu ychydig.

### Anfantais economaidd-gymdeithasol

- Rhwng 2019-20 a 2021-22, roedd ychydig mwy nag un o bob pump o’r boblogaeth (21%%) yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar ôl talu am gostau eu tai.
- Yn 2022-23, roedd 16% o oedolion yn cael eu hystyried mewn amddifadedd materol (hynny yw, yn methu fforddio pethau penodol fel cadw’r tŷ’n ddigon cynnes, cynilo’n rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn). Roedd dros hanner (56%) y rhieni sengl mewn amddifadedd materol yn 2022-23 a dywedodd 3% o aelwydydd eu bod wedi cael bwyd gan fanc bwyd yn ystod 2022-23.
- Ar gyfer y blynyddoedd ariannol diweddaraf y mae data ar gael ar eu cyfer (2019-20 i 2021-2022) yn dangos bod 18% o aelwydydd yn gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai.

## Beth yw’r cynnydd hirdymor tuag at y nod?

Ymddengys mai prin fu’r cynnydd tuag at gyflawni’r nod, gyda llawer o ddangosyddion Cymru sy’n Fwy Cyfartal a data cydraddoldeb cysylltiedig yn dangos fawr ddim arwydd o welliant yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Mae’r argyfwng costau byw diweddar ac effeithiau hirdymor y pandemig yn debygol o fod wedi gwaethygu anghydraddoldeb i bobl a oedd eisoes dan anfantais. Fodd bynnag, efallai na fydd effeithiau parhaus y digwyddiadau hyn wedi'u hadlewyrchu'n llawn eto mewn tueddiadau data diweddar.

Mae’r dangosydd cenedlaethol ar dlodi incwm cymharol yn dangos bod canran y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bobl sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru ers dros 17 mlynedd.

Mae’r rheini sydd wedi ysgaru, gwahanu neu erioed wedi priodi yn dal i fod yn fwy tebygol o gael trafferthion ariannol, gyda theuluoedd un rhiant yn fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol.

Mae bwlch o hyd rhwng deilliannau addysgol plant yn yr ysgol sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gyda’r bwlch ar lefel TGAU yn ehangu yn y 6 blynedd diwethaf.

Mae carreg filltir genedlaethol i ddileu’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050. Ar y cyfan, mae’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi bod yn lleihau. Mae'r data diweddaraf hefyd yn dangos bod y bwlch cyflog ethnigrwydd wedi cynyddu ond mae'r amcangyfrifon yn anwadal. Ar gyfartaledd, mae gweithwyr ethnig leiafrifol yn ennill oddeutu 16.8% yr awr yn llai na gweithwyr Gwyn Prydeinig. Mae’n ymddangos bod y bwlch cyflog anabledd, a gododd rhwng 2014 a 2019, yn lleihau erbyn hyn.

Yn 2022-23, roedd sgoriau boddhad â bywyd yn parhau i fod yn debyg i’r lefelau cyn y pandemig ar gyfer pob grŵp oedran ac eithrio’r rhai rhwng 16 a 24 oed a rhwng 25 a 44 oed. Mae pobl 16 i 24 oed yn dal yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn unig na phobl 65 oed a hŷn.

Ar wahân i bobl ifanc, mae rhai grwpiau eraill sy’n fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo’n unig. Mae’r rhain yn cynnwys pobl anabl sydd â nam hirdymor cyfyngol, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, a phobl sy’n lesbiaid, yn hoyw neu’n ddeurywiol.

Mae plant o rai cymunedau ethnig leiafrifol yn parhau i gyflawni’n well ar gyfartaledd yn yr ysgol o’u cymharu ag eraill, gyda chyfrannau uwch o ddisgyblion TGAU Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn cael graddau A* - A ac A* - C yn ystod yr Haf 2022 na disgyblion Gwyn Prydeinig.

Mae hil yn dal i gael ei hystyried yn ffactor cymhellol mewn bron i ddwy ran o dair o'r holl droseddau casineb a gofnodwyd. Roedd cynnydd mewn troseddau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

casineb hil wedi'u cofnodi yn 2021-22, ond roedd y cynnydd hwn yn is na'r rhai a welwyd ar gyfer y ffactorau cymhellol eraill.

Mae tuedd tymor hwy i lai o bobl nodi eu crefydd fel Cristion ac i fwy o bobl ddweud nad oes ganddyn nhw grefydd. Y rhain yw'r categorïau mwyaf o hyd tra bo cyfran y bobl sy'n ystyried eu hunain yn Foslemiaid wedi aros rhwng 1% a 2%.

Gostyngodd nifer y priodasau o'r un rhyw i 151 yn 2020 (o 397 ymlaen yn 2019). Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn yn debygol o fod oherwydd cyfyngiadau'r pandemig a oedd ar waith ar gyfer rhannau o'r flwyddyn.

Mae troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu lle'r oedd cyfeiriadedd rhywiol yn cael ei ystyried yn ffactor cymhellol wedi parhau i gynyddu, ac erbyn hyn maent yn cyfrif am dros un rhan o bump o'r holl droseddau casineb a gofnodwyd.

Mae cyfraddau cyflogaeth pobl anabl yn aros yn sefydlog ar ychydig o dan 50%. Mae'r gyfradd cyflogaeth ymysg oedolion anabl (16 i 64 oed) yn dal yn is nag ymysg y rhai nad ydynt yn anabl.

Mae aelwydydd sy'n cynnwys rhywun anabl yn dal yn fwy tebygol o gael trafferthion ariannol.

At ei gilydd, mae deilliannau addysgol plant ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol wedi aros yn gyson.

# Anfantais economaidd-gymdeithasol

Mae cyfraddau tlodi cyffredinol wedi aros yn gymharol sefydlog yng Nghymru ers dros 17 mlynedd. Bydd effaith yr argyfwng costau byw wedi effeithio'n benodol ar bobl ar incwm isel. Fodd bynnag, efallai nad yw'r effaith hon wedi'i hadlewyrchu'n llawn eto yn y data diweddaraf sydd ar gael.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rhwng 2019-20 a 2021-22, roedd ychydig mwy nag un o bob pump o’r boblogaeth (21%%) yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar ôl talu am gostau eu tai.

Ym mis Rhagfyr 2021, gosodwyd carreg filltir genedlaethol i leihau’r bwlch tlodi rhwng pobl yng Nghymru sydd â rhai nodweddion allweddol a gwarchodedig (sy’n golygu eu bod fwyaf tebygol o fod mewn tlodi) a’r rhai heb y nodweddion hynny erbyn 2035. Mae amcangyfrifon tlodi incwm ar gyfer pobl yng Nghymru sydd â nodweddion gwarchodedig ar gael yn nes ymlaen yn y bennod hon.

Yn 2022-23, roedd 16% o oedolion yn cael eu hystyried mewn amddifadedd materol (hynny yw, yn methu fforddio pethau penodol fel cadw’r tŷ’n ddigon cynnes, cynilo’n rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn). Mae aelwydydd un rhiant yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na mathau eraill o aelwydydd. Roedd dros hanner (56%) y rhieni sengl mewn amddifadedd materol yn 2022-23.

Ar draws pob deiliadaeth, ar gyfer y blynyddoedd ariannol diweddaraf y mae data Arolwg o Adnoddau Teulu ar gael ar eu cyfer (2019-20 i 2021-22), mae 18% o aelwydydd yn gwario 30% neu fwy o’u hincwm ar gostau tai. Mae’r ganran hon wedi bod yn weddol gyson dros y cyfnod 2011-12 i 2020-21, ond mae’n amrywio yn ôl deiliadaeth tai. Mae dadansoddiad pellach o'r dangosydd hwn i'w weld ym mhennod Cymru Lewyrchus o'r adroddiad hwn. Mae costau defnyddio ynni domestig fel nwy a thrydan wedi’u heithrio o’r costau tai hyn gan nad yw data ar gostau o’r fath yn cael eu casglu yn y Gwasanaethau Tân ac Achub, ond mae’r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer tlodi tanwydd yn cael eu darparu isod.

Yn 2022-23, dywedodd 3% o aelwydydd eu bod wedi cael bwyd gan fanc bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd diffyg arian, gyda 3% arall yn dweud nad oeddent wedi cael bwyd ond eu bod wedi dymuno cael hynny.


Amcangyfrifir bod 14% o aelwydydd Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd ym mis Hydref 2021. Er gwaethaf ymyriadau i liniaru’r effaith, gallai hyd at 45% (614,000) o aelwydydd fod mewn tlodi tanwydd yn dilyn y cynnydd yn y cap ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

brisiau ym mis Ebrill 2022.

Ar lefel TGAU, mae bwlch o hyd rhwng deilliannau addysgol plant yn yr ysgol sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r rhai nad ydynt yn gymwys. Mae’r bwlch yn y niferoedd sy’n cael graddau A*- A ar lefel TGAU wedi ehangu yn ystod y saith mlynedd diwethaf, ac mae’r bwlch yn niferoedd yr ymgeiswyr sy'n cael graddau A*- C yn weddol sefydlog.

## Ffigur 4.1: Bwlch rhwng canrannau’r disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim sy’n cael graddau A*-A, A*-C ac A*-G mewn TGAU, 2015/16 i 2021/22 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 4.1: Siart linell sy’n dangos y bwlch rhwng canrannau’r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

myfyrwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy’n cyflawni A*-A, A*-C, ac A*-G mewn TGAU o 2015/16 i 2020/21. Rhwng 2020/21 a 2021/22, cynyddodd y bwlch ar gyfer yr ystodau graddau A*-C ac A*-G ond gostyngodd ar gyfer A*-A.

Ffynhonnell: Canlyniadau Arholiadau, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Rhwng y llinellau toredig sy’n dangos pryd y dyfarnwyd cymwysterau drwy ddefnyddio graddau a aseswyd neu a bennwyd gan ganolfan.

# Rhywedd

Mae deilliannau addysgol merched yn parhau i fod yn well ar lefel TGAU ac mae merched yn fwy tebygol o barhau mewn addysg amser llawn y tu hwnt i 16 oed. Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu yng Nghymru yn 2022, ac mae cyfraddau cyflogaeth yn dal yn is i fenywod na dynion.

Mae disgwyliad oes yn dal yn hirach i fenywod nag i ddynion ond mae cyfran y bywyd a dreulir mewn iechyd da yn uwch i ddynion. I gael gwybodaeth fanylach am ddisgwyliad oes yn ôl rhywedd, gweler y bennod ar Gymru iachach.


Yn 2022-23, roedd llesiant meddyliol (fel sy’n cael ei fesur gan Raddfa Llesiant Meddyliol Warwick Edinburgh ar gyfer oedolion) fymryn yn uwch i ddynion na menywod, gyda dynion yn cael sgôr gymedrig o 48.4 a menywod yn cael sgôr gymedrig o 48.1. Fodd bynnag, mae cyfraddau hunanladdiad yn parhau i fod fwy na thair gwaith yn uwch ar gyfer dynion na menywod.

Mae merched yn parhau i gael deilliannau addysgol gwell ar lefel TGAU. Yn ystod yr haf 2022, dyfarnwyd mwy o raddau A* - C i ferched na bechgyn. Roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng graddau ar raddfa A* ac A: dyfarnwyd 4.4 a 4.0 pwynt canran yn fwy i ferched na bechgyn, yn y drefn honno.

## Ffigur 4.2: Y bwlch rhwng bechgyn a merched sy’n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## cyflawni A*-A, A*-C ac A*-G ar lefel TGAU, 2015/16 i 2021/22 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 4.2: Siart llinell sy'n dangos y bwlch rhwng canrannau'r merched a'r bechgyn sy'n cyflawni A*-A, A*-C, ac A*-G mewn TGAU. Cyrhaeddodd y bwlch A*-A uchafbwynt yn 2020/21 ac yna gostyngodd rhwng 2020/21 a 2021/22. Fe wnaeth y bwlch rhwng A*-C leihau rhwng 2020/21 a 2021/22. Cynyddodd y bwlch rhwng A*-G ond erys yn fach.

Ffynhonnell: Canlyniadau Arholiadau, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Rhwng y llinellau toredig sy'n dangos pryd y dyfarnwyd cymwysterau drwy ddefnyddio graddau a aseswyd neu a bennwyd gan ganolfan.

Mae cyfran uwch o ferched 16 i 18 oed na bechgyn yn aros mewn addysg amser llawn. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer y rhai rhwng 19 a 24 oed.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

O ran y boblogaeth oedran gweithio, mae menywod yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau lefel 4 neu uwch, tra bod cyfran uwch o ddynion mewn grwpiau oedran hyd at a chan gynnwys pobl ifanc 35 i 49 oed heb unrhyw gymwysterau. Fodd bynnag, mae cyfran uwch o fenywod yn y grwpiau oedran 50 i 59 a 60 i 64 oed heb unrhyw gymwysterau.

Mae cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn is ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion (70.6% a 75.4% yn y drefn honno yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023). Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd (heb gynnwys myfyrwyr) yn uwch ar gyfer menywod (24.7%) na dynion (17.8%) dros y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth hwn yn debygol o gael ei sbarduno gan gyfrifoldebau gofalu, sydd ymhlith y rhesymau posibl dros anweithgarwch economaidd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 4.3: Cyfradd cyflogaeth (canran y boblogaeth 16 i 64 oed) yng Nghymru yn ôl rhyw a blwyddyn, 2005 i 2023 (cyfraddau am y flwyddyn yn dod i ben ym mis Mawrth)




Disgrifiad o Ffigur 4.3: Siart linell yn dangos cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed yn ôl rhyw rhwng 2005 a 2023. Lleihaodd y bwlch yn y gyfradd gyflogaeth yn 2023 wrth i'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer dynion leihau 1.4 pwynt canran i 75.4%, tra bod y gyfradd gyflogaeth ar gyfer menywod wedi cynyddu ychydig i 70.6%.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ar sail enillion canolrifol amser llawn yr


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

awr (heb gynnwys goramser), yn 6.1% yn 2022, gan gynyddu ychydig ers y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, ar gyfer gweithwyr rhan-amser yng Nghymru, roedd menywod yn cael 3.5% yn fwy na dynion ar gyfartaledd (cynnydd o 1.7 pwynt canran o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol).

Wrth ystyried gweithwyr amser llawn a rhan-amser, mae’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dal yn sylweddol uwch ar 11.4% yn 2022. Mae hyn yn uwch nag ar gyfer gweithwyr amser llawn a gweithwyr rhan-amser, oherwydd mae menywod yn llenwi mwy o swyddi rhan-amser, sydd, o’u cymharu â swyddi amser llawn, â thâl canolrifol is yr awr. O blith 11 o wledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig lle mae dynion yn ennill mwy na menywod (gweithwyr amser llawn), Cymru sydd â’r trydydd bwlch cyflog lleiaf.

Y Cyflog Byw Gwirioneddol yw’r unig gyfradd cyflog yn y Deyrnas Unedig sy’n seiliedig ar gostau byw. Yn 2022, mae cyfran y menywod sy’n ennill cyflog byw gwirioneddol (63.7%) yn llawer is nag ar gyfer dynion (71.6%), sydd unwaith eto’n adlewyrchu’n bennaf y ffaith bod menywod yn fwy tebygol o weithio’n rhan-amser a bod swyddi rhan-amser yn tueddu i fod â chyflogau is.

Yn dilyn cynnydd rhwng 2016 a 2020, mae canran y dynion mewn cyflogaeth sy’n ennill cyflog byw gwirioneddol wedi gostwng yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn ôl i lefel debyg i 2016 (71.4%). Fodd bynnag, nid yw’r ganran gymharol ar gyfer menywod sydd mewn cyflogaeth wedi gweld gostyngiad cyfatebol i lefelau 2016 (59.5%)

Yn 2022-23, roedd canran uwch o fenywod (19%) o’i gymharu â dynion (12%) yn cael eu hystyried yn rhai sydd mewn amddifadedd materol.

## Oedran

Rydym yn tueddu i fod yn fwy bodlon ar fywyd yn y grwpiau oedran hŷn. Mae tlodi incwm cymharol yn uwch yn y boblogaeth sy’n gweithio nag mewn aelwydydd pensiynwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae canlyniadau cychwynnol Cyfrifiad 2021 yn dangos bod y duedd i'r boblogaeth heneiddio wedi parhau, gyda mwy o bobl nag erioed yn y grwpiau oedran hŷn yng Nghymru. Roedd cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed neu'n hŷn ym mis Mawrth 2021 yn 21.3% (i fyny o 18.4% yn 2011). Mae maint y boblogaeth 90 oed neu hŷn yng Nghymru (29,700, 1.0%) wedi cynyddu ers 2011, pan oedd 25,200 (0.8%) yn 90 oed neu'n hŷn.


Mae llesiant goddrychol yn tueddu i fod yn uwch yn y grwpiau oedran hŷn. Yn 2022-23, mae'r sgôr boddhad â bywyd cyfartalog uchaf ar gyfer y grŵp oedran 75 oed a hŷn (8.0) ac ar gyfer y grŵp 65 i 74 oed (7.9), ac mae ar ei isaf yn y grwpiau oedran 16 i 24 oed a 25 i 44 oed (7.5). Mae boddhad â bywyd pobl rhwng 16 a 24 oed a rhwng 25 a 44 oed yn dal yn is yn 2022-23 o'i gymharu â chyn y pandemig (2019-20), mae sgoriau boddhad â bywyd grwpiau oedran eraill wedi dychwelyd yn fras i lefelau cyn y pandemig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 4.4: Boddhad â bywyd yn ôl grŵp oedran, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 4.4: Siart bar yn dangos boddhad â bywyd cymedrig oes yn ôl grŵp oedran. Mae gan grwpiau oedran gweithio (16 i 24, 25 i 44, 45 i 64) sgoriau boddhad cymedrig is na'r rheini sy'n 65 oed a hŷn. Y grŵp oedran 75 oed a hŷn sydd â'r sgôr boddhad cymedrig uchaf (8.1).

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Plant yw'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod hyn yn wir am 28% o blant yng Nghymru o'i gymharu â 18% o bensiynwyr.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran uwch o'r boblogaeth o oedran gweithio wedi bod mewn tlodi cymharol nag aelwydydd pensiynwyr.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cafodd carreg filltir genedlaethol ar gyfranogiad pobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg a'r farchnad lafur ei gosod yn 2021. Mae amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2021 yn dangos gostyngiad bach o ran cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Ethnigrwydd

Ochr yn ochr â phrif adroddiad eleni, ceir adroddiad atodol sy'n canolbwyntio ar ethnigrwydd. Am y rheswm hwnnw, bydd y rhan fwyaf o ddadansoddiadau dangosyddion yn ôl ethnigrwydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw yn hytrach na'r bennod hon.

Mae plant o rai grwpiau ethnig (er enghraifft, Asiaidd a phlant â chefndir ethnig cymysg) yn tueddu i gyflawni'n well ar gyfartaledd yn yr ysgol o'i gymharu ag eraill. Fodd bynnag, mae cyfraddau cyflogaeth a chyflog cyfartalog yn dal yn is ar gyfer grwpiau o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac mae pobl o'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol.

Nododd 93.8% o boblogaeth Cymru (2.9 miliwn o drigolion arferol) eu hunain yn y categori grŵp ethnig lefel uchel "Gwyn" ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021. Mae hyn yn cymharu â 95.6% yn 2011.

Yr ail gategori lefel uchel mwyaf yng Nghymru yn 2021 oedd "Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Brydeinig", gyda 2.9% o'r boblogaeth (89,000 o bobl) yn nodi yn y categori hwn (o'i gymharu â 2.3% yn 2011).


Roedd 1.6% o'r boblogaeth (49,000 o bobl) yng Nghymru wedi nodi eu hunain yn y categori lefel uchel "Grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig", nododd 0.9% o'r boblogaeth (28,000) eu hunain yn y categori lefel uchel "Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd" a nododd 0.9% o'r boblogaeth (26,000 o bobl) eu hunain yn y categori lefel uchel "Grŵp ethnig arall" (o'i gymharu â 1.0%, 0.6% a 0.5% yn y drefn honno yn 2011).

Dengys canlyniadau TGAU ar gyfer 2021/22 fod 32.6% o ddisgyblion Du,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi cael graddau A*-A o'i gymharu â 25.1% o ddisgyblion Gwyn. Mae'r bwlch hwn wedi bod yn ehangu ers 2015/16 (o 4.5 pwynt canran yn 2015/16 i 7.5 pwynt canran yn 2021/22). Mae'r bwlch yn y disgyblion sy'n cyflawni graddau A*-C hefyd wedi ehangu (o 0.9 pwynt canran yn 2015/16 i 4.5 pwynt canran yn 2021/22).

## Ffigur 4.5: Y bwlch rhwng canran y disgyblion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a'r disgyblion Gwyn sy'n cyflawni A*-A, A*-C ac A*-G ar lefel TGAU, 2015/16 i 2021/22 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 4.5: Siart llinell yn dangos y bwlch rhwng canrannau o fyfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a myfyrwyr Gwyn a enillodd A*-A, A*-C, ac A*-G yn TGAU yn 2021/22. Cynyddodd y bwlch ym mhob un o'r tair ystod graddau rhwng 2020/21 a 2021/22. Mae'r gwahaniaeth rhwng A*-G yn dal yn fach iawn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Canlyniadau Arholiadau, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Rhwng y llinellau toredig sy’n dangos pryd y dyfarnwyd cymwysterau drwy ddefnyddio graddau a aseswyd neu a bennwyd gan ganolfan.

Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos mai pobl yn y grŵp ethnig lefel uchel “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Brydeinig” oedd fwyaf tebygol o feddu ar gymhwyster Lefel 4 neu uwch (43.9%) a’r rheini yn y grŵp ethnig “Gwyn” lefel uchel oedd y lleiaf tebygol (31.0%).

Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn y categori “Gwyn: Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig” oedd y mwyaf tebygol o beidio â meddu ar unrhyw gymwysterau o blith yr holl grwpiau ethnig (58.8%), ac yna “Gwyn: Roma” (31.8%) ac “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig: Bangladeshaidd” (30.9%).

Mae’r cyfraddau cyflogaeth (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023) ymysg poblogaeth Cymru rhwng 16 a 64 oed ychydig yn uwch ymysg unigolion o gefndir ethnig Gwyn (73.1%), nag unigolion o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (71.4%)

Y gwahaniaeth cyflog ar sail ethnigrwydd yng Nghymru oedd £2.23 (neu 16.8% yn 2022. Mae hyn yn golygu bod gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ennill £2.23 yn llai yr awr ar gyfartaledd na gweithwyr Gwyn. Mae hyn yn cymharu â gwahaniaeth cyflog ar sail ethnigrwydd o £0.85 (neu 6.9%) yn 2021. Fodd bynnag, mae anwadalrwydd arbennig o uchel yn y data gwahaniaethau cyflog ar sail ethnigrwydd yng Nghymru ac felly dylid ystyried newidiadau byrdymor ochr yn ochr â thueddiadau hirdymor lle bo hynny’n bosibl.


Mae grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o ddioddef tlodi incwm cymharol. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-18 a 2021-22 roedd 40% o debygolrwydd y byddai pobl o aelwydydd lle mae’r penteulu yn dod o grŵp ethnig leiafrifol yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae hyn yn cymharu â thebygolrwydd o 22% ar gyfer aelwydydd lle mae’r penteulu yn dod o grŵp ethnig Gwyn.

Roedd hil yn ffactor cymhellol mewn 62% o’r holl droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2021-22, cyfran ychydig yn llai na 2020-21. Fodd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bynnag, cynyddodd nifer y troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu 27% yn 2021-22 o'i gymharu â 2020-21.

## Ffigur 4.6: Troseddau casineb yng Nghymru yn ôl ffactor sy'n cymell, 2012-13 i 2021-22 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 4.6: Siart linell yn dangos nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru rhwng 2012-13 a 2021-22 drwy ffactor cymhellol. Roedd troseddau casineb a gofnodwyd wedi cynyddu ar gyfer pob cymhelliant yn 2021-22 o'i gymharu â 2020-21. Hil yw'r prif ffactor cymhellol o hyd, gan gyfrif am oddeutu dwy ran o dair o'r troseddau a gofnodwyd.

Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref

[Nodyn 1] Gall mwy nag un ffactor cymhellol fod yn gysylltiedig â throsedd. Gan hynny, mae swm y categorïau troseddau casineb yn uwch na'r 'holl droseddau'.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sylwch fod data o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer 2018 i 2020 yn awgrymu mai dim ond tua hanner yr holl achosion o droseddau casineb sy'n dod i sylw'r heddlu yng Nghymru a Lloegr.

## Crefydd

Ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021, dywedodd 1.4 miliwn o drigolion arferol yng Nghymru nad oedd ganddyn grefydd ("Dim crefydd") (46.5% o'r boblogaeth, wedi codi o 32.1% yn 2011). Am y tro cyntaf, dywedodd mwy o bobl "Dim crefydd" nag unrhyw gysylltiad crefyddol unigol.

Disgrifiodd 43.6% o'r preswylwyr arferol eu crefydd fel "Cristion" yn 2021. Roedd y tuedd crefyddol hwn wedi cael ei ddewis yn flaenorol gan dros hanner y preswylwyr yng Nghymru (57.6%) yng Nghyfrifiad 2011.

Y tuedd crefyddol mwyaf nesaf yng Nghymru oedd "Mwslim", gyda 2.2% o'r boblogaeth (67,000 o breswylwyr arferol) yn nodi eu bod yn Fwslim yn 2021. Roedd hyn yn gynnydd o 1.5% yn 2011.

Nid oedd fawr o newid ers 2011 yng nghyfran y boblogaeth a oedd yn uniaethu â grwpiau crefyddol eraill a oedd wedi'u cynnwys yn y blychau ticio ar ffurflen y Cyfrifiad.

Mae cyfran uwch o fenywod na dynion yn dweud eu bod yn arddel crefydd (53.9% o'i gymharu â 46.6%). Roedd cyfran y bobl sy'n nodi bod ganddynt grefydd yn gyffredinol yn cynyddu yn ôl grŵp oedran. Fodd bynnag, roedd y rhai 15 oed ac iau a rhwng 16 a 24 oed ychydig yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt grefydd na'r grŵp oedran 25 i 34 oed. Mae gan y boblogaeth Fwslimaidd broffil oedran iau na'r rhan fwyaf o grefyddau eraill yng Nghymru.

Roedd crefydd yn ffactor cymhellol mewn 4% o droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2021-22, i fyny o 3% yn 2021-22. Cafodd cyfanswm o 227 o droseddau casineb crefyddol eu cofnodi gan yr heddlu yng Nghymru yn 2021-22, 77 yn fwy na 2020-21.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd cyfraddau cyflogaeth y rhai sy'n ystyried eu hunain yn Gristion neu heb grefydd yn debyg yn gyffredinol (73.5% a 73.0% yn y drefn honno) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Gofynnwyd cwestiwn gwirfoddol am gyfeiriadedd rhywiol am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2021. Gofynnwyd i ymatebwyr 16 oed a throsodd beth oedd eu cyfeiriadedd rhywiol, ac roedd y gwahanol opsiynau y gallent ddewis o'u plith yn cynnwys "Syth/Heterorywiol", "Hoyw neu Lesbiaidd", "Deurywiol", a "Cyfeiriadedd rhywiol arall". Os dewisodd yr ymatebydd "Cyfeiriadedd rhywiol arall", gofynnwyd iddo ysgrifennu'r cyfeiriadedd rhywiol yr oedd yn uniaethu ag ef.

Ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021, disgrifiodd 2.3 miliwn o bobl (89.4% o'r boblogaeth 16 oed a hŷn) eu hunain fel "Syth/Heterorywiol". Disgrifiodd 38,000 (1.5%) eu hunain fel "Hoyw neu Lesbiaidd" a disgrifiodd 32,000 (1.2%) eu hunain fel "Deurywiol". Nododd 7,000 arall (0.3%) gyfeiriadedd rhywiol gwahanol.

Yn gyffredinol, roedd 77,000 o drigolion arferol yng Nghymru (3.0% o'r boblogaeth 16 oed neu hŷn) wedi dewis cyfeiriadedd rhywiol lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol yn 2021.

Nid oedd y 194,000 arall o bobl 16 oed a hŷn (7.6%) wedi ateb y cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol.

Gostyngodd nifer y priodasau o'r un rhyw i 2020 (o 151 i 397 yn 2019). Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn yn debygol o fod oherwydd cyfyngiadau'r pandemig a oedd ar waith ar gyfer rhannau o'r flwyddyn. Mae priodasau o'r un rhyw yn parhau i fod yn fwy cyffredin na phartneriaethau sifil o'r un rhyw.

Yn 2022-23 roedd cyfran is o oedolion a oedd yn ystyried eu bod yn heterorywiol mewn amddifadedd materol (15%) wrth gymharu â'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain fel pobl hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol (25%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae canlyniadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru sydd ar gael (2022-23) yn dangos bod pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol tua dwywaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo’n unig nag eraill..

Roedd cyfeiriadedd rhywiol yn ffactor cymhellol mewn 1,329 o droseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru yn 2021-22, i fyny 50% o 884 yn 2020-21. Mae hyn yn cynrychioli 21% o'r holl droseddau casineb a gofnodwyd, cyfran ychydig yn uwch nag yn y blynyddoedd diwethaf.

## Hunaniaeth Rhywedd

Gofynnwyd cwestiwn gwirfoddol am hunaniaeth rhywedd am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2021. Gofynnwyd i ymatebwyr 16 oed a hŷn hefyd “A yw’r rhywedd rydych chi’n uniaethu ag ef yr un fath â’r rhyw a gofrestrwyd ar adeg eich geni?” ac roedd ganddynt yr opsiwn o ddewis naill ai “Ydy” neu ddewis “Nac ydy” a nodi eu hunaniaeth rhywedd.

Cafwyd ymatebion gan 2.4 miliwn o bobl yng Nghymru (93.7% o’r boblogaeth 16 oed a hŷn) i’r cwestiwn hwn.

Atebodd 93.3% o’r ymatebwyr 16 oed a hŷn “Ydy”, gan nodi bod eu hunaniaeth rhywedd yr un fath â’r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni.

Atebodd mwy na 10,000 o bobl (0.4%) “Na”, gan nodi bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i’r rhyw a gofrestrwyd ar adeg eu geni.

Roedd 1,900 o bobl yn ystyried eu hunain yn ddyn traws, gyda 1,900 o bobl yn ystyried eu hunain yn fenyw draws, a 1,500 o bobl yn ystyried eu hunain yn anneuaidd. Atebodd 4,000 o bobl “Na” ond ni wnaethant ddarparu ymateb ysgrifenedig.

Mae’r arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn casglu data ar lesiant meddyliol ar gyfer pobl ifanc 11 i 16 oed, fel y’u mesurwyd ar Raddfa Llesiant Meddyliol Byr Warwick-Caeredin. Roedd y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dadansoddiadau yn ôl rhywedd yn dangos mai'r rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn fachgen nac yn ferch oedd â'r llesiant meddyliol isaf, a merched yn adrodd llesiant meddyliol is na bechgyn.

Roedd hunaniaeth drawsryweddol yn ffactor cymhellol mewn 247 o droseddau casineb yng Nghymru yn 2021-22, sy'n cyfateb i 4% o'r holl droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru. Mae hyn yn gynnydd o 43% (74 yn fwy o droseddau a gofnodwyd) o'i gymharu â 2020-21.

# Anabledd

Tra bod cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl anabl wedi bod yn cynyddu dros amser, mae bwlch cyflog ar sail anabledd yn parhau ac mae aelwydydd sy'n cynnwys rhywun anabl yn dal yn fwy tebygol o gael trafferthion ariannol.

Fel yn 2011, gofynnodd Cyfrifiad 2021 i breswylwyr arferol adrodd a oedd ganddynt gyflwr iechyd hirdymor neu salwch, a oedd yn para neu y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy. Fodd bynnag, cafodd y cwestiwn ei eirio ychydig yn wahanol i 2011, er mwyn casglu data sy'n cyd-fynd yn agosach â'r diffiniad o anabledd yn Neddf Cydraddoldeb (2010). Diffiniwyd bod ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor ac mae eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig yn anabl.

Yn 2021, roedd cyfran y bobl anabl yng Nghymru yn 21.1% (670,000 o bobl). Mae'r gyfran hon wedi gostwng (gostyngiad o 2.3 pwynt canran) ers 2011, pan oedd yn 23.4% (696,000 o bobl).

Mae cyfran y bobl nad ydynt yn anabl wedi cynyddu (78.9%, 2.44 miliwn) o 76.6% (2.37 miliwn) yn 2011.


Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru (2022-23) yn dangos bod boddhad â bywyd yn gyffredinol is ar gyfer pobl 16+ oed â salwch neu anabledd hirdymor cyfyngol (roedd eu sgôr cymedrig yn 7.0) nag ar gyfer pobl heb salwch neu anabledd (8.0).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru (2022-23) hefyd yn dangos bod oedolion anabl neu'r rheini â salwch hirdymor sy'n cyfyngu arnynt yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig y rhan fwyaf o'r amser (22%) o'i gymharu â'r rhai sydd heb salwch neu anableddau o'r fath (7%).

Mae deilliannau addysgol disgyblion ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol wedi amrywio dros yr 8 mlynedd diwethaf, ond ar y cyfan yn debyg i'r patrwm a welir ym mhob disgybl. Yn 2021/22, dyfarnwyd gradd A* i G i 90% o ddisgyblion ym mlwyddyn 11 ag anghenion addysgol arbennig yn eu harholiadau TGAU, i lawr o 96% yn 2020/21.

## Ffigur 4.7: Canran y disgyblion ag AAA neu ddarpariaeth ADY ac sy'n cyflawni A*-G yng Nghyfnod Allweddol 4, ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 ym mhob pwnc, 2015/16 i 2021/22 [Nodyn 1] [Nodyn 2]




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 4.7: Siart llinell yn dangos canran y myfyrwyr â datganiad o anghenion addysgol arbennig a enillodd A*-G TGAU yn 2021/22. Ar ôl cynnydd serth yn 2019/20, gostyngodd y ganran ychydig yn 2020/21, gan ostwng ymhellach yn 2021/22 i'r gwerth isaf yn y gyfres amser.

Ffynhonnell: **Canlyniadau Arholiadau, Llywodraeth Cymru**

[Nodyn 1] Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

[Nodyn 2] Rhwng y llinellau toredig sy'n dangos pryd y dyfarnwyd cymwysterau drwy ddefnyddio graddau a aseswyd neu a bennwyd gan ganolfan.

O'r boblogaeth oed gweithio, mae pobl anabl (16%) yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau na phobl nad ydynt yn anabl (5%) ac maent yn llai tebygol o fod â chymwysterau uwch na lefel 2.

Yn y cyfnod diweddaraf (2019-20 i 2021-22), roedd 31% o'r plant a oedd yn byw mewn aelwyd lle'r oedd rhywun yn anabl mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â 26% mewn cartrefi lle nad oedd neb yn anabl. Yn yr un modd, roedd 28% o oedolion o oedran gweithio a oedd yn byw mewn aelwyd lle'r oedd rhywun yn anabl mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â 16% o'r rheini a oedd yn byw mewn aelwyd lle nad oedd neb yn anabl.

Yn 2022-23, roedd pobl anabl neu bobl â salwch cyfyngol hirdymor dwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn aelwyd mewn amddifadedd materol o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn anabl. Roedd un o bob pedwar o bobl anabl neu bobl â salwch cyfyngol hirdymor (25%) yn byw mewn aelwyd mewn amddifadedd materol o gymharu ag 11% o bobl nad oeddent yn anabl.


Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, y gyfradd cyflogaeth ymysg pobl anabl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru oedd 49.1%, a'r gyfradd ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl oedd 82.2%. Mae'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl ar gyfer 2023, o 33.1 pwynt canran, wedi lleihau o'i gymharu â 7 mlynedd yn ôl pan oedd yn 35.4 pwynt canran.

Roedd y gwahaniaeth cyflog ar sail anabledd yng Nghymru yn £1.32 (9.7%) yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2022. Mae hyn yn golygu bod pobl anabl yng Nghymru yn ennill £1.32 yn llai yr awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl. Mae’r gwahaniaeth wedi parhau i ostwng yn raddol o uchafbwynt o 15.1% yn 2019.

## Ffigur 4.8: Bwlch yn y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl, rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 a’r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023




Disgrifiad o Ffigur 4.8: Siart far yn dangos y bwlch cyfradd cyflogaeth anabledd ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 i 2023. Yn dilyn gostyngiad rhwng 2018 a 2019, mae’r bwlch wedi aros yn weddol sefydlog rhwng 32 a 33 pwynt canran.

Ffynhonnell: Crynodeb o weithgarwch economaidd yng Nghymru yn ôl blwyddyn a statws anabledd, o fis Ebrill 2013, StatsCymru

Barnwyd a oedd y ffaith bod unigolyn yn anabl yn ffactor cymhellol mewn 14% o


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2021-22, cyfran uwch o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Canfu Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fod cyfran sylweddol uwch o oedolion anabl yng Nghymru a Lloegr wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 (10.3%), o gymharu ag oedolion nad ydynt yn anabl (4.0%).

## Statws priodasol

Mae bod yn briod yn gysylltiedig â boddhad uwch â bywyd a thebygolrwydd is o fod mewn amddifadedd materol. Mae aelwydydd un rhiant yn dal i wynebu heriau, ac maent yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na mathau eraill o aelwydydd.

Ffurfiwyd 4,039 o briodasau yng Nghymru yn 2020, i lawr o 2019 (11,699). Roedd y gostyngiad hwn yn debygol o fod ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig a oedd mewn grym yn ystod rhannau o'r flwyddyn. Roedd mwyafrif y priodasau'n ymwneud â chyplau o'r rhyw arall (96.3%) gyda 151 o briodasau rhwng cyplau o'r un rhyw yng Nghymru, gyda 60% (90) o'r rhain rhwng cyplau benywaidd.

Yn 2021, ffurfiwyd 236 o bartneriaethau sifil rhyw arall a 28 o bartneriaethau sifil o'r un rhyw yng Nghymru. Dyma'r ail flwyddyn y mae partneriaethau sifil rhwng cyplau o ryw gwahanol wedi cael eu hadrodd yn dilyn y newid mewn deddfwriaeth i ymestyn partneriaethau sifil i gyplau o ryw gwahanol o 31 Rhagfyr 2019.

Yn 2022-23, roedd 22% o'r oedolion a oedd wedi cael ysgariad a 36% o'r rhai a oedd wedi gwahanu (ond yn dal yn briod yn gyfreithiol) mewn amddifadedd materol o'i gymharu ag 10% o'r rhai a oedd wedi priodi ac 10% o'r rhai a oedd yn weddw. Roedd dros hanner (56%%) y rhieni sengl mewn amddifadedd materol.


Roedd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2022-23 yn cadarnhau bod cyfran uwch o'r boblogaeth briod yn dweud eu bod yn fodlon iawn â bywyd,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gan deimlo bod y pethau maen nhw'n eu gwneud yn werth chweil ac roeddent yn hapus iawn o'u cymharu â'r oedolion sydd erioed wedi priodi, wedi gwahanu, wedi ysgaru, neu'n weddw.

Yn 2022-23, y rhai a oedd yn briod oedd y lleiaf tebygol o ddweud eu bod yn unig (8%), a'r rhai a oedd wedi gwahanu ond yn briod yn gyfreithiol oedd y mwyaf tebygol (21%). Roedd pobl a oedd yn sengl (hynny yw, heb fod erioed wedi priodi neu wedi cofrestru mewn partneriaeth sifil), wedi ysgaru, neu'n weddw hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn unig na phobl a oedd yn briod (17%, 17% a 14% yn y drefn honno).

## Ffigur 4.9: Boddhad â bywyd yn ôl statws priodasol, 2022-23




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 4.9: Graff bar yn dangos sgôr boddhad cymedrig â bywyd yn ôl statws priodasol yn 2022-23. Y rhai sydd wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil sydd â'r sgorau cymedrig uchaf (8.0 ac 8.1 yn y drefn honno) a'r rhai sydd wedi gwahanu ond sy'n dal i fod yn briod yn gyfreithiol sydd â'r sgôr isaf (6.7). Mae gan y rheini sy'n sengl, sydd wedi ysgaru neu sy'n weddw sgoriau tebyg o ran boddhad â bywyd.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

O'r rhai rhwng 16 a 64 oed, y bobl a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil oedd â'r cyfraddau cyflogaeth uchaf (79.3%) yn 2022-23 o'i gymharu â'r rhai a oedd wedi gwahanu neu ysgaru (69.7%), yn sengl (68.3%) neu'n weddw (59.5%). Yn gyffredinol, mae cyfraddau cyflogaeth yn is i fenywod nag i ddynion ac mae hyn yn arbennig o wir i fenywod sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. Y gyfradd cyflogaeth yn 2022-23 ar gyfer dynion priod oedd 84.8% o'i chymharu â 74.2% ar gyfer menywod priod.

## Darllen pellach

**A yw Cymru'n decach? (2018) (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)**

**Strategaeth Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd**

**Adroddiad 2021/22, Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Rhwydwaith Arolwg Iechyd Ysgolion)**

**Y Ganolfan Cydraddoldeb a Chynhwysiant (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Adnodd Llywio Data Cydraddoldeb GSS (GSS)**

**Costau byw ac iselder ymysg oedolion, Prydain Fawr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Cyfeiriadedd rhywiol, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Dangosydd Data Arolwg Cenedlaethol LGBT 2017 (Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth)**

**Hunaniaeth o ran rhywedd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Profiadau pobl anabl gyda gweithgareddau, nwyddau a gwasanaethau, y Deyrnas Unedig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

# Ffynonellau data

**Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)**

**Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)**

**Iechyd, anabledd a darpariaeth gofal di-dâl yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)**

**Gwahaniaethau grŵp ethnig mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)**

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**, ar foddhad â bywyd, ymdeimlad o gymuned, ymdeimlad o ddiogelwch, amddifadedd materol, defnyddio banciau bwyd, llesiant meddyliol

**Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd Cymru (Cyfrifiad 2021)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Iechyd a Llesiant

**Cymharu canfyddiadau arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019 a 2021 (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Myfyrwyr)**

**Adroddiad Annhegwch yr Is-adran Sgrinio 2020-21 (Iechyd Cyhoeddus Cymru)**

## Tlodi

**Tlodi incwm cymharol**

**Arolwg Cenedlaethol Cymru (StatsCymru)**

**Tlodi tanwydd**

## Marwolaethau

**Disgwyliad oes y wladwriaeth iechyd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Hunanladdiadau yng Nghymru a Lloegr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

## Addysg

**Canlyniadau arholiadau**

**Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur**

**Lefel y cymhwyster uchaf a ddelir gan oedolion o oedran gweithio**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Y farchnad lafur

**Ystadegau'r Farchnad Lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth)**

**Cymryd rhan yn y Farchnad Lafur (StatsCymru)**

## Bylchau cyflog

**Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau (StatsCymru)**

**Gwahaniaeth cyflog anabledd ac ethnigrwydd yng Nghymru 2014 i 2022**

## Priodasau a phartneriaethau sifil

**Priodasau yng Nghymru a Lloegr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

## Troseddau a chyfiawnder

**Troseddau Casineb, Cymru a Lloegr (Y Swyddfa Gartref)**

**Cyfraddau adrodd Troseddau Casineb (Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr)**

# Cymru o gymunedau cydlynus

# Y nod ar gyfer Cymru o gymunedau cydlynus

Awdur: Dr Steven Marshall

Cymru o gymunedau cydlynus: Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chysylltiadau da.

## Beth ydym wedi'i ddysgu o'r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

Nid yw'r rhan fwyaf o'r dangosyddion o Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n ymwneud â chymunedau cydlynus wedi cael eu diweddaru eleni. Mae'r pwynt cyffredinol ynghylch newid wedi parhau, sef bod y pandemig (COVID-19) wedi effeithio'n eang ar fywydau pobl Cymru yn yr un modd â llefydd eraill ac mae hyn wedi effeithio ar y dangosyddion yn y bennod mewn ffyrdd gwahanol.

Cynyddodd gwirfoddoli yn ystod pandemig COVID-19, ac mae canlyniadau 2022-23 yn dangos bod y lefel uwch hon wedi cael ei chynnal (o 26% yn 2019 i 2020, i 29% yn 2021 i 2022 a 30% yn 2022 i 2023).

Mae unigrwydd, sy'n seiliedig ar gyfuniad o chwe mesur ar wahân, wedi aros yr un fath fwy neu lai dros y tair blynedd diwethaf (2020 i 2021 i 2022 i 2023) ac yn is na 2019 i 2020. O fewn y mesur cyffredinol, mae'r ganran sydd 'wedi gweld colli cael pobl o gwmpas' wedi dilyn patrwm gwahanol gyda chanran wedi cynyddu'n sylweddol yn 2020 i 2021 a 2021 i 2022 ond gyda 2022 i 2023 yn ôl i lefelau 2019 i 2020.

Nid oedd llawer o newid eleni yn nifer yr aelwydydd a gysylltodd â'u hawdurdod lleol i gael cymorth gan eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd. Ond roedd cynnydd yn nifer yr aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref a nifer yr aelwydydd a oedd mewn llety dros dro yn 2022 i 2023 o'i gymharu â 2021 i 2022.

Mae data gan Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (heb gynnwys twyll) yn 2022 i 2023 yn dangos bod 6.6% o oedolion wedi dioddef troseddau a bod 2.5% wedi dioddef troseddau personol. Oherwydd newidiadau yn y ffordd y cynhaliwyd yr arolwg yn ystod y pandemig, ni ellir cymharu'r data hwn â'r flwyddyn flaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Beth yw'r cynnydd tymor hwy tuag at y nod?

Mae rhai o'r dangosyddion ar gyfer cymunedau cydlynus yn dal yn fesurau cymharol ddiweddar a gasglwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ac felly mae'n anodd rhoi sylwadau hyderus ar newidiadau dros amser. Mae effeithiau pandemig COVID-19, yn ogystal â newidiadau yn y ffordd y cesglir yr Arolwg Cenedlaethol, yn effeithio ar y gallu i gymharu â data cynharach. Ond gyda hynny mewn golwg, mae'n ymddangos bod nifer o fesurau sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol ac ymgysylltu wedi gweld newid cadarnhaol yn ystod y 2020au.

- Roedd dangosyddion cydlyniant cymunedol wedi bod yn weddol sefydlog ers iddynt gael eu casglu am y tro cyntaf yn 2012 tan y gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2020 i 2021. Yn ystod yr un flwyddyn hefyd gwelwyd newid sylweddol cadarnhaol yn y ffordd mae pobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau lleol. Ni fydd yn glir a fydd y cynnydd yn 2020 i 2021 a 2021 i 2022 yn cael ei gynnal nes bydd data ar gael ar gyfer nifer o flynyddoedd yn y dyfodol.
- Gwelwyd ychydig o welliannau dros yr hirdymor ym modlonrwydd pobl â'u hardal leol. Mae pobl sy'n teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu wedi aros yn gymharol gyson ers iddynt gael eu holi am y tro cyntaf yn 2016 i 2017 ac roeddent yn 66% yn 2021 i 2022.
- Roedd canran y bobl sy'n gwirfoddoli wedi bod yn gostwng ond mae'n ddangosydd arall sydd wedi gweld cynnydd yn y 2020au. Cyrhaeddwyd y garreg filltir genedlaethol sef bod 30% o bobl yn gwirfoddoli.
- Mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion yn y nod hwn wedi cael eu dadansoddi'n fanwl i bennu'r ffactorau sy'n gysylltiedig â gwahaniaethau yn lefel y dangosydd. Mae cysylltiadau rhwng y gwahanol fesurau o gymunedau cydlynus, y dangosyddion cenedlaethol eraill yn ogystal â mesurau eraill a gasglwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol sy'n ymwneud â'r pwnc hwn (er enghraifft, bod yn fodlon â'r gwasanaethau a'r cyfleusterau yn yr ardal leol). Gall y cysylltiadau weithio'n hawdd yn y naill gyfeiriad neu'r llall, er enghraifft, gall pobl unig fod yn llai tebygol o wirfoddoli ond gall gwirfoddoli hefyd helpu i leihau unigrwydd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Yn wahanol i ddadansoddiad cynharach, mae’r dadansoddiad diweddaraf sy’n seiliedig ar ganlyniadau arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn dangos bod oedran, iechyd ac amddifadedd yn bwysig i rai ond nid pob un o’r dangosyddion.
- Mae pobl yn teimlo bod troseddu wedi cynyddu’n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, er bod y darlun o droseddau a gofnodwyd yn fwy cymysg. Yn ystod y pandemig COVID-19, bu gostyngiad yn y rhan fwyaf o fathau o droseddau.
- Nid yw’n glir eto a oes unrhyw newidiadau parhaus mewn ymddygiad o ganlyniad i’r pandemig a allai effeithio ar y cynnydd hirdymor tuag at y nod.

## Cydlyniant cymunedol

Roedd bron i ddwy ran o dair o oedolion yn cytuno â phob un o’r tri mesur cydlyniant cymunedol yn 2021 i 2022 – perthyn i’r ardal leol, pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu’n dda, a thrin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth - pan gasglwyd data ar y dangosydd hwn ddiwethaf gan Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn gynnydd ers y blynyddoedd cyn y pandemig, ac yn ychydig o ostyngiad ers 2020 i 2021.

Yn 2021 i 2022, roedd 64% o bobl yn cytuno â’r tri datganiad am eu hardal leol sy’n ffurfio’r dangosydd cenedlaethol, ac roedd 95% yn cytuno ag o leiaf un datganiad.


Mae’r ffigurau hyn wedi bod yn weddol sefydlog ers iddynt gael eu casglu am y tro cyntaf yn 2012 tan y cynnydd sylweddol yn 2020 i 2021. Ni ddaw’n glir a yw’r cynnydd yn 2020 i 2021 a 2021 i 2022 yn effaith byrdymor o'r pandemig (gyda chymunedau’n dod at ei gilydd yn lleol) ac a fyddant yn cael eu cynnal, neu eu cynnal yn rhannol, hyd nes y bydd data ar gael ar gyfer nifer o flynyddoedd i ddod.

Nid oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng dynion a menywod ar y mesurau unigol nac o ran cytuno â'r tri datganiad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae tuedd glir tuag at fwy o gydlyniant cymunedol wrth i amddifadedd yn yr ardal ostwng.

## Ffigur 5.1: Canran y bobl sy'n cytuno â datganiadau am eu hardal leol, yn ôl blwyddyn [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 5.1: Siart far yn dangos canran y bobl sy'n cytuno â thri datganiad am eu hardal leol rhwng 2012 i 2013 a 2021 i 2022.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

[Nodyn 1] Nid oes gan y blynyddoedd 2015 i 2016, 2017 i 2018 a 2019 i 2020 ddata sy'n gysylltiedig â nhw.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Teimlo’n ddiogel ar ôl iddi dywyllu


Mae dwy ran o dair o oedolion yn teimlo’n ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd ar ôl iddi dywyllu.

Y dangosydd cenedlaethol yw canran y bobl a gytunodd gyda'r pedwar datganiad am deimlo’n ddiogel ar ôl iddi dywyllu: gartref, wrth gerdded yn eu hardal leol, teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu deithio mewn car. Yn 2021 i 2022, roedd 66% o bobl yn teimlo’n ddiogel ym mhob un o’r pedair sefyllfa. Mae’r canlyniadau hyn wedi aros yn weddol gyson ar draws y blynyddoedd ers gofyn am y tro cyntaf yn 2016 i 2017.

Mae dynion yn teimlo’n fwy diogel (81%) na menywod (51%). Mae tuedd glir tuag at fwy o deimlad o ddiogelwch wrth i amddifadedd yn yr ardal ostwng, gyda 72% o bobl sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn teimlo'n ddiogel ym mhob sefyllfa o gymharu â 54% o bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 5.2: Canran y bobl sy’n cytuno â datganiadau am deimlo’n ddiogel ar ôl iddi dywyllu, 2021 i 2022




Disgrifiad o Ffigur 5.2: Siart far yn dangos canran y bobl sy’n cytuno â datganiadau am deimlo’n ddiogel ar ôl iddi dywyllu yn 2021 i 2022. Roedd 96 y cant yn teimlo’n ddiogel gartref, roedd 97% yn teimlo’n ddiogel wrth deithio mewn car, roedd 75% yn teimlo’n ddiogel wrth gerdded yn yr ardal leol ac roedd 76% yn teimlo’n ddiogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

[Nodyn 1] ‘Ddim yn gwybod’ oedd ateb 27% o’r bobl a holwyd i’r cwestiwn am drafnidiaeth gyhoeddus ac ni chawsant eu cynnwys yn y dadansoddiad. O ganlyniad, mae cyfran y bobl sy’n teimlo’n ddiogel ym mhob un o’r pedair sefyllfa yn is nag y byddai’r canlyniadau unigol yn ei awgrymu.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Bodlonrwydd â’r ardal leol

Yn gyffredinol, yn ôl Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022, mae 89% o bobl yn dweud eu bod yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw, sydd ychydig yn uwch na'r canlyniadau yn 2020 i 2021, 2018 i 2019 a 2016 i 2017.


Roedd 86% o bobl yn fodlon eu bod yn gallu cyrraedd neu ddefnyddio’r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ychydig yn is na 2020 i 2021 ond cynnydd ers 2018 i 2019 (83%). Nid oedd y gostyngiad bach diweddaraf yn arwyddocaol yn ystadegol. Roedd hyn yn amrywio yn ôl y math o ardal gyda chanran sylweddol is o bobl o ardaloedd gwledig yn cael mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau o’i gymharu â’r rhai o ardaloedd trefol (83% o’i gymharu ag 87%). Nid yw’n syndod mai preswylwyr pentrefannau ac adeiladau ynysig oedd y lleiaf bodlon â’r mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, gyda dim ond 77% yn dangos eu bod yn fodlon ar y dangosydd hwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 5.3: Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau da yn ôl ardal, 2021 i 2022




Disgrifiad o Ffigur 5.3: Siart far yn dangos canran y bobl sy’n fodlon â’u mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Mae 87% o bobl mewn ardaloedd trefol yn fodlon o’i gymharu â 77% o bobl sy’n byw mewn pentrefannau ac anheddau ynysig.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Dywedodd llai na 60% o bobl (yn 2021 i 2022) fod gwasanaethau trefol fel canolfannau cymunedol, ysgolion uwchradd, llyfrgelloedd a chlybiau ieuenctid neu chwaraeon ar gael yn eu hardal leol. I’r gwrthwyneb, dywedodd dros 80% fod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, siopau a thafarndai i gyd o fewn pellter cerdded 15 i 20 munud o’u cartref.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Dylanwadu ar benderfyniadau lleol

Mae mwy o bobl nawr yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau lleol. Yn 2021 i 2022, roedd 30% o bobl yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu hardal leol o’i gymharu â 26% yn 2020 i 2021 a 19% yn 2018 i 2019.

Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers cyn 2020 ac mae’n bosibl ei fod yn adlewyrchu newid go iawn o ganlyniad uniongyrchol i’r pandemig, ond mae angen ei fonitro yn ystod blynyddoedd yr arolwg yn y dyfodol.

## Ffigur 5.4: Canran y bobl sy’n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar yr ardal leol, 2012 i 2013 a 2021 i 2022




Disgrifiad o Ffigur 5.4: Siart far yn dangos canran y bobl sy’n teimlo eu bod yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gallu dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Yn 2021 i 2022, dywedodd 30% eu bod yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau, o'i gymharu â 19% yn 2018 i 2019. Mae canlyniad 2021 i 2022 yn uwch nag ym mhob blwyddyn ers i'r cwestiwn gael ei ofyn am y tro cyntaf yn 2012 i 2013.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru


## Gwirfoddoli

Mae canlyniadau data ar-lein a gasglwyd fel rhan o Arolwg Cenedlaethol 2022 i 2023 yn dangos bod 30% o bobl yn dweud eu bod yn gwirfoddoli i glybiau neu sefydliadau. Mae hyn yn cymharu â 26% yn 2019 i 2020 (pan gynhaliwyd yr arolwg wyneb yn wyneb) a 29% yn 2021 i 2022 (pan ofynnwyd y cwestiynau gwirfoddoli fel rhan o'r modiwl ar-lein am y tro cyntaf). Ym mhob blwyddyn, roedd y bobl fwyaf cyffredin yn gwirfoddoli ar gyfer elusennau a chlybiau chwaraeon.

Mae tystiolaeth bod rhyngweithio cymdeithasol o fudd i lesiant personol ac mae gwirfoddoli yn agwedd ar ryngweithio cymdeithasol sydd wedi dangos manteision cadarnhaol o ran iechyd a llesiant.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 5.5: Canran y bobl sy’n gwirfoddoli yn ôl math o sefydliad, 2022 i 2023




Disgrifiad o Ffigur 5.5: Siart far yn dangos canran y bobl sy’n gwirfoddoli, yn ôl math o sefydliad, yn 2022 i 2023. Mae pobl yn fwy tebygol o wirfoddoli ar gyfer mudiadau elusennol (10%) neu glybiau chwaraeon (8%).

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer y dangosydd gwirfoddoli yw “cynyddu canran y bobl sy’n gwirfoddoli 10% erbyn 2050, gan ddangos statws Cymru fel cenedl sy'n gwirfoddoli”. Mae hyn yn golygu cyrraedd ffigur o 30% erbyn 2050. Mae’r garreg filltir hon wedi cael ei chyflawni yn 2022 i 2023 ond, gyda’r ansicrwydd ynghylch pa mor gynaliadwy fydd y cynnydd a welwyd yn ystod pandemig COVID-19, nid yw’n glir o hyd a fydd y lefel hon yn cael ei chynnal.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Unigrwydd

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu data gan ddefnyddio graddfa unigrwydd De Jong Gierveld sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd emosiynol a chymdeithasol.


Yn 2022 i 2023, yn seiliedig ar bob un o'r chwe mesur, canfuwyd bod 13% o bobl Cymru yn unig, sef yr un ganran ag yn y ddwy flynedd ddiwethaf (2021 i 2022 a 2020 i 2021) ac yn is nag yn 2019 i 2020. Fodd bynnag, mae amrywiadau amlwg yng nghanran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig ym mhob un o'r mesurau unigol:

- Yn 2022 i 2023, dywedodd 36% o bobl eu bod yn colli cael pobl o'u cwmpas, sydd yr un ganran â 2019 i 2020. Fodd bynnag, roedd hyn yn uwch yn y blynyddoedd rhwng y dyddiadau hyn yn ystod pandemig COVID-19 a 53% yn 2021 i 2022 ac uchafbwynt o 71% yn 2020 i 2021.
- Roedd canran y bobl sy'n dweud bod ganddyn nhw bobl maen nhw'n gallu ymddiried yn llwyr ynddyn nhw wedi cynyddu o 59% yn 2019 i 2020 i 67% yn 2020 i 2021. Cafodd hyn ei gynnal yn 2021 i 2022 a 2022 i 2023.
- O 2019 i 2020 a 2021 i 2022, roedd cynnydd yng nghanran y bobl a ddywedodd fod ganddynt ddigon o bobl roeddent yn teimlo'n agos atynt, yn ogystal â'r ganran oedd â digon o bobl y gallent ddibynnu arnynt. Roedd y ffigurau ar gyfer 2022 i 2023, sef 83% a 77% yn y drefn honno, ychydig yn is ond nid yn newid arwyddocaol yn ystadegol rhwng 2020 i 2021.

Mae canlyniadau diweddaraf (2022 i 2023) Arolwg Cenedlaethol Cymru yn awgrymu bod oedolion iau (16 i 44 oed) yn fwy tebygol o deimlo'n unig na phobl 65 oed a hŷn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 5.6: Canran y bobl sy’n teimlo’n unig yn ôl rheswm a blwyddyn




Disgrifiad o Ffigur 5.6: Siart far yn dangos y canlyniadau ar gyfer 2019 i 2020 a 2022 i 2023 a’r chwe chwestiwn a ofynnwyd i greu’r mesur o unigrwydd. Yn gyffredinol, mae’r ymatebion i’r datganiadau yn dangos bod pobl yn llai unig yn 2022 i 2023 o’i gymharu â 2019 i 2020.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

# Allgáu digidol

Cafodd dangosydd cenedlaethol newydd ei osod yn 2021 a fydd yn mesur statws cynhwysiant digidol. Bydd y diffiniad ar gyfer y dangosydd hwn yn seiliedig ar ganlyniad ymchwil parhaus ar y safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol sylfaenol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Brifysgol Lerpwl.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn y cyfamser, mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2022 i 2023 yn dangos bod 93% o oedolion yn defnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion personol yn y cartref, yn y gwaith neu yn rhywle arall, sydd heb newid ers y llynedd. Ar hyn o bryd, mae'r arolwg hefyd yn gofyn cwestiynau am weithgarwch digidol a'r sgiliau sydd gan bobl.

Mae'r rhain wedi eu grwpio'n 5 math o sgil:

- Trin gwybodaeth a chynnwys
- Cyfathrebu
- Trafod
- Datrys problemau
- Bod yn ddiogel ac yn gyfreithiol ar-lein

Mae'r data diweddaraf o 2021 i 2022, lle roedd 78% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd wedi gwneud gweithgareddau a oedd yn ymwneud â phob un o'r 5 sgil hyn o'i gymharu â 73% yn 2019 i 2020.

# Digartrefedd

Mae'r dull 'neb heb help' o gefnogi aelwydydd digartref i gael llety brys wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2020. Mae gwybodaeth reoli a gasglwyd ers dechrau'r pandemig yn dangos bod dros 37,300 o bobl a oedd yn ddigartref o'r blaen wedi cael cymorth i gael llety dros dro mewn argyfwng rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mai 2023.

Yn 2022 i 2023, roedd nifer yr aelwydydd yr aseswyd eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd yn debyg i yn 2021 i 2022, ond mae'r gyfradd atal am o leiaf 6 mis wedi gostwng o dan 60% yn 2022 i 2023, am y tro cyntaf ers i'r ddeddfwriaeth newid yn 2015. Cyn y gostyngiad hwn, roedd digartrefedd wedi cael ei atal yn llwyddiannus mewn tua dwy ran o dair o achosion ers 2017 i 2018.

Mae nifer yr aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref, a nifer yr aelwydydd yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

aseswyd eu bod yn ddigartref yn anfwriadol ac sydd ag angen blaenoriaethol wedi cynyddu yn 2022 i 2023 o'i gymharu ag yn 2021 i 2022, 7% a 25% yn y drefn honno. Roedd aelwydydd a ryddhawyd yn llwyddiannus o ddigartrefedd wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2016 i 2017 a 2019 i 2020 ond mae wedi bod yn gostwng ers hynny, o 41% yn 2019 i 2020 i 30% yn 2022 i 2023.

Nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2023 oedd 5,481. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu'n gyflym ers y llynedd ac mae bellach yn fwy na dwbl y 2,325 o aelwydydd mewn llety dros dro ar yr adeg honno.

Mae gwybodaeth reoli a gasglwyd gan awdurdodau lleol ers mis Awst 2020 yn dangos bod amcangyfrif o nifer y bobl sy'n cysgu allan wedi amrywio rhwng 51 ac 161 unigolyn ers mis Awst 2020. Ar 31 Mai 2023, amcangyfrifir bod 154 o unigolion yn cysgu allan ledled Cymru, gyda Casnewydd, Caerdydd a Sir Benfro yn cyfrif am yr amcangyfrifon mwyaf o bobl sy'n cysgu allan.

Yn 2021, amcangyfrifwyd bod 40 o bobl ddigartref yng Nghymru wedi marw, o'i gymharu â 22 yn 2020 a 33 yn 2019.

## Troseddu a chyfiawnder

Gosodwyd dangosydd cenedlaethol newydd yn 2021 a fydd yn mesur canran y bobl sydd â hyder yn y system gyfiawnder. Nid yw data wedi ei gasglu eto ar gyfer y dangosydd hwn.

Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn profi trosedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu wedi cynyddu tra bo cyfran yr oedolion sy'n ddioddefwyr troseddau wedi aros yn gymharol sefydlog.

Mae data gan Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (heb gynnwys twyll) yn 2022 i 2023 yn dangos bod 6.6% o oedolion wedi dioddef troseddau a bod 2.5% wedi dioddef troseddau personol. Oherwydd newidiadau yn y ffordd y cynhaliwyd yr arolwg yn ystod y pandemig, ni ellir cymharu'r data hwn â'r flwyddyn flaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Dyma’r ffigurau isaf yn y gyfres amser sydd ar gael (o 2015 i 2016) pan oedd y canrannau’n 14.7% a 4.4%. O un flwyddyn i’r llall, mae’r gyfran wedi gostwng ers y cyfnod hwn ac yng nghyd-destun y canrannau cymharol yn 2019 i 2020 roeddent yn 9.2% a 2.6% yn y drefn honno.


Cynyddodd troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2022 i 2023 o 3%, yn dilyn gostyngiad o 17% yn 2021 i 2022. Cafwyd cynnydd mewn 4 o’r prif gategorïau o droseddau gan gynnwys troseddau rhywiol a throseddau dwyn. Ni welwyd unrhyw newid canrannol mewn troseddau treisgar a difrod troseddol a thanau bwriadol o’i gymharu â 2021 i 2022. Roedd troseddau yn ymwneud â chyffuriau a throseddau yn ymwneud â meddu arfau wedi gostwng o’i gymharu â 2021 i 2022. Mae’n debygol bod pandemig COVID-19 a’r cyfyngiadau a gyflwynwyd fel mesurau iechyd cyhoeddus ym mis Mawrth 2020 wedi cael effaith ar nifer yr achosion o sawl math o droseddau yn 2020 i 2021 ac i raddau llai yn 2021 i 2022.

Mae troseddau yn ymwneud â thwyll a chamddefnyddio cyfrifiaduron wedi gostwng 11% yng Nghymru rhwng 2021 i 2022 a 2022 i 2023 er bod y gyfradd wedi aros yr un fath ar 5 trosedd am bob 1,000 o'r boblogaeth yng Nghymru.

Mae’r data diweddaraf ar ganfyddiadau troseddau o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) (2022 i 2023) yn dangos bod 41% o bobl yng Nghymru yn credu bod troseddu wedi codi’n sylweddol yn genedlaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gostyngiad o’i gymharu â’r blynyddoedd blaenorol. Mae canran y rhai sy’n credu bod troseddu wedi cynyddu’n sylweddol yn eu hardal leol yn llawer iawn llai (11%). Mae’r data diweddaraf am droseddau treisgar yng Nghymru gan y CSEW yn dangos bod nifer yr achosion o droseddau yng Nghymru wedi cynyddu i gyfradd o 29 am bob 1,000 oedolyn yn 2022 i 2023.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 5.7: Troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu am bob 1,000 o'r boblogaeth, 2002 i 2003 a 2022 i 2023




Disgrifiad o Ffigur 5.7: Siart llinell yn dangos cyfraddau troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu am bob 1,000 o'r boblogaeth ers 2002 i 2003. Mae'r siart yn dangos bod troseddau dwyn wedi gweld y newid mwyaf mewn cyfraddau yn gostwng o fwy na 50 ym mhob 1,000 o'r boblogaeth i tua 20 ym mhob 1,000 o'r boblogaeth. Mae cyfraddau troseddau trais yn erbyn y person wedi bod yn cynyddu ers 2013 i 2014 ac ers 2018 i 2019 mae ganddynt y gyfradd uchaf o'r rhai a ddangosir. Gwelodd difrod troseddol a thanau bwriadol ostyngiad mewn cyfraddau tan 2016 i 2017 ond ers hynny maent wedi bod yn sefydlog. Troseddau trefn gyhoeddus oedd â'r gyfradd isaf am bob 1,000 o'r boblogaeth tan 2021 i 2022 pan gododd y gyfradd uwchben difrod troseddol a thanau bwriadol, mae cyfraddau yn y categori hwn wedi bod yn codi ers 2015 i 2016.

Ffynhonnell: Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu, y Swyddfa Ystadegau


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gwladol

## Darllen pellach

Roedd dadansoddiad pellach o ddata Arolwg Cenedlaethol 2021 i 2022 yn cynnwys dadansoddiad atchweliad i amlygu ffactorau arwyddocaol ar gyfer rhai o'r dangosyddion:

**Teimlo'n ddiogel mewn ardal leol (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2021 i Fawrth 2022**

**Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol?**

**Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar yr ardal lle maent yn byw?**

**Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn cytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol?**

Ymchwil a dadansoddi arall a allai fod o ddiddordeb:

**Mesur eich effaith ar unigrwydd yn ddiweddarach mewn bywyd (Campaign to end loneliness)** (Saesneg yn unig)

**Unigrwydd yn y boblogaeth gyffredinol: niferoedd, penderfynydd a chysylltiadau ag iechyd meddwl (BMC Psychiatry)** (Saesneg yn unig)

**Etholiadau lleol yng Nghymru (Y Comisiwn Etholiadol)** (Saesneg yn unig)

**Gwerthuso'r cynllun peilot ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw (Y Comisiwn Etholiadol)** (Saesneg yn unig)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Ffynonellau data

## Digartrefedd

**Tablau data agored ar gyfer Digartrefedd Statudol a Cysgwyr Allan (StatsCymru)**

**Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan - gwybodaeth reoli fisol**

**Amcangyfrifon o farwolaethau ymhlith pobl ddigartref (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)** (Saesneg yn unig)

## Troseddau

**Data ar Ganfyddiadau - Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)** (Saesneg yn unig)

Mae niferoedd troseddau treisgar CSEW yn dod o dablau **data agored am Droseddau Personol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)** (Saesneg yn unig)

**Tablau data agored am Droseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu (Y Swyddfa Gartref)** (Saesneg yn unig)

**Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu 2022 i 2023 (tabl P2 a P11) (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)** (Saesneg yn unig)

**Amcangyfrifon Canol Blwyddyn**

## Data arall

Daw’r holl ddata eraill o **Arolwg Cenedlaethol Cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Awdur: Stephanie Howarth

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

## Beth ydym wedi ei ddysgu o’r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

- Roedd y dangosydd cenedlaethol ar bresenoldeb a chyfranogiad rheolaidd yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wedi gostwng eleni. Roedd 65% o oedolion yn mynychu neu’n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn, i lawr o 71% pan gafodd ei fesur ddiwethaf yn 2019-20.
- Wrth edrych yn fanylach ar y celfyddydau, mae’n ymddangos bod y pandemig wedi effeithio’n fwy negyddol ar bresenoldeb yn y celfyddydau na chyfranogiad yn y celfyddydau. Nid oes data newydd ar bresenoldeb na chyfranogiad plant yn y celfyddydau eleni.
- Mae mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd eleni. Dywedodd 39% o oedolion eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy. Roedd gostyngiad yn y ganran a ddywedodd nad oeddent yn gwneud unrhyw chwaraeon na gweithgarwch corfforol – o 44% yn 2021-22 i 40% eleni.
- Yn wahanol i’r cynnydd yn nifer yr oedolion sy’n cymryd rhan mewn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chwaraeon, mae llai o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon rheolaidd y tu allan i'r ysgol. Roedd 39% o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu dair gwaith yr wythnos neu fwy yn 2022, i lawr 9 pwynt canran o'r arolwg diwethaf yn 2018.

- Yn ôl Cyfrifiad 2021, dywedodd 17.8% o bobl tair oed neu hŷn yng Nghymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg, i lawr o 19.0% yng Nghyfrifiad 2011. Ymddengys bod hyn yn cael ei ysgogi gan ostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc yr adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 11% o bobl yn dweud eu bod yn rhugl.
- Aseswyd bod cyflwr 77% o adeiladau rhestredig yn "sefydlog neu'n gwella" eleni, o'i gymharu â 59% ar gyfer henebion rhestredig. Nid yw hyn wedi newid rhyw lawer ers y flwyddyn flaenorol.
- Mae canran yr amgueddfeydd sy'n cyrraedd safonau achrededig wedi aros yr un fath eleni, sef 62%, ac roedd 93% o'r gwasanaethau archif yn bodloni'r safonau achredu.

## Beth yw'r cynnydd tymor hwy tuag at y nod?

Mae nifer fach o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer y nod hwn wedi dangos dirywiad amlwg dros yr hirdymor, yn bennaf nifer y siaradwyr Cymraeg ac oedolion sy'n mynychu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Efallai fod cyfnod y pandemig wedi cyfrannu yma, gan gynnwys ar gyfranogiad plant mewn chwaraeon. I'r gwrthwyneb, bu cynnydd nodedig yn yr hirdymor mewn amrywiaeth o feysydd fel cyfranogiad a phresenoldeb plant yn y celfyddydau, cyfranogiad rheolaidd oedolion mewn chwaraeon, ac amgueddfeydd ac archifau sy'n ennill achrediad. Mae gwahaniaethau mawr yn parhau ar draws nifer o ddangosyddion ar gyfer y nod hwn.

- Mae'r dangosydd cenedlaethol ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wedi cael ei gasglu dair gwaith, a'r tro cyntaf yn 2017-18. Bu gostyngiad mewn presenoldeb a chyfranogiad rheolaidd yn ystod pob blwyddyn ar gofnod, i lawr o 75% yn 2017-18 i 65% yn 2022-23. Mae gwahaniaethau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

eang o hyd yn dibynnu ar oedran, iechyd, amddifadedd a chymwysterau, ond nid ar gyfer rhyw na grwpiau ethnig.

- Er y gostyngiad o ran presenoldeb yn y flwyddyn ddiweddaraf (2019), mae presenoldeb a chyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau celfyddydol wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf.
- Mae mwy o amgueddfeydd a gwasanaethau archifau yn cyrraedd y safonau achrededig. Rhwng 2017 a 2023, bu cynnydd mwy yng nghanran y gwasanaethau archifau sy'n cyrraedd safonau achrededig (o 57% i 93%) nag amgueddfeydd (o 59% i 62%).
- Ers 2016-17, gwelwyd cynnydd cymharol fawr yn yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd, er gwaethaf y ffaith bod y sefyllfa wedi aros ar yr un lefel rhwng 2017-18 a 2019-20. Roedd cyfranogiad mewn chwaraeon ymysg disgyblion ysgol wedi cynyddu ond erbyn hyn mae wedi gostwng i lefelau tebyg a welwyd yn 2013.
- Gostyngodd nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, gyda'r ganran bellach yr isaf i'w chofnodi erioed mewn cyfrifiad. Mae carreg filltir genedlaethol i filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn ôl y cyfrifiad, roedd 538,000 o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn 2021, i lawr o bron i filiwn yn 1911.
- Mae data arolwg yn awgrymu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn yr hirdymor. Mae canran y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r iaith bob dydd wedi bod yn weddol sefydlog.
- Mae cyflwr adeiladau rhestredig yng Nghymru wedi gwella ychydig ers 2015, ac mae cyflwr henebion rhestredig wedi sefydlogi'n ddiweddar.


## Celfyddydau, diwylliant a threftadaeth

Mae'r dangosydd cenedlaethol ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn dangos bod presenoldeb a chyfranogiad rheolaidd yn gostwng. Yn 2022-23, roedd 65% o oedolion yn mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Mae hyn wedi gostwng o uchafbwynt o 75% pan gasglwyd y data am y tro cyntaf yn 2017-18.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae gwahaniaethau mawr o hyd o ran presenoldeb a chyfranogiad rhwng grwpiau. Mae oedolion iau, pobl mewn iechyd da, pobl â chymwysterau uwch neu bobl sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru yn fwy tebygol o fynychu neu gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth rhwng dynion a menywod, ac nid oedd gwahaniaethau mewn amcangyfrifon ar gyfer grwpiau ethnig yn arwyddocaol yn ystadegol.

## Ffigur 6.1: Oedolion sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth dair gwaith y flwyddyn neu fwy, 2017-18 i 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 6.1: Siart far yn dangos tair blynedd o ddata ar gyfer y dangosydd cenedlaethol ar fynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth yn rheolaidd. Mae'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ganran wedi gostwng bob blwyddyn.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru


## Presenoldeb a chyfranogiad oedolion yn y celfyddydau

Wrth edrych yn fanylach ar y celfyddydau, mae'n ymddangos bod cyfnod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar bresenoldeb mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r celfyddydau. Yn 2022-23, mynychodd 64% o bobl ddigwyddiad celfyddydol dros y flwyddyn ddiwethaf, i lawr o 70% cyn y pandemig. Gweld ffilm yw'r gweithgaredd celfyddydol â'r lefel uchaf o bresenoldeb o hyd, gyda 47% o oedolion yn gwneud hyn dros y 12 mis diwethaf.

Mae cymryd rhan yn y celfyddydau yn dal yn llawer is na phresenoldeb yn y celfyddydau, gyda 18% o oedolion yn cymryd rhan yn y celfyddydau yn 2022-23. Yn wahanol i bresenoldeb yn y celfyddydau, nid yw'n ymddangos bod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar gyfranogiad yn y celfyddydau, gyda chyfran gweddol debyg o bobl yn cymryd rhan yn y celfyddydau yn y flwyddyn ddiweddaraf o'i gymharu â 2019-20. Cerddoriaeth, a chrefftau a chelfyddydau gweledol welodd y lefelau uchaf o gyfranogiad eleni, sef 7% yr un.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 6.2: Oedolion sy’n mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl math o gelfyddyd, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 6.2: Siart far sy’n dangos y mathau o ddigwyddiadau celfyddydol yr oedd oedolion wedi’u mynychu yn 2022-23, gyda ffilm yn y categori uchaf.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Yn 2021-22, holodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ynglŷn â rhwystrau o ran mynd i ddigwyddiadau celfyddydol neu gymryd rhan yn y celfyddydau. Diffyg diddordeb ac anhawster dod o hyd i amser oedd y rhwystrau mwyaf cyffredin a grybwyllwyd, gyda 28% a 22% o bobl yn nodi’r rhesymau hyn. Fodd bynnag, yn achos oedolion hŷn, nodwyd mai rhesymau iechyd oedd y rhwystr mwyaf ar ôl diffyg diddordeb.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Plant a’r celfyddydau

Dros yr hirdymor, gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy’n mynychu digwyddiadau celfyddydol. Fodd bynnag, mae cyfranogiad plant yn y celfyddydau wedi bod yn fwy sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

Amharwyd ar yr arolygon a gasglwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ystod y pandemig, felly mae’r data diweddaraf sydd ar gael yn dod o 2019. Mae hyn yn dangos bod cyfran y plant a phobl ifanc sy’n mynychu digwyddiadau celfyddydol wedi cynyddu dros y degawd diwethaf, er bod gostyngiad bach wedi bod yn y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer. Fe gododd o 76.3% yn 2010 i 86.7% yn 2019.

Nid yw cyfranogiad plant yn y celfyddydau wedi newid fawr ddim dros y blynyddoedd diwethaf. Fe wnaeth tua 86% i 87% o blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn digwyddiad celfyddydol ym mhob un o’r pedair blynedd diwethaf hyd at 2019.

# Amgueddfeydd ac archifau

Mae’r data diweddaraf yn dangos bod 99 o amgueddfeydd wedi cyrraedd y safon achredu yn 2023. Nid yw hyn wedi newid ers y llynedd, ond mae cynnydd o bump ers 2019. Mae hyn yn golygu bod 62% o amgueddfeydd wedi eu hachredu erbyn hyn, o’i gymharu â 59% yn 2017 i 2019. Cafodd y cynllun achredu ei ohirio yn 2020 a 2021 oherwydd y pandemig felly nid oes ffigurau ar gael ar gyfer y cyfnod hwn.

Mae ymweliadau ag amgueddfeydd wedi gostwng o’i gymharu â’r lefelau cyn y pandemig. Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 31% o bobl wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy’n sylweddol is na’r 43% a gofnodwyd yn 2019-20.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd 14 o wasanaethau archif yn cyrraedd y safon achredu yn 2023, sy'n cyfateb i 93% o wasanaethau archif. Mae cyfran y gwasanaethau archif sydd wedi'u hachredu wedi cynyddu o 57% yn 2017, ond mae wedi bod yn fwy sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae cyfran y bobl sy'n defnyddio archif neu swyddfa cofnodion wedi cynyddu o 5% yn 2019-20 i 8% yn 2022-23.

## Cymryd rhan mewn chwaraeon

Mae mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd. Mae canlyniadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 39% o oedolion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy yn 2022-23, y gyfradd uchaf a gofnodwyd gan yr arolwg. Mae hyn yn gynnydd o tua 10 pwynt canran ers 2016-17 pan gasglwyd yr wybodaeth am y tro cyntaf.

Mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd yn gostwng gydag oedran. Amcangyfrifir bod 57% o bobl ifanc 16 i 24 oed yn cymryd rhan mewn chwaraeon rheolaidd, sy'n gostwng i 13% o bobl ifanc 75 oed a hŷn.

Mae lefelau uwch o gyfranogiad chwaraeon rheolaidd ymysg:


- dynion
- grwpiau oedran iau
- pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- pobl nad oes ganddynt salwch neu gyflwr hirdymor
- pobl sy'n siarad Cymraeg
- pobl nad ydynt mewn amddifadedd materol.

Gostyngodd canran y bobl nad ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon na gweithgarwch corfforol eleni o 44% yn 2021-22 i 40% yn 2022-23. Mae'r ffigur eleni yn debycach i'r blynyddoedd blaenorol. Ar wahân i 2021-22, nid yw cyfradd y bobl nad ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon wedi newid rhyw lawer ers i'r data gael ei gasglu am y tro cyntaf yn 2016-17.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn gyffredinol, byddai 27% o oedolion yn hoffi cymryd rhan mewn mwy o chwaraeon neu weithgarwch corfforol. Mae hyn wedi cwympo’n sylweddol ers yr arolygon blaenorol lle dywedodd bron i 60% y byddent yn hoffi gwneud mwy.

## Ffigur 6.3: Canran yr oedolion sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy, 2016-17 i 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 6.3: Siart llinell yn dangos canran yr oedolion sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy, sydd wedi cynyddu yn yr hirdymor.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyfranogaeth plant mewn chwaraeon

Roedd gostyngiad mawr yn nifer y plant sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon yn 2022.

Cymerodd 39% o ddisgyblion ran mewn chwaraeon wedi’u trefnu y tu allan i’r cwricwlwm dair gwaith yr wythnos neu fwy. Roedd hwn yn ostyngiad 9 pwynt canran ers 2018 pan gynhaliwyd yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion ddiwethaf a dyma’r ffigur isaf erioed a gofnodwyd gan yr arolwg (ychydig yn fwy na'r 40% a adroddwyd yn 2013). Roedd cynnydd mawr hefyd yn y ganran a ddywedodd nad oedd yn cymryd rhan yn aml mewn chwaraeon y tu allan i’r ysgol. Roedd hyn yn 36% yn 2022, i fyny o 28% yn yr arolwg blaenorol. Er gwaethaf y gostyngiad mewn cyfranogiad, roedd mwyafrif helaeth y disgyblion (93%) eisiau gwneud mwy o chwaraeon.

Roedd llai o fechgyn a merched yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn aml, ond mae bechgyn yn dal yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon. Yn 2022, cymerodd 43% o fechgyn ran mewn chwaraeon wedi’u trefnu dair gwaith neu fwy yr wythnos y tu allan i’r ysgol, o’i gymharu â 36% o ferched. Roedd plant oed ysgol gynradd ychydig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd o’i gymharu â phlant oed ysgol uwchradd.


Wrth edrych ar grwpiau ethnig eang, disgyblion o grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig oedd â’r cyfraddau uchaf o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, gyda 43% yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy. Disgyblion nad oeddent wedi nodi eu grŵp ethnig oedd â’r lefelau isaf o gyfranogiad chwaraeon rheolaidd, ac yna disgyblion Asiaidd, Asiaidd Cymreig ac Asiaidd Prydeinig, sef 30%. Mae gwybodaeth am grwpiau ethnig manylach wedi’i chynnwys yn yr is-adroddiad Ethnigrwydd a Llesiant yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Ffigur 6.4: Canran y plant sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy, 2013 i 2022




Disgrifiad o Ffigur 6.4: Siart llinell yn dangos canran y plant sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd. Mae cyfranogiad wedi gostwng yn ddiweddar i lefel debyg a welwyd yn 2013.

Ffynhonnell: Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion

## Siaradwyr Cymraeg

Rydym yn ystyried mai’r cyfrifiad yw’r brif ffynhonnell o wybodaeth am nifer y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 17.8% o bobl tair oed neu hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.


gostwng o 19.0% yn 2011 a dyma’r ganran isaf erioed a gofnodwyd mewn cyfrifiad.

Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer y Gymraeg yw miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dros yr hirdymor, mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi bod yn gostwng o bron i filiwn o bobl yn 1911 i 538,000 erbyn hyn. Er bod y ffigurau diweddaraf yn dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, mae’r nifer yn dal yn uwch na’r pwynt isaf yn 1981, pan oedd dros 504,000 o bobl yn siarad Cymraeg.

Roedd y gostyngiad yn nifer a chanran y bobl tair oed neu hŷn sy’n gallu siarad Cymraeg yn cael ei sbarduno’n bennaf gan ostyngiad ymysg plant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig COVID-19 ar 21 Mawrth 2021. Roedd hyn yn dilyn cyfnodau o gyfyngiadau symud, dysgu o bell i blant ac roedd llawer o bobl yn gweithio gartref. Nid yw’n hysbys a oedd y pandemig wedi effeithio ar allu pobl yn y Gymraeg (neu ganfyddiad o allu pobl eraill i siarad Cymraeg).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 6.5: Pobl tair oed a hŷn sy’n gallu siarad Cymraeg, 1911 i 2021




Disgrifiad o Ffigur 6.5: Siart linell yn dangos nifer y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg ers 1911. Gostyngodd y niferoedd yn sylweddol yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif, gyda newidiadau llai ers hynny.

[Nodyn 1] Ni chynhaliwyd cyfrifiad yn 1941.

Ffynhonnell: Cyfrifiad poblogaeth

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod bron i un o bob deg aelwyd yn cynnwys pobl a oedd i gyd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae’r cyfrifiad yn dangos bod proffil oedran siaradwyr Cymraeg yn iau na phroffil y boblogaeth gyffredinol. O’r rhai a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 2021, roedd dros eu hanner yn iau na 33 oed, ac roedd tri chwarter yn iau na

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

57 oed.

Mae canran uwch o fenywod yn gallu siarad Cymraeg na dynion, gyda'r bwlch yn fwy ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed.

Rhwng 2011 a 2021, roedd canran y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng yn y grwpiau Gwyn a'r grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig. I'r gwrthwyneb, roedd cynnydd yng nghanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y grŵp ethnig Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig; yn y grŵp ethnig Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd; ac yn y grŵp ethnig "Arall".

## Defnydd o'r Gymraeg

Mae'r arolwg diweddaraf o ddefnydd o'r Gymraeg yn dangos mai ychydig o newid a fu o ran pa mor aml mae pobl yn siarad Cymraeg.

Yn 2019-20, roedd 10% o bobl tair oed neu hŷn yn siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau Cymraeg. Dyma'r un ganran ag yn yr Arolwg Defnydd o'r Gymraeg blaenorol yn 2013-15. Mae data mwy diweddar o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer pobl 16 oed neu hŷn hefyd yn awgrymu mai prin fu'r newid cyffredinol yng nghyfradd y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad yr iaith yn amlach na'r rhai nad ydynt yn rhugl.

Mae dadansoddiad diweddar o Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 wedi ymchwilio i ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Mae bron i 70% o blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn dweud bod mwy o'u ffrindiau yn gallu siarad Cymraeg na'r Saesneg. Mae plant a phobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg yn fwy tebygol o wneud hynny gyda'u ffrindiau yn yr ysgol nag ydyn nhw o siarad Cymraeg â ffrindiau y tu allan i'r ysgol.

Ar gyfer oedolion, dywedodd 24% o siaradwyr Cymraeg fod y cyfan neu'r rhan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

fwyaf o'u teulu estynedig yn gallu siarad Cymraeg, gyda 18% yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg â'u teulu estynedig bob amser, neu bron bob amser. Roedd y ffigurau'n is ar gyfer ffrindiau a phobl yn eu cymuned leol. Wrth edrych ar ddefnydd digidol o'r Gymraeg, roedd oedolion Cymraeg eu hiaith yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn negeseuon testun a negeseuon e-bost nag ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Rhuglder yn y Gymraeg

Mae arolygon yn darparu gwybodaeth am rugldor yn y Gymraeg nad yw ar gael o'r cyfrifiad. Nid oes modd cymharu data arolygon â'r cyfrifiad gan fod pobl fel arfer yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg mewn arolygon. Yn wahanol i ganlyniadau Cyfrifiad 2021, mae arolygon wedi dangos cynnydd diweddar yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cael eu harchwilio.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, nid yw cyfran y siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn sy'n rhugl wedi newid rhyw lawer dros y 10 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn yr hirdymor, bu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl.

Mae canran y bobl sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi aros ar oddeutu 10% neu 11% ers 2012-13, yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Dywedodd 23% o bobl eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, ond nid yn rhugl yn Arolwg Cenedlaethol 2022-23. Mae hyn wedi cynyddu tua 10 pwynt canran dros y degawd blaenorol.

## Adeiladau hanesyddol a henebion

Bob blwyddyn, mae Cadw yn asesu cyflwr sampl o adeiladau rhestredig a henebion rhestredig yng Nghymru. Mae cyflwr adeiladau rhestredig yng

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nghymru wedi gwella ychydig ers 2015, ac mae cyflwr henebion rhestredig wedi sefydlogi'n ddiweddar.

O'r 30,000 o adeiladau rhestredig, mae 77% mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella yn 2023, i fyny ychydig o 74% yn 2015. Ystyrir bod 9% o adeiladau rhestredig mewn perygl. Yn gyffredinol, mae cyflwr adeiladau rhestredig wedi aros yn weddol debyg dros y pum mlynedd diwethaf, ond effeithiwyd ar gasglu data yn 2022-23 gan gyfyngiadau a osodwyd gan ffliw adar a oedd yn cyfyngu ar arolygiadau i ardaloedd trefol.

Mae cyflwr cadwraeth sampl o henebion cofrestredig yn cael eu hasesu bob blwyddyn. Yn 2022-23 cynhaliwyd arolygon o gyflwr 316 o henebion, ac roedd 52% o'r sampl yn sefydlog neu wedi gwella.

O'r 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, asesir bod 59% yn gyffredinol mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella. Nid yw hyn wedi newid ers tair blynedd yn olynol, ond dros yr hirdymor mae'r ffigwr wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2016-17, pan oedd 66% mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella. Mae 42% o henebion cofrestredig yn dangos dirywiad, ac mae 14% ohonynt yn cael eu hystyried yn rhai mewn perygl. Y prif effeithiau yw difrod a dirywiad o ganlyniad i effeithiau'r tywydd, llystyfiant ac erydiad stoc.


Dywedodd 63% o bobl eu bod wedi ymweld â safle treftadaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Ffigur 6.6: Canran yr henebion cofrestredig sydd mewn cyflwr sefydlog neu sy’n gwella, 2011-12 i 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 6.6: Siart linell yn dangos cyfran yr henebion cofrestredig sydd mewn cyflwr sefydlog neu sy’n gwella. Dim ond ychydig o newid sydd wedi bod yn y ganran dros y deng mlynedd diwethaf.

Ffynhonnell: Cadw

# Darllen pellach

Roedd fersiynau blaenorol o **adroddiad Llesiant Cymru** yn cynnwys dadansoddiad pellach o:


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- gwirfoddoli neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol neu chwaraeon
- rhwystrau o ran cymryd rhan yn y celfyddydau a gwahaniaethau rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol a phoblogaeth o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a chwaraeon
- tueddiadau yn y mathau o weithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt
- cymryd rhan mewn chwaraeon yn ystod y pandemig
- defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc
- cysylltiadau rhwng y Gymraeg a digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru yn cynhyrchu adroddiadau manwl rheolaidd ar y celfyddydau a chwaraeon. Mae hyn yn cynnwys Arolwg Omnibws y Plant 2019 ac Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion.

Mae amrywiaeth o ddadansoddiadau o’r Gymraeg ar gael hefyd o Gyfrifiad 2021 ac yn adroddiadau’r Arolwg ar y Defnydd o’r Gymraeg ar gyfer 2019-20. Roedd y cyhoeddiadau canlynol yn dadansoddi data arolwg ar y Gymraeg yn fanylach neu’n darparu mwy o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng amcangyfrifon y cyfrifiad ac arolygon:

**Cynllun gwaith ar y cyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru ar gydlyniant ystadegau’r Gymraeg**

**Siarad Cymraeg (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2018 i Fawrth 2019**

**Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth:2001 i 2018**

# Ffynonellau data

## Presenoldeb a chyfranogiad yn y celfyddydau

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Arolwg Omnibws Plant 2019 - Cyngor Celfyddydau Cymru**

## Cymryd rhan mewn chwaraeon

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

**Arolwg Chwaraeon Ysgolion 2018 (Chwaraeon Cymru)**

## Y Gymraeg

### Cyfrifiad 2011

- **Y Gymraeg yng Nghymru**
- **Y Gymraeg yn ôl nodweddion y boblogaeth**
- **Cyfansoddiad cartrefi o ran y Gymraeg**

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

**Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**

**Arolwg ar y Defnydd o'r Gymraeg**

## Adeiladau hanesyddol a henebion

**Cadw**

## Amgueddfeydd ac archifau

CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Y nod ar gyfer Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Awdur: Stefanie Taylor

Gwlad sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o’r fath wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae’r nod hwn yn cydnabod, mewn byd rhyng-gysylltiedig, gall yr hyn rydym yn ei wneud i sicrhau bod Cymru’n genedl gynaliadwy gael effeithiau cadarnhaol y tu allan i Gymru.

## Beth ydym wedi’i ddysgu o’r data yn y flwyddyn ddiwethaf?

- Yn 2021, amcangyfrifwyd bod allyriadau nwyon tŷ gwydr a ryddhawyd i’r atmosffer yn uniongyrchol o Gymru yn gyfanswm o 36.3 miliwn o dunelli o garbon deuocsid cyfatebol (MtCO2e), 7% o gynnydd ers 2020.
- Amcangyfrifwyd bod yr allyriadau sy’n seiliedig ar ddefnydd sy’n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir gan aelwydydd yng Nghymru yn 25.0 MtCO2e yn 2020, 20% o ostyngiad o 2019.
- Cafodd COVID-19 a’r cyfyngiadau cenedlaethol canlyniadol effeithiau sylweddol ar yr economi a chymdeithas, gan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar sail tiriogaethol ac ar sail defnydd yn 2020.
- Mae amcangyfrifon a gynhyrchwyd yn ddiweddar gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn awgrymu bod ôl troed byd-eang Cymru wedi parhau i leihau, sy’n golygu bod Cymru’n lleihau’n raddol arwynebedd y tir sydd ei angen i gynnal ei defnydd o adnoddau byd-eang.
- Yn 2022, cafodd 536 o bobl eu cyfeirio fel dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern i heddluoedd yng Nghymru. Mae hyn yn gynnydd o 12% o’i gymharu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

â 2021 (479 o atgyfeiriadau). Mae'n debyg bod rhywfaint o'r cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i well adroddiadau.

- Rhoddodd yr Uned Priodasau Dan Orfod gyngor neu gymorth mewn 6 achos posibl o briodas dan orfod a/neu achosion bosibl o anffurfio organau cenhedlu benywod yn 2022 yng Nghymru, sef 2% o gyfanswm y Deyrnas Unedig.
- Adroddwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2021 i 2022 fod 11% o oedolion wedi gwneud tri neu ragor o'r pedwar cam gweithredu a ganlyn i helpu gyda materion byd-eang: rhoi neu godi arian, ymgyrchu, gwirfoddoli, neu newid yr hyn maen nhw'n ei brynu.
- Yn 2022 i 2023, roedd 23,622 o ymgeiswyr ar gyfer yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yng nghyfnod allweddol 4, ac 13,988 ar lefel uwch, sy'n dewis cydran her Dinasyddiaeth Fyd-eang.
- Roedd cyfran y plant a oedd wedi cael eu himiwneiddiad rheolaidd erbyn iddynt fod yn bedair oed yn 84.5% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu ag 87.0% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022.
- Yn 2022 i 2023 roedd y nifer a oedd wedi cymryd y '6 mewn 1' (DTaP/IPV/Hib/HepB) ymhlith plant un oed yng Nghymru yn 94.5%, gostyngiad o 95.2% y flwyddyn flaenorol.
- Yn 2022-23 Gostyngodd y nifer a gymerodd y dos cyntaf o MMR erbyn roeddent yn ddwy flwydd oed i 92.9%, o gymharu â 94.2% yn y flwyddyn flaenorol, sy'n is na'r gyfradd darged o 95%.
- Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd dros 2,400 o geiswyr lloches yn cael cymorth yng Nghymru. Mae'r niferoedd sy'n cael cymorth wedi cynyddu ers yr un chwarter yn 2021, gan aros yn sefydlog rhwng 2016 a 2020, ac wedi gostwng rhwng 2020 a 2021.
- Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd cyfanswm o 1,479 o ffoaduriaid wedi cael eu hadsefydlu yng Nghymru o dan y Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed (2016 i 2022) a Chynllun Adsefydlu'r Deyrnas Unedig (2021 ymlaen).
- Yn 2020 i 2021, roedd 21,570 o fyfyrwyr rhyngwladol wedi cofrestru ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru o dros 180 o wledydd, sef 16.6% o'r holl gofrestriadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Beth yw'r cynnydd tymor hwy tuag at y nod?

Mae data ar gyfer rhai o'r dangosyddion cenedlaethol yn awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at y nod Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau hirdymor i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a dangosyddion cenedlaethol eraill sy'n gorgyffwrdd â nod Cymru gydnerth. Mae carreg filltir genedlaethol ar gyfer nwyon tŷ gwydr, sef bod Cymru yn cyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050. Yn 2021, amcangyfrifwyd bod allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rhyddhau i'r atmosffer yn uniongyrchol o Gymru yn gyfanswm o 36.3 miliwn tunnell o garbon deuocsid cyfatebol (MtCO2e), sy'n 35% o ostyngiad ers 1990. Amcangyfrifwyd bod yr allyriadau sy'n seiliedig ar ddefnydd sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir gan aelwydydd yng Nghymru yn 25.0 MtCO2e yn 2020, 37% o ostyngiad o 2001.

Mae hefyd carreg filltir genedlaethol sy'n ymwneud ag ôl troed byd-eang, sef mai dim ond cyfran deg o adnoddau'r ddaear y bydd Cymru yn ei ddefnyddio erbyn 2050. Ein hôl troed byd-eang yw cyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned. Mae amcangyfrifon diweddar a gynhyrchwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a'r Rhwydwaith Ôl Troed Byd-eang (GFN) yn awgrymu bod yr ôl troed byd-eang fesul unigolyn wedi gostwng bron i draean rhwng 2004 a 2018. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod dros ddwywaith yr amcangyfrif o'r biogapasiti yng Nghymru. Pe bai holl boblogaeth y byd yn byw fel dinasyddion Cymru, byddai angen tir cyfwerth â 2.08 Daear ar ddynoliaeth.

# Cyd-destun Byd-eang, Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Ar 1 Ionawr 2016, dechreuodd y byd roi Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 ar waith, sef y cynllun gweithredu trawsnewidiol sy'n seiliedig ar 17 Nod Datblygu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cynaliadwy i fynd i'r afael â heriau mawr y byd dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn pwysleisio agenda gyffredinol sy'n mynnu bod holl aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig - y rhai cyfoethog a rhai tlawd fel ei gilydd – yn cymryd camau i gefnogi datblygu cynaliadwy.

Mae llawer o ffactorau sy'n pennu a yw Cymru'n dod yn wlad sy'n fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'i nodau llesiant penodol i Gymru, yn darparu fframwaith ar gyfer cyfraniad Cymru at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Ar y cyfan, mae'r chwe adroddiad naratif arall, drwy eu hasesiad o'n cynnydd tuag at y nodau llesiant cenedlaethol, yn dangos ein cyfraniad cyffredinol fel cenedl at yr agenda datblygu cynaliadwy ryngwladol. Er enghraifft, rydym yn adrodd mewn mannau eraill ar dueddiadau fel tlodi, anghydraddoldebau a gwaith teg. Felly, mae'r naratif hwn ar y nod Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang yn canolbwyntio ar feysydd sydd fwyaf perthnasol i'r agenda fyd-eang yn benodol.

Mae'r 50 o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer Cymru hefyd wedi cael eu mapio at ddibenion dangosol yn erbyn y 17 Nod Datblygu Cynaliadwy i'ch helpu chi i lywio rhwng cynnydd yma yng Nghymru a'r berthynas â phob un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

## Dangosyddion Cenedlaethol: mapio i'r Nodau Llesiant a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (offeryn rhyngweithiol)

Er bod rhywfaint o'r naratif yn seiliedig ar ddangosyddion cenedlaethol ac ystadegau swyddogol, mae rhywfaint o'r data a gyflwynir yn yr adran hon yn gyd-destunol ac yn defnyddio data neu ddatganiadau ffeithiol sy'n ymwneud â pholisïau neu raglenni, lle rydym wedi ystyried ei fod yn berthnasol i'r naratif cyffredinol. Nid yw'r data hyn yn cael eu casglu drwy ffynonellau ystadegau swyddogol, ac er eu bod yn cael eu cynnwys yma ar gyfer cyd-destun, ni allwn ddarparu sicrwydd llawn ynghylch ansawdd data. Fodd bynnag, lle bo modd, gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y data yn yr Adroddiad Ansawdd ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyfer **Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol a'r adroddiad ansawdd nad yw'n cynnwys dangosyddion**.

## Newid yn yr hinsawdd

Nod 13 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yw "gweithredu ar frys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau".

Mae pobl yng Nghymru yn poeni am newid yn yr hinsawdd.

Mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer 2022 i 2023 yn dangos bod y mwyafrif helaeth (97%) o bobl Cymru o'r farn bod hinsawdd y byd yn newid. Yn 2022 i 2023, roedd 74% o oedolion yn eithaf pryderus neu'n bryderus iawn am newid yn yr hinsawdd, sef canlyniad tebyg i 2021 i 2022 (76%) ac yn 2020 i 2021 (76%).

Yn 2022 i 2023, roedd 56% o bobl o'r farn bod newid yn yr hinsawdd yn ganlyniad i weithgarwch dynol yn bennaf neu'n gyfan gwbl. Mae 94% yn meddwl bod gweithgarwch dynol yn gysylltiedig i ryw raddau â newid hinsawdd y byd.

## Nwyon tŷ gwydr

Mae carreg filltir genedlaethol ar gyfer nwyon tŷ gwydr, sef y bydd Cymru yn cyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050.

Yn 2021, amcangyfrifwyd bod cyfanswm yr allyriadau a ryddhawyd i'r atmosffer yn uniongyrchol o Gymru (a elwir yn allyriadau gwladol) yn cyfateb i 36.3 miliwn o dunelli o garbon deuocsid (MtCO2e), sef cynnydd o 7% o'i gymharu â 2020. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn 2021 yn deillio o gynnydd mewn allyriadau o orsafoedd pŵer, cynhyrchu haearn a dur, a thrafnidiaeth ffyrdd, sy'n cyd-fynd â mwy o weithgarwch yn y sectorau hyn yn dilyn pandemig COVID-19. Er

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gwaethaf y cynnydd hwn yn 2021, mae'r amcangyfrif o allyriadau Cymru yn dal 6% yn is na lefelau cyn pandemig 2019.

Bu 35% o ostyngiad ers y flwyddyn sylfaen (1990). Cafodd y gostyngiad hwn ei ysgogi gan arbedion effeithlonrwydd o ran cynhyrchu ynni a gwresogi'r sector busnes, defnyddio nwy naturiol i ddisodli rhai mathau o lo a thanwyddau eraill yn ogystal ag atafael rhai diwydiannau cemegol. Mae amrywiadau mewn cynnyrch gweithgynhyrchu (er enghraifft, mewn haearn a dur, cynhyrchu cemegion mewn swp) wedi cael effaith sylweddol ar y duedd.

Y sector cyflenwi ynni yw'r ffynhonnell allyriadau mwyaf, sy'n cynhyrchu 26% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae'r sector hwn yn cael ei ddominyddu gan allyriadau o orsafoedd pŵer nwy.


Y sector busnes yw'r ail ffynhonnell fwyaf sy'n cyfrif am bron i 24% o allyriadau Cymru. Mae'r sector hwn yn cael ei ddominyddu gan hylosgi tanwyddau ffosil ym maes cynhyrchiant diwydiannol, yn bennaf wrth gynhyrchu haearn a dur. Dilynir hyn gan y sector amaethyddiaeth (16%), y sector trafnidiaeth (15%), y sector preswyl (10%), y sector prosesau diwydiannol (6%), gyda sectorau eraill yn gwneud cyfraniadau llai o 5% neu lai.

Mae'r ffigurau hyn ar allyriadau nwyon tŷ gwydr gwladol yn ystyried allyriadau yng Nghymru yn unig. Nid yw hyn yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau y tu allan i Gymru hyd yn oed os yw'r rhain yn cael eu mewnforio i Gymru. Yn yr un modd, mae allyriadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru yn cael eu cyfrif fel allyriadau Cymru hyd yn oed os yw'r rhain yn cael eu hallforio i'w defnyddio mewn mannau eraill. Cafodd cwmpas y dangosydd cenedlaethol hwn ei ymestyn ym mis Rhagfyr 2021 i gynnwys cyfran Cymru o'r sector hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol. Mae hyn bellach wedi'i gynnwys fel 'Allforio' y sector Cyfathrebu Cenedlaethol.

## Ffigur 7.1: Amcangyfrif o allyriadau gwladol Cymru o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## nwyon tŷ gwydr (Mt CO2e), 1990 i 2021




Disgrifiad o Ffigur 7.1: Mae'r siart linell yn dangos cyfaint yr allyriadau nwyon tŷ gwydr (megatunnell) yng Nghymru rhwng 1990 a 2021. Mae allyriadau yng Nghymru wedi gostwng 35% ers y flwyddyn sylfaen (1990), ond roedd cynnydd o 7% mewn allyriadau 2021, o’i gymharu â 2020.

Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr a briodolir i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru

Amcangyfrifir allyriadau nwyon tŷ gwydr sy’n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir gan aelwydydd yng Nghymru (a elwir yn allyriadau sy’n seiliedig ar ddefnydd neu ôl troed carbon). Mae’r amcangyfrifon hyn yn mesur yr allyriadau sy’n cael eu cynhyrchu’n uniongyrchol gan aelwydydd yng


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nghymru (gan gynnwys gwresogi a gyrru, er enghraifft), allyriadau sy’n digwydd yn y Deyrnas Unedig i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau sy’n cael eu defnyddio yng Nghymru, ac allyriadau sy’n cael eu ‘mewnforio’ mewn gwledydd eraill i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau sy’n cael eu defnyddio yng Nghymru.


Yn gyffredinol, mae allyriadau defnydd wedi gostwng ers 2001. Rhwng 2001 a 2020 mae allyriadau wedi gostwng o 40.0 MtCO2e i 25.0 MtCO2e (37% o ostyngiad). Wrth gymharu effeithiau pandemig COVID-19 â 2001 a 2019, mae’r gostyngiad tua 21%. Allyriadau sydd wedi’u cynnwys mewn nwyddau a gwasanaethau a fewnforir (a ddefnyddiwyd yng Nghymru ond a gynhyrchwyd dramor) oedd y ffynhonnell fwyaf o allyriadau dros y cyfnod hwn.

Mae gan yr amcangyfrifon hyn lefel uchel o ansicrwydd oherwydd ei bod yn anodd mesur allyriadau sydd wedi’u cynnwys mewn mewnforion ac mae’r data hyn yn cael eu graddio i lefel Cymru, gan ddefnyddio arolwg sydd â maint sampl cyfyngedig. Felly, efallai na fydd amrywiadau mewn data blynyddol yn adlewyrchu’r newidiadau gwirioneddol i allyriadau a dylid ystyried y duedd hirdymor dros amser.

Gellir ystyried yr allyriadau tiriogaethol a defnydd ochr yn ochr â’i gilydd. Mae’r amcangyfrifon allyriadau hyn yn mesur gwahanol ffynonellau allyriadau ac yn defnyddio gwahanol ddulliau. Mae’r allyriadau tiriogaethol yn defnyddio ffynonellau a dulliau data mwy cadarn, felly maent yn fwy sicr na’r allyriadau defnydd. Mae’r dangosydd allyriadau defnydd yn helpu i ganfod a yw gostyngiadau mewn allyriadau yng Nghymru yn cael eu gwrthbwyso gan allyriadau sy’n cael eu ‘mewnforio’ o dramor. Yn wahanol i wledydd eraill y Deyrnas Unedig, mae allyriadau tiriogaethol yn uwch yng Nghymru nag allyriadau defnydd. Gallai hyn fod oherwydd bod Cymru yn cynhyrchu lefelau uwch o allyriadau diwydiant trwm ac ynni na ellir ei adnewyddu yn ôl ei phoblogaeth o gymharu â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 7.2: Amcangyfrif o ôl troed allyriadau defnydd Cymru (Mt CO2e), 2001 i 2020**




Disgrifiad o Ffigur 7.2: Mae'r siart llinell yn dangos bod cyfaint yr allyriadau defnydd amcangyfrifedig (megatunelli) yng Nghymru yn dangos tuedd gyffredinol ar i lawr ers 2001. Rhwng 2001 a 2020, mae ôl troed allyriadau defnydd amcangyfrifedig Cymru wedi gostwng 37%, o 40 Mt CO2e i 25 Mt CO2e.

Ffynhonnell: Ôl Troed Allyriadau Defnydd, Cymru (2001 i 2020) (Mt CO2e), amcangyfrif o allyriadau ar sail defnydd, Prifysgol Leeds.

# Ôl troed byd-eang

Ein hôl troed byd-eang yw cyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned. Yn fyd-eang, rydym yn defnyddio mwy o adnoddau naturiol nag y gall y byd eu disodli.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Un ffordd o fesur ein hôl troed byd-eang a’r diffyg ecolegol hwn yw cyfrifo’r hyn a elwir yn Ôl-troed Ecolegol, sy’n cynrychioli’r darn o dir sydd ei angen i ddarparu deunyddiau crai, ynni a bwyd yn ogystal ag amsugno’r llygredd a'r gwastraff a greir. Mae’n cael ei fesur mewn hectarau global.

Mae’r bwyd mae pobl yn ei fwyta, y ffordd rydym yn teithio a’r ynni rydym yn ei ddefnyddio gartref yn dylanwadu ar ein hôl troed byd-eang. Mae hefyd yn gyfrifol am brynu cynnyrch a gwasanaethau, o yswiriant i setiau teledu, i eitemau o ddillad. Mae hefyd yn cynnwys effeithiau gweithgarwch adeiladu a buddsoddi mewn seilwaith.


Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer y dangosydd hwn yw y bydd Cymru ond yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau’r byd erbyn 2050. Mae’r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi cyfrifo ôl-troed byd-eang ar gyfer Cymru yn ddiweddar gan ddefnyddio’r fethodoleg Ôl-troed Ecolegol. Mae hyn yn rhan o brosiect ehangach i wella dealltwriaeth o ôl troed amgylcheddol byd-eang ac effeithiau nwyddau sy’n cael eu defnyddio yng Nghymru, ond a allai gael eu cynhyrchu yn unrhyw le yn y byd.

Cynhyrchwyd ôl troed ecolegol gan ddefnyddio dwy fethodoleg ychydig yn wahanol – un yn defnyddio data sy’n benodol i Gymru (ar gael ar gyfer 2019) yn unig, a’r llall yn defnyddio data mewnbwn gwahanol a symlach (drwy ddosrannu data’r Deyrnas Unedig i Gymru) er mwyn gallu cynhyrchu cyfres amser. Oherwydd ei allu i fonitro newid dros amser, mae’r olaf yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar gynnydd yn erbyn y dangosydd cenedlaethol a’r garreg filltir.

Gan ddefnyddio’r fethodoleg ôl troed ecolegol, mae ôl troed byd-eang Cymru wedi gostwng yn gyffredinol o tua 17.0 miliwn hectar global (gha) yn 2004 i 12.3 miliwn gha yn 2018. Mae’r ôl troed byd-eang fesul unigolyn wedi gostwng bron i draean dros y cyfnod amser hwn, ac roedd yn 3.9 gha y pen yn 2018. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod dros ddwywaith yr amcangyfrif o’r biogapasiti yng Nghymru. Mewn geiriau eraill, pe bai holl boblogaeth y byd yn byw fel dinasyddion Cymru, byddai angen tir cyfwerth â 2.08 Daear ar ddynoliaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 7.3: Ôl troed byd-eang, hectarau global (gha) y pen, 2004 i 2018




Disgrifiad o Ffigur 7.3: Siart llinell yn dangos yr ôl-troed byd-eang (gha) y pen yng Nghymru, bob tair/pedair blynedd rhwng 2004 a 2018. Mae'r ôl-troed byd-eang fesul unigolyn wedi gostwng yn raddol dros y cyfnod.

Ffynhonnell: Deall Ôl Troed Amgylcheddol Byd-eang ac Effeithiau Defnydd Cymru, JNCC

Mae mesur arall o Ôl-troed Ecolegol Cymru yn defnyddio data mewnbwn o ansawdd ychydig yn uwch, ond nid yw'n galluogi cymharu dros amser. Roedd yr ôl-troed hwn tua 10.7 miliwn gha yn 2019, sy'n cyfateb i tua 3.4 ha fesul unigolyn.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol

Yn 2021 i 2022, am y tro cyntaf, gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i bobl pa weithgareddau yr oeddent wedi eu gwneud i helpu gyda materion rhyngwladol fel tlodi, hawliau dynol, rhyfel, ffoaduriaid, neu newid yn yr hinsawdd. Gofynnwyd y cwestiynau hyn cyn y rhyfel yn Wcráin.

Roedd 11% o'r rhai a arolygwyd wedi gwneud tri neu ragor o'r pedwar cam gweithredu a ganlyn i helpu gyda materion byd-eang: rhoi neu godi arian, ymgyrchu, gwirfoddoli, neu newid yr hyn maen nhw'n ei brynu.

Mae 31% o bobl yn dweud eu bod nhw wedi rhoi arian yn ystod y tri mis blaenorol i helpu gyda materion byd-eang. Y materion mwyaf cyffredin y rhoddodd pobl arian tuag atynt oedd tlodi rhyngwladol (21%) a chynorthwyo ffoaduriaid (15%). Roedd 36% o fenywod yn dweud eu bod nhw wedi rhoi arian, o'i gymharu â 26% o ddynion.

Dywed 17% o bobl eu bod nhw wedi ymgyrchu dros faterion rhyngwladol yn y 12 mis diwethaf i helpu gyda materion byd-eang, a dywed 5% eu bod nhw wedi gwirfoddoli. Roedd 11% o bobl wedi ymgyrchu dros faterion hawliau dynol a 10% yn erbyn newid yn yr hinsawdd, tra bo 2% wedi gwirfoddoli i roi terfyn ar dlodi a 2% i helpu ffoaduriaid.

Dywed 54% eu bod wedi newid yr hyn maent yn ei brynu oherwydd materion byd-eang. Mae pobl o dan 75 oed yn fwy tebygol o fod wedi newid yr hyn maent yn ei brynu (57%) na phobl 75 oed a hŷn (34%). Pobl rhwng 25 a 44 oed oedd y grŵp mwyaf tebygol o fod wedi gwneud newidiadau i'r hyn maent yn ei brynu (63%).

# Caethwasiaeth modern

Mae nifer y dioddefwyr posibl o gaethwasiaeth fodern yng Nghymru sy'n cael eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hatgyfeirio wedi parhau i gynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys targed ar gyfer ‘Rhoi terfyn ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl’. Caethwasiaeth fodern yw’r term sy’n cael ei ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig ac mae wedi ei ddiffinio yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae’r ddeddf yn categoreiddio troseddau o gaethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol neu drwy rym a masnachu pobl.

Yn ôl yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, mae nifer yr achosion o ddioddefwyr posibl caethwasiaeth sy’n cael eu hadrodd i’r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol neu drwy broses y Ddyletswydd i Hysbysu yn parhau i gynyddu bob blwyddyn yng Nghymru.

Yn 2022, cafodd 536 o bobl eu cyfeirio fel dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern i heddluoedd yng Nghymru. Mae hyn yn gynnydd o 12% o’i gymharu â 2021 (479 o atgyfeiriadau).

Mae’n debyg bod rhywfaint o'r cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn deillio o brosesau adrodd gwell a newidiadau yn y ffordd y cofnodir y data. Yn 2022 roedd 136 o’r atgyfeiriadau ar gyfer menywod (25%) ac roedd 400 ar gyfer dynion (75%).

Cafodd 164 (31%) o unigolion eu cyfeirio ar gyfer categorïau camfanteisio ar oedolion ac fe gafodd 355 (66%) eu cyfeirio ar gyfer camfanteisio yn unigolyn ifanc dan oed. 17 (3%) heb eu nodi neu’n anhysbys.

Y math mwyaf cyffredin o gamfanteisio ar gyfer oedolion a phlant dan oed oedd camfanteisio troseddol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod

Mae priodasau dan orfod neu achosion posibl o anffurfio organau cenhedlu benywod yn cael eu nodi yng Nghymru.


Mae nod 5 y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys targed i 'gael gwared ar yr holl arferion niweidiol, fel gorfodi plentyn i briodi neu briodi'n gynnar ac anffurfio organau cenhedlu benywod'.

Yn ôl y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, rhoddodd yr Uned Priodasau Dan Orfod gyngor neu gymorth mewn 6 achos posibl o briodas dan orfod a/neu achosion bosibl o anffurfio organau cenhedlu benywod yn 2022 yng Nghymru, sef 2% o gyfanswm y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn ostyngiad bach o 8 o achosion (2% o gyfanswm y Deyrnas Unedig) yn 2021.

Oherwydd y niferoedd isel o'i gymharu â rhai rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae'r duedd ar gyfer Cymru wedi bod yn anwadal rhwng 2015 a 2022. Ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud cyntaf, gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau i'r FMU. Mae'n bosibl bod y pandemig yn gyfrifol am hyn, fel cyfyngiadau ar briodasau a theithio. Mae newid i'r drefn o ran a ddylid cofnodi achos newydd fel atgyfeiriad neu ymholiad cyffredinol hefyd yn debygol o fod wedi cael effaith fach ar nifer cyffredinol yr achosion o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ac felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu'n uniongyrchol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 7.4: Nifer yr achosion a gafodd gyngor neu gymorth gan yr Uned Priodasau dan Orfod yng Nghymru, 2015 i 2022 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 7.4: Mae'r siart linell yn dangos bod yr Uned Priodasau Dan Orfod (FMU) wedi rhoi cyngor neu gymorth mewn 6 achos yn ymwneud â phriodas bosibl dan orfod a/neu achos bosibl o anffurfio organau cenhedlu bywyd (FGM) yng Nghymru yn 2022. Oherwydd y niferoedd isel o'i gymharu â rhai rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae'r duedd ar gyfer Cymru wedi bod yn anwadal rhwng 2015 a 2022.

Ffynhonnell: Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, Ystadegau'r Uned Priodasau dan Orfod 2022

[Nodyn 1] Oherwydd y newidiadau mewn arferion cofnodi, nid oes modd cymharu'r data o 2020 yn uniongyrchol â data'r blynyddoedd blaenorol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae SDG y Cenhedloedd Unedig, sef ‘Addysg o Safon’, yn cydnabod pwysigrwydd cael addysg o ansawdd a bod yr holl ddysgwyr yn meddu ar yr wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, gan gynnwys ffyrdd cynaliadwy o fyw, hawliau dynol, cydraddoldeb rhywiol a dinasyddiaeth fyd-eang.

Yn 2022 i 2023, roedd 23,622 o ymgeiswyr ar gyfer yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yng nghyfnod allweddol 4, ac 13,988 ar lefel uwch, sy’n dewis cydran her Dinasyddiaeth Fyd-eang. Ar gyfer cyfnod allweddol 4, mae data dros dro yn dangos bod 98.8% o’r ceisiadau wedi llwyddo ar lefel 1 neu uwch, ac ar y lefel uwch, roedd 99.0% wedi pasio lefel 3 neu uwch.

# Eco-Ysgolion

Mae Eco-ysgolion yn rhaglen fyd-eang sy’n ymgysylltu â miliynau o blant mewn 73 o wledydd. Mae wedi ei chynllunio i rymuso ac ysbrydoli pobl ifanc i wneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol i’w hysgol a’r gymuned ehangach, gan adeiladu ar eu sgiliau allweddol, gan gynnwys rhifedd a llythrennedd. Yng Nghymru, mae Eco-Ysgolion yn cael eu rhedeg gan Cadwch Gymru’n Daclus gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, ac mae’n rhad ac am ddim i holl ysgolion y wladwriaeth.

O fis Ebrill 2023 ymlaen, roedd 811 o ysgolion y wladwriaeth wedi cael achrediad Baner Werdd Eco-Ysgolion, ac roedd 454 ohonynt wedi cyrraedd statws platinwm, am ymrwymiad hirdymor i’r rhaglen. Mae gan 306 o ysgolion eraill wobr efydd a/neu arian, gan weithio eu ffordd tuag at achrediad baner werdd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 1,100 o ysgolion wedi ymgysylltu â Cadwch Gymru'n Daclus i gymryd camau i helpu'r amgylchedd drwy Eco-

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ysgolion, Fy Nghoeden, Ein Coedwig: ar gyfer Ysgolion, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, neu fentrau eraill Cadwch Gymru'n Daclus.

## Myfyrwyr Rhyngwladol


Mae pobl ifanc yng Nghymru yn dysgu am faterion byd-eang ond mae gostyngiad wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n mynychu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Mae nifer mawr o fyfyrwyr o amrywiaeth o wledydd yn mynychu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Yn 2021 i 2022, cofrestrwyd 25,090 o fyfyrwyr rhyngwladol ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru (heb gynnwys cofrestriadau addysg uwch mewn darparwyr addysg bellach a chofrestriadau yng nghanolfan genedlaethol y Brifysgol Agored yng Nghymru). Mae hyn yn cynnwys 19% o gofrestriadau lle mae domisil y myfyriwr yn hysbys. O'r rhain, roedd 4,170 gan fyfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd (3% o'r holl gofrestriadau), ac 20,920 gan fyfyrwyr o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (16% o'r holl gofrestriadau). Ar ei anterth yn 2010 i 2011, roedd 26,290 o fyfyrwyr rhyngwladol wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a oedd yn cyfrif am 20% o'r boblogaeth myfyrwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 7.5: Canran y myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n fyfyrwyr rhyngwladol, 2007 i 2008 i 2021 i 2022 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 7.5: Mae'r siart linell yn dangos canran y myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a oedd yn fyfyrwyr rhyngwladol, rhwng 2007 i 2008 a 2021 i 2022. Yn 2021 i 2022, cofrestrwyd 19% o fyfyrwyr rhyngwladol.

Ffynhonnell: Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

[Nodyn 1] Nid yw'n cynnwys cofrestriadau yn y Brifysgol Agored ac addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Tlodi bwyd

Mae rhai oedolion yng Nghymru yn wynebu tlodi bwyd ac yn poeni am fforddio bwyd.
Un o nodau'r Cenhedloedd Unedig, sef 'Dim Newyn' yw rhoi diwedd ar newyn, sicrhau diogelwch bwyd a gwella maeth.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2022 i 2023, roedd 3% o aelwydydd wedi cael bwyd gan fanc bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf gyda 3% arall yn dweud nad oeddent wedi cael bwyd ond eu bod wedi dymuno cael hynny.

Yn ôl yr arolwg hefyd, roedd 5% o oedolion yn dweud eu bod wedi mynd heb bryd o fwyd sylweddol o leiaf un diwrnod yn y pythefnos cynt. Roedd hyn yn debyg i 2021 i 2022 (4%).

# Ceiswyr lloches

Mae nifer y ceiswyr lloches sy'n derbyn cymorth wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ond mae wedi cynyddu ers dechrau'r degawd.

Nod rhif 16 y Cenhedloedd Unedig yw 'hyrwyddo cymdeithasau heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygu cynaliadwy, darparu mynediad at gyfiawnder i bawb a chreu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysol ar bob lefel'.

Nid yw ffigurau cyflawn ar gyfer nifer y ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cael eu hadsefydlu yng Nghymru ar gael. Fodd bynnag, cyhoeddir ffigurau sy'n ymwneud â nifer y ffoaduriaid sy'n adsefydlu o dan Gynllun Adsefydlu'r Deyrnas Unedig (a'r Cynllun Adsefydlu pobl agored i niwed gynt), a nifer y rhai sy'n derbyn cymorth lloches ar hyn o bryd.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd cyfanswm o 1,479 o ffoaduriaid wedi cael eu hadsefydlu yng Nghymru o dan y Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

(2016 i 2022) a Chynllun Adsefydlu'r Deyrnas Unedig (2021 ymlaen).

Mae Adran 95 yn darparu cymorth i geiswyr lloches sydd â chais am loches neu apêl heb ei ddatrys a cheiswyr lloches aflwyddiannus a oedd â phlant yn eu cartref pan ddefnyddiwyd yr holl hawliau apelio a oedd yn bosibl, ac mae'n cynnwys y rhai sy'n derbyn:

- (a) Llety gwasgaredig – y rhai sy'n derbyn llety yn unig, neu lety a chynhaliaeth.
- (b) Cynhaliaeth yn unig: lle mae'r ymgeisydd yn derbyn arian i gynnal ei hun ond wedi dod o hyd i'w lety ei hun.


Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd dros 2,400 o geiswyr lloches yn cael cymorth yng Nghymru. Mae'r niferoedd sy'n cael cymorth wedi cynyddu ers yr un chwarter yn 2022, gan aros yn sefydlog rhwng 2016 a 2020, ac wedi gostwng rhwng 2020 a 2021.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 7.6: Nifer y ceiswyr lloches sy’n derbyn cymorth Adran 95, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2004 i 2023




Disgrifiad o Ffigur 7.6: Mae’r siart linell yn dangos bod nifer y ceiswyr lloches sy’n cael cymorth wedi aros yn gyson yn ystod blynyddoedd 2016 i 2020, wedi’i ddilyn gan ostyngiadau nes 2022, gyda chynnydd bach yn 2023.

Ffynhonnell: Ystadegau Mewnfudo’r Swyddfa Gartref, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023

Yn 2022, achosodd y rhyfel yn Wcráin i lawer o bobl ffoi rhag y gwrthdaro. Ar ddiwedd mis Awst 2022, mae dros 9,000 o fisâu wedi cael eu rhoi i bobl o Wcráin sydd â noddwr yng Nghymru. Darparodd Llywodraeth Cymru rôl “uwch-noddwr” i dros 4,600 o’r rhain. Roedd dros 6,900 o bobl â noddwyr yng Nghymru wedi cyrraedd y Deyrnas Unedig erbyn 8 Awst 2023.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Darpariaeth brechu

Mae nifer y plant ifanc sy’n cael eu brechu yn parhau i fod yn uchel ond mae wedi gostwng ychydig ers ei lefelau uchaf, ac roedd gostyngiad yn y niferoedd sy’n cael eu brechu yn 2022 i 2023 o’i gymharu â 2021 i 2022.

Mae nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, sef ‘Iechyd a llesiant da’, yn nodi pwysigrwydd darparu mynediad at feddyginiaethau a brechlynnau fforddiadwy a hanfodol. Mae gan Sefydliad Iechyd y Byd weledigaeth ar gyfer byd heb y frech goch, rwbela a syndrom rwbela cynhenid.

Roedd y nifer a oedd yn cael y brechlyn ‘6 mewn 1’ DTaP/IPV/Hib/HepB1 (y tri dos) ymysg plant sy’n cyrraedd eu pen-blwydd cyntaf wedi gostwng ychydig o 94.5 %, o’i gymharu â 95.2% yn y flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd y nifer a gymerodd y dos cyntaf o MMR erbyn roeddent yn ddwy flwydd oed i 92.9%, o gymharu â 94.2% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn is na’r cyfartaledd ar gyfer atal achosion o’r frech goch (targed yw 95%).


Roedd cyfran y plant a oedd wedi cael eu himiwneiddiadau rheolaidd erbyn eu bod yn bedair oed yn 84.5% eleni. Yn genedlaethol, roedd canran y plant a oedd yn cael eu himiwneiddiadau rheolaidd erbyn iddynt fod yn bedair oed yn amrywio o 78.4% yn y cwintel mwyaf difreintiedig o ACEHI i 89.6% yn y cwintel lleiaf difreintiedig o ACEHI. Y gwahaniaeth yn y defnydd rhwng y cwintel lleiaf difreintiedig a’r cwintel mwyaf difreintiedig oedd 11.2 pwynt canran. Mae hyn yn ehangu’r bwlch anghydraddoldeb o’i gymharu â 2021 i 2022 (8.5 pwynt canran). Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i nodi gwraidd yr anghydraddoldebau hyn a chanfod ymyriadau i leihau’r bwlch.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 7.7: Canran y plant sy'n cael eu himiwneiddiadau yng Nghymru, 2008 i 2009 i 2022 i 2023




Disgrifiad o Ffigur 7.7: Mae'r siart linell yn dangos canran y bobl a gafodd y brechlyn MMR a'r brechlyn 6 mewn 1 rhwng 2008 i 2009 a 2022 i 2023. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn '6 mewn 1' wedi aros yn weddol sefydlog ers 2008 i 2009, ond bu gostyngiad bach yn y defnydd bob blwyddyn ers 2019 i 2020. Mae'r nifer sy'n cymryd MMR wedi gostwng ychydig bob blwyddyn ers 2020 i 2021.

Ffynhonnell: Data cenedlaethol ar y nifer sy'n manteisio ar imiwneiddio, Iechyd Cyhoeddus Cymru

[Nodyn 1] Mae'r brechlyn '6 mewn 1' yn amddiffyn yn erbyn difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio, hib a haint hepatitis B. Byddai'r rhan fwyaf o'r plant un oed y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn gymwys ar gyfer y brechlyn '6 mewn 1', gan ddisodli'r brechlyn '5 mewn 1' sydd i fod i gael ei roi i fabanod pan


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

fyddant yn bedwar, wyth a 12 mis oed.

[Nodyn 2] Mae MMR yn amddiffyn rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela. Mae'r data'n dangos y nifer sy'n cymryd y dos cyntaf yn ddwy oed.

Cam diweddaraf rhaglen frechu COVID-19 oedd cyflwyno pigiad atgyfnerthu'r gwanwyn 2023 i bawb sy'n 75 oed ac yn hŷn, y rhai sydd â system imiwnedd hynod fregus ac oedolion hŷn sy'n byw mewn cartref gofal. Ym mis Gorffennaf 2023, yn achos y rhai sy'n 75 oed ac yn hŷn, a'r rhai sy'n dioddef o wrthimiwnedd, roedd y niferoedd yn uwch ymysg dynion (76.0% a 51.7%) na menywod (71.8% a 48.2%). Mae hyn yn wahanol i'r patrwm a nodwyd yn ystod camau cynharach rhaglen frechu COVID-19, lle roedd y ddarpariaeth fel arfer yn uwch ymysg menywod. Roedd y ddarpariaeth ymysg preswylwyr cartrefi gofal yn 71.5% ymysg dynion a 81.4% ymysg menywod. Roedd y nifer yn uwch yn y grwpiau ethnig Cymysg Gwyn o'i gymharu â'r grwpiau Du, Asiaidd, Cymysg a grwpiau ethnig eraill cyfunedig. Roedd hyn yn wir ym mhob un o grwpiau a oedd yn gymwys ar gyfer hwb y gwanwyn. Roedd bwlch o 28 pwynt canran yn y defnydd rhwng y grwpiau Gwyn (69%) a'r grwpiau Du, Asiaidd, Cymysg a'r grwpiau Ethnig eraill (41%).

## Cosbi plant yn gorfforol


Daeth cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru ar 21 Mawrth, 2022. Cafodd y canlyniadau a gyflwynir yma ar gyfer 2021 i 2022 eu casglu rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Ionawr 2022, cyn i'r gyfraith hon ddod i rym.

Gofynnwyd i rieni a'r bobl nad ydyn nhw'n rhieni am eu barn ynglŷn â smacio plant ac a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod angen gwneud hynny weithiau. Mae'n ymddangos bod agweddau wedi newid ers i'r cwestiwn hwn gael ei ofyn ddiwethaf yn 2019 i 2020. Yn 2019 i 2020, dywedodd 35% o bobl fod weithiau angen smacio plentyn o'i gymharu â 25% yn 2021 i 2022, a 26% yn 2022 i 2023. Mae'r gyfran sy'n anghytuno'n gryf bod weithiau angen smacio oedd 39%, a oedd yn debyg i'r gyfran o 40% yn 2021 i 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn 2022 i 2023, dywedodd 30% o ddynion a 22% o fenywod bod angen smacio plentyn weithiau. Roedd 75% o bobl rhwng 16 a 24 yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod angen smacio weithiau o'i gymharu â 40% o bobl 75 oed neu hŷn.

## Ffigur 7.8: P'un ai ydynt yn cytuno ar yr angen i smacio weithiau, 2019 i 2020 i 2022 i 2023 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 7.8: Mae'r siart bar yn dangos a yw ymatebwyr yn cytuno bod angen smacio weithiau ar gyfer y blynyddoedd 2019 i 2020 i 2022 i 2023. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn 2022 i 2023 yn anghytuno.

[Nodyn 1] Yn 2019 i 2020, cynhaliwyd yr arolwg wyneb yn wyneb, ac o 2021 i 2022 ymlaen, newidiodd y dull i gyfweliad dros y ffôn.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Safleoedd treftadaeth y byd

Mae nod ‘Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy’ y Cenhedloedd Unedig yn nodi pwysigrwydd gwarchod a diogelu treftadaeth naturiol y byd.

Mae safleoedd treftadaeth y byd yn llefydd o “werth cyffredinol eithriadol i’r holl ddynoliaeth”. Mae hyn yn golygu bod eu harwyddocâd diwylliannol a/neu naturiol mor eithriadol fel ei fod yn bwysig iawn i bobl ym mhob man, nawr ac yn y dyfodol.

Yn 2021 cafodd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru ei hychwanegu at Restr Treftadaeth y Byd UNESCO, y pedwerydd safle yng Nghymru.

Ymunodd â Thirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn ne-ddwyrain Cymru, Traphont ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yng ngogledd-ddwyrain Cymru a Chestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd yng Nghaernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech yng ngogledd-orllewin Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 7.9: Map o safleoedd treftadaeth y byd UNESCO yng Nghymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.




Disgrifiad o Ffigur 7.9: Map yn dangos lleoliad y pedwar safle treftadaeth byd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yng Nghymru.

Ffynhonnell: **Rhestr Treftadaeth y Byd UNESCO** (Saesneg yn unig)

# Darllen pellach

**Rhoi diwedd ar gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru**

**Rhestr Treftadaeth y Byd (UNESCO)** (Saesneg yn unig)

**Ystadegau ar bobl o Wcráin yn y Deyrnas Unedig (Y Swyddfa Gartref)** (Saesneg yn unig)

**Eco-Ysgolion (eco-schools.org.uk)** (Saesneg yn unig)

**Eco-Sgolion - Cadwch Gymru'n Daclus (Cadwch Gymru'n Daclus)**

# Ffynonellau data

Newid yn yr hinsawdd, **Arolwg Cenedlaethol Cymru**

**Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl blwyddyn, Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol**

**Ôl Troed Allyriadau Defnydd Cymru**

**Deall Ôl Troed Amgylcheddol Byd-eang ac Effeithiau Defnydd Cymru (JNCC)** (Saesneg yn unig)

Dinasyddiaeth Fyd-eang Weithredol, **Arolwg Cenedlaethol Cymru**

**Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a Dyletswydd i Hysbysu ystadegau'r**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Deyrnas Unedig, crynodeb diwedd blwyddyn 2021 (y Swyddfa Gartref)** (Saesneg yn unig)

**Priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod (Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu)** (Saesneg yn unig)

Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang, dadansoddiad a ddarparwyd gan CBAC (gweler y tablau data cyfatebol)

Canran y myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n fyfyrwyr rhyngwladol:

- **StatsCymru**
- **HESA** (Saesneg yn unig)

Eco-Ysgolion, data a ddarparwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus (gweler y tablau data cyfatebol)

Tlodi Bwyd, **Arolwg Cenedlaethol Cymru**

**Nifer y ceiswyr lloches sy'n derbyn cymorth adran 95 yng Nghymru (Swyddfa Gartref)** (Saesneg yn unig)

Ystadegau cynllun nawdd Wcráin, y Swyddfa Gartref a'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (DLUHC):

- **Cynllun nawdd Wcráin** (Saesneg yn unig)
- **Gweinyddiaethau Datganoledig ar lefel awdurdodau lleol** (Saesneg yn unig)

Darpariaeth Brechu:

- **Data cenedlaethol ar y nifer sy'n manteisio ar imiwneiddio (Iechyd Cyhoeddus Cymru)**
- **Adroddiad ar gydraddoldeb gwyliadwriaeth well brechu COVID-19**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru) (Saesneg yn unig)

Cosbi plant yn gorfforol, Arolwg Cenedlaethol Cymru

# Gwybodaeth gefndir

## Beth yw'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru o ran cyflawni'r saith nod llesiant. Mae'n adroddiad statudol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n adroddiad sy'n ymwneud â chynnydd Cymru fel cenedl. Nid yw'n adroddiad ar berfformiad sefydliad unigol. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Medi 2017.

Eleni, rydym wedi cyhoeddi adroddiad atodol ar ethnigrwydd a llesiant. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad atodol o'r data sydd yn adroddiad Llesiant Cymru, gan ddarparu dadansoddiadau ar gyfer grŵp ethnig lleiafrifol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddfwriaeth y DU) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n bwriadu gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn helpu i greu Cymru rydym i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno saith nod llesiant i wneud Cymru yn wlad lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am hawlfraint.

chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae rhagor o wybodaeth gefndir am y Ddeddf yn y **canllaw hanfodion**.

## Beth yw'r dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru?

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol sy'n asesu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Rhwng mis Medi 2015 a mis Ionawr 2016 cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad cyhoeddus eang** i nodi pa set fach o ddangosyddion y dylid eu datblygu i fesur cynnydd yn erbyn y nodau llesiant. Cyhoeddwyd y **dangosyddion cenedlaethol hyn ym mis Mawrth 2016** a'u cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn 2021, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn ar ddangosyddion newydd posibl sy'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o COVID-19. Ar sail yr ymatebion hyn a'r mewnbwn ehangach, mae rhai dangosyddion wedi cael eu diweddaru ac mae 4 dangosydd cenedlaethol newydd wedi cael eu cynnwys, a chafodd y set o ddangosyddion **ei ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2021**.

Mae'r dangosyddion cenedlaethol wedi eu llunio i gynrychioli'r canlyniadau ar gyfer Cymru a'i phobl a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at y saith nod llesiant. Nid ydynt yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer sefydliad unigol.

Mae disgrifiad llawn o'r dangosyddion cenedlaethol, gan gynnwys eu diffiniad technegol a gwybodaeth am eu ffynonellau data ac amlder yn y **ddogfen dechnegol**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Sut mae hyn yn berthnasol i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig?

Mae Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 yn gynllun gweithredu trawsnewidiol sy'n seiliedig ar **17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig** – i fynd i'r afael â heriau mawr y byd dros y 15 mlynedd nesaf. Mae 17 nod byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn golygu y bydd yn rhaid i bob gwlad ar y blaned weithredu i roi diwedd ar dlodi, hyrwyddo ffyniant a llesiant i bawb, diogelu'r amgylchedd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r nodau hynny i fod yn bellgyrhaeddol, yn canolbwyntio ar bobl, yn gyffredinol ac yn drawsnewidiol. Mae aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig wedi ymrwymo i weithio'n ddiflino i'w gweithredu erbyn 2030, a bydd Cymru'n chwarae ei rhan.

Bydd llawer o ddangosyddion cenedlaethol yn helpu i adrodd am y cynnydd yng Nghymru yn erbyn mwy nag un o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Rydym wedi **mapio'r dangosyddion** yn erbyn y nodau.

## Beth yw'r cerrig milltir cenedlaethol?

Yn ogystal â gosod dangosyddion cenedlaethol, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu cerrig milltir cenedlaethol i helpu i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Yn dilyn eu datblygu ac ymgynghori arnynt drwy gydol 2021, **cafodd y don gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol eu gosod gerbron y Senedd ym mis Rhagfyr 2021** a'r ail don ym mis Tachwedd 2022.

## Pwy gynhyrchodd yr adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad wedi ei gynhyrchu gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru o dan gyfrifoldeb Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru. Mae wedi ei gynhyrchu yn unol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

â’r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau** ac felly, mae wedi ei gynhyrchu’n annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol.

# Amseroldeb

Mae’r adroddiad wedi ei gynhyrchu ym mis Medi er mwyn sicrhau ei fod mor agos â phosibl at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol ond ar ôl cyhoeddi Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy’n ffynhonnell ar gyfer 13 o’r dangosyddion cenedlaethol.

Bydd y data ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol yn cael ei ddiweddaru wrth i setiau data newydd gael eu cyhoeddi ar gyfer y dangosyddion hynny.

# Cwmpas

Mae’r adroddiad hwn yn ymdrin ag ystod eang o bynciau, ac felly dim ond mesurau cynnydd lefel uchel y mae modd eu hystyried yn yr adroddiad hwn. Mae dadansoddiad manylach o lawer o’r pynciau hyn ar gael drwy’r amrywiaeth o ddatganiadau ystadegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ONS neu gynhyrchwyr ystadegol eraill.

Cwmpas yr adroddiad yw Cymru. Ar gyfer rhai dangosyddion, cyfeirir at y sefyllfa o’i chymharu â’r Deyrnas Unedig. Mae’r naratif yn erbyn y nodau ac ar gyfer pob dangosydd yn seiliedig ar gynnydd cenedlaethol yn erbyn y nodau, ac nid yw’n ceisio darparu adroddiad ar gynnydd ar wahanol lefelau daearyddol. Fodd bynnag, mae data ar gyfer nifer o ddangosyddion ar gael yn **StatsCymru**, ar gais, gyda llai o fanylder daearyddol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Hygyrchedd

Mae’r adroddiad wedi ei gynhyrchu fel adroddiad ar-lein i wella hygyrchedd, ymatebolrwydd, a phrofiad defnyddwyr.

Mae’r rhan fwyaf o’r data sy’n sail i’r adroddiad, gan gynnwys dadansoddiadau llawer mwy manwl, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru.

## A yw’r holl ddata’n ystadegau swyddogol?

Llynedd, rhoddwyd statws Ystadegau Gwladol i adroddiad Llesiant Cymru. Mae hyn yn golygu ei fod wedi cael ei asesu’n annibynnol i fodloni’r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth.

Mae’r rhan fwyaf o’r dangosyddion (36) yn seiliedig ar ffynonellau a gyhoeddwyd fel ystadegau swyddogol. Hynny yw, maent wedi eu cyhoeddi gan ystadegwyr y llywodraeth, neu gan gyrff cyhoeddus eraill, o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae 28 o’r dangosyddion hyn yn seiliedig ar ffynonellau sydd wedi eu cyhoeddi fel Ystadegau Gwladol. Hynny yw, mae Awdurdod Ystadegau’r Deyrnas Unedig wedi dynodi’r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol, sy’n dangos ei fod yn cydymffurfio â’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae hyn yn golygu eu bod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Mae 12 dangosydd yn seiliedig ar ffynonellau eraill fel data gweinyddol a ddelir gan adrannau’r llywodraeth. Nid oes data ar gyfer dau ddangosydd ar hyn o bryd.

Er nad yw holl ffynonellau’r data a ddefnyddir yn dod o ystadegau swyddogol, mae’r adroddiad ei hun wedi ei ddatblygu a’i gyhoeddi’n unol â’r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Beth arall ddylwn i ei wybod am y data?

Mae'r **adroddiad ansawdd ar gyfer adroddiadau dangosyddion cenedlaethol** ochr yn ochr â'r datganiad hwn yn darparu dolenni i wybodaeth am bob un o'r ffynonellau data a ddefnyddir i fesur y dangosyddion cenedlaethol, neu mae'n darparu'r wybodaeth honno lle nad yw'n bodoli mewn mannau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r naratif yn adroddiad Llesiant Cymru yn dod o ddangosyddion cenedlaethol, mae rhywfaint o'r data'n dod o ystadegau swyddogol eraill neu ystadegau a thystiolaeth eraill lle rydym wedi ystyried eu bod yn berthnasol i'r naratif cyffredinol. Mae'r data sydd ddim yn cael ei gasglu drwy ffynonellau ystadegau swyddogol yn cael eu defnyddio yn adroddiad Llesiant Cymru ar gyfer cyd-destun, ond ni allwn bob amser sicrhau ansawdd data. Gan fod y data yn yr adroddiad cynnydd wedi dod o amrywiaeth o setiau data, bydd lefel yr wybodaeth o ansawdd sydd ar gael yn amrywio ym mhob achos. Rydym wedi darparu dolenni i'r ffynonellau gwreiddiol a'u gwybodaeth ansawdd lle maent yn bodoli.

Trwy gydol yr adroddiad, defnyddir cyfeiriadau at flynyddoedd calendr, ariannol ac academaidd. Wrth gyfeirio at flynyddoedd academaidd, defnyddir '/' (e.e. 2021/22), ac ar gyfer blynyddoedd ariannol defnyddir '-' (e.e. 2021-22).

## Pwy sy'n defnyddio'r adroddiad hwn?

Rhagwelir y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru; y Senedd (gan gynnwys Aelodau'r Senedd a'i phwyllgorau); y cyfryngau; a'r cyhoedd yn gyffredinol i helpu i ddeall (i) Llesiant Cymru (ii) deall y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y saith nod llesiant a (iii) deall ble mae Cymru'n gwneud cynnydd yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir yn gallu helpu cyrff cyhoeddus

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sy'n ddarostyngedig i gyfraith cenedlaethau'r dyfodol i ddeall mwy am natur y newid a ddisgwylir wrth gyflawni'r nodau llesiant. Dylid ystyried y dangosyddion cenedlaethol fel tystiolaeth ddefnyddiol i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall y prif feysydd lle dylid gwneud cynnydd mewn perthynas â'r nodau llesiant.

Bydd gan y dangosyddion cenedlaethol hefyd rôl benodol gan fod yn rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gyfeirio atynt wrth ddadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn eu hardaloedd. Dylai cyrff cyhoeddus hefyd ddefnyddio'r adroddiad i ddatblygu ac adolygu asesiadau llesiant ac i bennu ac adolygu'r nodau llesiant sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Rhaid i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ystyried yr adroddiad blynyddol ar Lesiant Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol'.

## Cyd-destun y Deyrnas Unedig

Ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, mae gan y **Swyddfa Ystadegau Gwladol Raglen Llesiant Genedlaethol**. Mae'r **dangosfwrdd llesiant (y Swyddfa Ystadegau Gwladol)** yn rhoi trosolwg gweledol o'r 44 prif ddangosydd llesiant cenedlaethol a gellir eu harchwilio drwy'r 10 maes bywyd (meysydd) neu drwy gyfeiriad y newid.

Yn yr Alban, mae'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol yn nodi gweledigaeth ar gyfer llesiant cenedlaethol ac yn mesur cyflawniad mewn perthynas â hyn. Lansiwyd Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol diwygiedig ym mis Mehefin 2018 yn dilyn proses adolygu agored ac mae'n seiliedig ar statud (Deddf Grymuso Cymunedau (Yr Alban) 2015).

Mae'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol diwygiedig yn mapio ei 11 Canlyniad Cenedlaethol i ddau ar bymtheg Nod Datblygu Cynaliadwy (SDG) y Cenhedloedd Unedig ac mae'n rhan bwysig o'r broses o leoleiddio agenda'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nodau Datblygu Cynaliadwy yn yr Alban. Adroddir ar gynnydd tuag at y weledigaeth a nodir yn y NPF mewn ffordd agored a thryloyw ar wefan y **Fframwaith Partneriaeth Cenedlaethol** drwy 81 o ddangosyddion cenedlaethol sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o fesurau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Yn ogystal â dangos perfformiad ar lefel genedlaethol, gall ystod o is-grwpiau demograffig a daearyddol archwilio'r data i weld a yw canlyniadau'n cael eu gwireddu ar gyfer gwahanol rannau o gymdeithas yr Alban.

Yng Ngogledd Iwerddon, y prif fecanwaith ar gyfer asesu llesiant cymdeithasol yw'r fframwaith llesiant o 12 canlyniad a ddatblygwyd gan y Weithrediaeth flaenorol, ac a gafodd ei drafod a'i fireinio yn ystod 2016-2017. Mae'r fframwaith hwn, sy'n cynnwys 49 o ddangosyddion poblogaeth ategol, yn cynnwys **Cynllun Cyflawni Canlyniadau Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon**.

Mae Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon yn parhau i gymryd rhan yn y rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol sy'n cael ei harwain gan ONS ac mae'n cyhoeddi **dadansoddiad llesiant (Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon)** yn seiliedig ar fesurau llesiant ONS, lle mae data sydd ar gael yng Ngogledd Iwerddon yn caniatáu hynny.

## Dolenni perthnasol eraill

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru)**

**Tueddiadau yn y dyfodol**

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

**Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig**

**Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y Deyrnas Unedig (Yr Adran Datblygu Rhyngwladol)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y Deyrnas Unedig: Adroddiad atodol Cymru 2019

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.